



Strategaeth Rheoli Perygl Llifogydd Lleol Gwynedd

Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd (HRA) (Ymgynghoriad Drafft)

Chwefror 2024

CPF8599



Taflen Rheoli Dogfen

Teitl y Ddogfen:	Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd (Ymgynghoriad Drafft)
Awdur(on) y Ddogfen:	Rhys Thomas
Cyfeirnod / Teitl y Prosiect:	CPF 8599 – Strategaeth Rheoli Perygl Llifogydd Lleol
Rheolwr Prosiect:	Rhydian Roberts

Hanes Adolygu

Dyddiad	Rhif fersiwn	Crynodeb o'r Newidiadau
08/11/2023	0.01	Drafft Cychwynnol
17/11/2023	0.02	Drafft diwygiedig yn dilyn adolygiad
27/02/2024	0.03	Drafft wedi'i ddiweddarau i adlewyrchu mân newidiadau i amcanion GLFRMS

Adolygiadau

Enw	Teitl	Dyddiad	Fersiwn
Nancy Wilkinson	Uwch Swyddog Amgylchedd (Ecoleg)	14/11/2023	0.02

Cymeradwyaeth

Enw	Teitl	Dyddiad	Fersiwn
Rhydian Roberts	Prif Beiriannydd	27/02/2014	0.03

Dosbarthiad

Enw	Teitl	Dyddiad	Fersiwn

© 2023-24 Cyngor Gwynedd / YGC. Cedwir Pob Hawl.

Mae hawlfraint unrhyw ran neu'r cyfan o'r ddogfen hon yn perthyn i Gyngor Gwynedd / YGC o Swyddfeydd y Cyngor, Stryd y Jêl, Caernarfon, Gwynedd LL55 1SH (y 'Perchennog') ac ni ellir ei defnyddio, ei gwerthu, ei throsglwyddo, ei chopio na'i hatgynhyrchu yn gyfan neu'n rhannol mewn unrhyw ffurf na dull nac ar unrhyw gyfrwng i unrhyw berson heblaw bod hynny'n unol â thelerau cytundeb y Perchennog neu fel arall heb ganiatâd ysgrifenedig y Perchennog ymlaen llaw.



ISO9001:2015
F5526386



ISO14001:2015
EMS 526388



ISO45001
OHS 526389

Cynnwys

- 1.0 CYFLWYNIAD5
- 2.0 YR ANGEN AM ASESU A NODI SAFLEOEDD EWROPEAIDD SYDD MEWN PERYGL12
- 3.0 SGRINIO23
- 4.0 ASESU TEBYGOLRWYDD EFFEITHIAU CYFUNOL48
- 5.0 BARN SGRINIO FFURFIOL50
- 6.0 ASESAD PRIODOL51
- 7.0 CASGLIAD62
- 8.0 CYFEIRIADAETH63

Atodiadau

- A. Safleoedd Ewropeaidd o fewn neu gerllaw ardal GLFRMS.
- B. Safleoedd Ewropeaidd a Allai fod mewn Perygl – Tabl cyn-sgrinio

Rhestr Talfyriadau

AA	Appropriate Assessment / Asesiad Priodol
AEOI	Adverse Effect on the Integrity of the Site / Effaith Andwyol ar Gyfanrwydd y Safle
AIES	Assessment of Implications on European Sites / Asesiad o'r Goblygiadau ar gyfer Safleoedd Ewropeaidd
cSAC	Candidate Special Area of Conservation / Ymgeisydd Ardal Cadwraeth Arbennig
DCWW	Dŵr Cymru Welsh Water
EMS	European Marine Site / Safle Morol Ewropeaidd
FCERM	Flood and Coastal Erosion Risk Management / Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol
FCS	Favourable conservation status / Statws cadwraeth ffafriol
FRMP	Flood Risk Management Plan / Cynllun Rheoli Risg Llifogydd
GLFRMS	Gwynedd Local Flood Risk Management Strategy / Strategaeth Rheoli Perygl Llifogydd Lleol Gwynedd
GPP	Guidance for Pollution Prevention / Canllaw Atal Llygredd
HRA	Habitats Regulations Assessment / ARhC - Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd
IEEM	Institute of Ecology and Environmental Management / Sefydliad Ecoleg a Rheolaeth Amgylcheddol
INNS	Invasive Non-native Species / Rhywogaethau Ymwthiol Anffrodorol
IROPI	Imperative Reasons of Over-riding Public Interest / Rhesymau Hanfodol Er Budd Cyhoeddus Tra Phwysig
JLDP	Joint Local Development Plan / CDLI ar y Cyd - Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd
JNCC	Joint Nature Conservation Committee / Cydbwyllgor Cadwraeth Natur
LDP	Local Development Plan / CDLI - Cynllun Datblygu Lleol
LLFA	Lead Local Flood Authority / ALLLIA - Awdurdod Llifogydd Lleol Arweiniol
LSE	Likely Significant Effect / Effaith Arwyddocaol Debygol
NFM	Natural Flood Management / Rheolaeth Llifogydd Naturiol
NRW	Natural Resources Wales / CNC - Cyfoeth Naturiol Cymru
OMS	Offshore Marine Site / Safle Morol Alltraeth
PEU	Plainly Established and Uncontroversial / Wedi'i Sefydlu'n Amlwg ac yn Annadleuol
PPG	Pollution Prevention Guideline / Canllaw Atal Llygredd
pRamsar	Possible Ramsar Site / Safle Ramsar Posib
pSAC	Possible Special Area of Conservation / Ardal Cadwraeth Arbennig Bosib
pSPA	Potential Special Protection Area / Ardal Gwarchodaeth Arbennig Arfaethedig
RBMP	River Basin Management Plan / Cynllun Rheoli Basn Afon
SAC	Special Area of Conservation / ACA - Ardal Cadwraeth Arbennig
SMP	Shoreline Management Plan / Cynllun Rheoli'r Traethlin
SPA	Special Protection Area / AGA - Ardal Gwarchodaeth Arbennig
SuDS	Sustainable Drainage System / System Ddraenio Gynaliadwy
TAN	Technical Advice Note / NCT - Nodyn Cyngor Technegol
WG	Welsh Government / LIC - Llywodraeth Cymru
WNMP	Welsh National Marine Plan / Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru

Crynodeb Gweithredol

Mae Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd (HRA) yn ofynnol o dan Gyfarwydddeb Cynefinoedd yr UE (92/43/EEC) ar gyfer unrhyw gynllun neu brosiect arfaethedig a allai gael effaith sylweddol ar un neu fwy o safleoedd Ewropeaidd ac nad yw'n angenrheidiol ar gyfer rheoli'r safleoedd hynny. Fel yr awdurdod cymwys, mae Cyngor Gwynedd felly wedi asesu effeithiau posib ei Strategaeth Rheoli Perygl Llifogydd Lleol ar 'safleoedd Ewropeaidd' (sef Ardaloedd Cadwraeth Arbennig, Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig a safleoedd Ramsar).

Cafodd ymarfer sgopio ei gwblhau i ddechrau i nodi'r safleoedd Ewropeaidd sy'n disgyn o fewn ardal Strategaeth Rheoli Perygl Llifogydd Lleol Gwynedd (GLFRMS). Yna, aeth yr ymarfer hwn ymlaen i nodi pa rai o'r safleoedd hyn fyddai'n debygol o barhau i beidio cael eu heffeithio gan y GLFRMS ac felly na fyddai angen eu hystyried ymhellach. Cafodd 7 safle eu sgopio allan, gan adael 25 o safleoedd Ewropeaidd, sy'n cynnwys 18 SAC, 4 SPA a 3 Safle Ramsar, i'w hystyried yn yr asesiad.

Cafodd ymarfer sgopio hefyd ei gwblhau i ymchwilio pa Amcanion / Camau Gweithredu GLFRMS oedd â'r potensial am effaith sylweddol ar safleoedd Ewropeaidd. Gallai effeithiau andwyol posib, a gysylltir gyda'r GLFRMS, godi o nifer cyfyngedig o'r amcanion GLFRMS. Mae llawer o'r opsiynau yn ymwneud â gweithrediadau nad ydynt yn andwyol yn amgylcheddol, megis datblygu ymgysylltiad cymunedol ar berygl llifogydd a chynllunio argyfwng, ac felly ni fydd yn cael effaith andwyol ar yr amgylchedd.

Cynhaliwyd proses sgrinio a oedd yn cynnwys asesiad o effeithiau sylweddol tebygol ar y safleoedd Ewropeaidd a nodwyd a sgriniwyd, gan ystyried amcanion GLFRMS a sgriniwyd ac effeithiau tebygol yr amcanion/camau gweithredu hyn. Daeth yr ymarfer sgrinio i'r casgliad na ellid diystyru effeithiau sylweddol tebygol (LSE) ar gyfer cyfanswm o 18 SAC, 4 SPA a 3 safle Ramsar. Felly, roedd angen asesiad priodol ar gyfer yr effeithiau sylweddol tebygol hyn.

Casglodd yr Asesiad Priodol y gallai rhai o amcanion/camau gweithredu'r GLFRMS effeithio ar gyfanrwydd safleoedd Ewropeaidd. Fodd bynnag, oherwydd lefel uchel y strategaeth, nid yw'n bosib dod i gasgliad gydag unrhyw sicrwydd pa safleoedd, os o gwbl, fydd yn cael eu heffeithio, neu os bydd yr effeithiau yn sylweddol.

Bydd angen i gynlluniau a phrosiectau/cynlluniau a gyfyd o'r GLFRMS fod yn destun HRA os oes posibilrwydd o effeithio ar Safleoedd Dynodedig Ewropeaidd, o dan y Rheoliadau Cynefinoedd.

Ar gyfer effeithiau tebygol a nodwyd, dangosodd yr asesiad fod dulliau lliniaru effeithiol ar gael ar lefelau haen is. Cyn belled â bod mesurau lliniaru effeithiol a phriodol yn cael eu gweithredu, gellir casglu na fydd unrhyw effaith andwyol ar gyfanrwydd Safle Ewropeaidd o ganlyniad i fabwysiadu'r GLFRMS. Felly, casglodd yr Asesiad Priodol nad yw'r GLFRMS yn debygol o gael unrhyw effeithiau sylweddol ar safleoedd Ewropeaidd ynddo'i hun nac mewn cyfuniad â chynlluniau neu brosiectau eraill. Bydd angen asesiadau manwl ar lefelau haen is i adnabod unrhyw effeithiau sylweddol tebygol ar lefel penodol i safle a gweithredu'r mesurau lliniaru gofynnol i'w hosgoi.

1.0 CYFLWYNIAD

Mae Cyngor Gwynedd ar hyn o bryd yn datblygu ei Strategaeth Rheoli Perygl Llifogydd Lleol (LFRMS) ac yn cynnal Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd (HRA) yn unol â gofynion Rheoliadau Gwarchod Cynefinoedd a Rhywogaethau 2010 (fel y'u diwygiwyd).

Cyfeirir at Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd yn aml hefyd fel Asesiad Priodol (AA) er bod y gofyniad am Asesiad Priodol yn cael ei bennu yn gyntaf gan gam 'sgrinio' cychwynnol a gynhelir fel rhan o'r HRA llawn. Mae adroddiad sgrinio'r HRA yn mynd i'r afael â'r effeithiau sylweddol tebygol ar Safleoedd Ewropeaidd dynodedig wrth weithredu amcanion a mesurau'r LFRMS.

Mae Cyngor Gwynedd yn paratoi ei LFRMS yn ei rôl fel Awdurdod Llifogydd Lleol Arweiniol (LLFA), o dan y Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010. Bydd LFRMS Gwynedd yn anelu at fynd i'r afael â rheoli perygl llifogydd ar raddfa leol o fewn ffin y sir, gan gynnwys ardal Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri sydd o fewn Gwynedd. Mae perygl llifogydd lleol yn cynnwys dŵr wyneb ffo, dŵr daear a chysiau dŵr cyffredin (yn cynnwys llynnoedd a phyllau). Diffinnir cyrsiau dŵr cyffredin fel rhai nad ydynt yn ffurfio rhan o brif afon.

Rhaid i'r LFRMS nodi'r isod:

- 1) Yr awdurdodau rheoli perygl yng Ngwynedd;
- 2) Y swyddogaethau rheoli perygl llifogydd ac arfordirol y gellir eu hymarfer gan yr awdurdodau hynny mewn perthynas â Gwynedd;
- 3) Yr amcanion i reoli perygl llifogydd lleol;
- 4) Y mesurau a gynigir i gyflawni'r amcanion hynny;
- 5) Sut a phryd y disgwylir i'r mesurau hynny gael eu gweithredu;
- 6) Costau a manteision y mesurau hynny a sut y telir amdanynt;
- 7) Asesiad o berygl llifogydd lleol i ddibenion y strategaeth;
- 8) Sut a phryd fydd y strategaeth yn cael ei hadolygu; a
- 9) Sut mae'r strategaeth yn cyfrannu at gyflawni'r amcanion amgylcheddol ehangach.

Rhaid i'r LFRMS gyd-fynd â'r Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Rheoli Llifogydd ac Erydu Arfordirol gan Lywodraeth Cymru. Mae'r Strategaeth Genedlaethol yn nodi'r cyd-destun deddfwriaethol i weithgareddau FCERM yng Nghymru. Yn bennaf, bydd hyn yn ymdrin â pherygl llifogydd o brif afonydd, y môr a chronfeydd dŵr. Fodd bynnag, rhaid ystyried rhyngweithiad yr agweddau hyn gyda ffynonellau lleol o lifogydd o fewn yr LFRMS o hyd.

O fewn ardal gweithredu LFRMS mae amryw o safleoedd cadwraeth natur dynodedig sy'n rhan o rwydwaith Natura 2000; rhwydwaith o ardaloedd gwarchod natur ar draws yr UE yw hwn a sefydlwyd o dan Gyfarwyddeb Cynefinoedd 1992 (92/43/EEC) i sicrhau goroesiad hirdymor rhywogaethau a chynefinoedd mwyaf gwerthfawr Ewrop sydd o dan fygythiad. Mae'r rhwydwaith yn cynnwys Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (SAC) a ddynodwyd gan Aelod-wladwriaethau o dan y Gyfarwyddeb Cynefinoedd, ac mae hefyd yn ymgorffori Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig (SPA) a ddynodwyd o dan Gyfarwyddeb Adar 1979 (79/409/EEC), fel y'i disodlwyd gan Gyfarwyddeb Adar 2009 (2009/147/EC). Ynghyd â safleoedd Ramsar, sy'n wlyptiroedd o bwysigrwydd rhyngwladol a ddynodwyd o dan y Confensiwn ar Wlyptiroedd (Ramsar, Iran, 1971), cyfeirir at y rhain ar y cyd fel 'Safleoedd Ewropeaidd'.

Cyn iddo gael ei fabwysiadu'n ffurfiol, mae'n rhaid i Gyngor Gwynedd, fel yr awdurdod cymwys, ystyried effeithiau posib ei LFRMS ar Safleoedd Ewropeaidd gan ddefnyddio proses a elwir yn Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd (HRA). Mae'r adroddiad hwn yn dogfennu rhan gyntaf y broses, sy'n sgrinio'r tebygolrwydd o effeithiau andwyol sylweddol ar fuddiannau cymwys y Safleoedd Ewropeaidd ac yn dod i'r casgliad a ddylai'r LFRMS Drafft Terfynol fod yn destun Asesiad Priodol cyn iddo gael ei fabwysiadu'n ffurfiol.

1.2 Awduron

Paratowyd yr HRA hwn gan:

- Rhys Meilyr Thomas, PGDip, gyda 5 mlynedd o brofiad ymgynghori ecolegol, gan gynnwys HRA ac Asesiad o Effaith Amgylcheddol (EIA) prosiectau mawr;
- Nancy Wilkinson PGDip BSc (Anrh.) MCIEEM, gyda dros 15 mlynedd o brofiad ymgynghori ecolegol, gan gynnwys HRA ac Asesiad o Effaith Ecolegol (EcIA) prosiectau mawr.

1.3 Safleoedd Ewropeaidd a Ramsars

Mae Cyfarwyddeb Cynefinoedd yr UE yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau cymwys asesu effeithiau cynlluniau a phrosiectau ar rwydwaith Natura 2000 o safleoedd gwarchoddedig, gan gynnwys Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig (SPA) ac Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (SAC). Yng Nghymru a Lloegr, gweithredir y Gyfarwyddeb gan Reoliadau Gwarchod Cynefinoedd a Rhywogaethau a Chynllunio (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru a Lloegr) 2017 (y 'Rheoliadau Cynefinoedd'). Mae'r rhain yn nodi'r gofyniad am Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd (HRA) lle bo angen, yn cynnwys cyfres o brofion mandadol.

Yn ôl polisi a chynghor y Llywodraeth, dylai 'Gwlyptiroedd o Bwysigrwydd Rhyngwladol' neu safleoedd Ramsar, er nad ydynt yn ddarostyngedig i'r Rheoliadau Cynefinoedd, gael eu trin o fewn y system gynllunio yn yr un modd â SAC ac SPA (neu 'safleoedd Ewropeaidd'). Rhoddir yr un lefel o amddiffyniad hefyd i safleoedd posib neu arfaethedig (h.y. pSPA, pSAC a pRamsar), nad ydynt wedi'u dynodi'n ffurfiol eto.

1.4 Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd (HRA) Cynlluniau

Mae'r broses Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd yn gofyn am gydymffurfio gyda gweithdrefnau a chymhwysio dull asesu. Mae gweithdrefnau statudol y mae'n rhaid cydymffurfio â hwy wrth asesu cynlluniau. Mae'r gofynion gweithdrefnol cam wrth gam hyn wedi'u nodi yn y Rheoliadau Cynefinoedd (a grynhoir isod yn Ffigur 1).

Nid yw'r Rheoliadau Cynefinoedd yn rhagnodi methodoleg benodol ar gyfer cynnal asesiad o gynllun, na sut i adrodd ar ddeilliannau'r asesiad. I sicrhau bod gofynion gweithdrefnol y Gyfarwyddeb a'r Rheoliadau wedi'u bodloni neu'n cael eu bodloni, argymhellir proses cam wrth gam, gan fynd trwy bedwar cam asesu. Dylid gwneud hyn yn y dilyniant cywir o gamau fel bod pob cam yn cael ei ystyried yng nghyd-destun y broses gyfan.

Yn gyntaf, mae proses cyn-sgrinio yn sefydlu a oes modd rhyddhau, eithrio neu ddileu cynllun, naill ai oherwydd ei fod yn uniongyrchol gysylltiedig gyda neu'n angenrheidiol i reoli cadwraeth safle gwarchoddedig, neu nad yw'n 'gynllun' o fewn ystyr a chwmpas y Gyfarwyddeb Cynefinoedd, neu oherwydd nad ystyrir y gallai effeithio ar unrhyw safleoedd gwarchoddedig. Os na ellir ei ddiystyru am y rhesymau hyn, mae'n rhaid iddo fynd drwy broses sy'n ymwneud â'r pedwar cam a amlinellir yn Nhabl 1 a Ffigur 1 isod.

Y cam cyntaf yw sgrinio'r cynllun i nodi a allai arwain at effaith sylweddol debygol, boed ar ei ben ei hun neu ar y cyd â chynlluniau neu brosiectau eraill. Ar yr amod y gellir diystyru'r effeithiau sylweddol hyn, nid oes angen asesiad pellach. Yn dilyn cyfraith achosion ddiweddar (People over Wind, 2017), ni ellir cymryd mesurau lliniaru i ystyriaeth ar hyn o bryd.

Os na ellir diystyru effeithiau sylweddol tebygol, yna bydd y cynllun yn symud ymlaen i'r cam 'Asesiad Priodol' sy'n archwilio'r effeithiau o ran amcanion cadwraeth y safle. Mae hyn er mwyn adnabod a oes modd canfod *na fydd yn cael effaith andwyol ar gyfanrwydd y safle Ewropeaidd*. Dim ond ar y cam hwn y gellir ystyried neu orfodi mesurau lliniaru. Os gall yr Asesiad Priodol ddiystyru unrhyw effeithiau andwyol ar gyfanrwydd safleoedd Ewropeaidd (gyda neu heb fesurau lliniaru), yna gellir cymeradwyo'r cynllun.

Os na ellir diystyru effeithiau andwyol, yna bydd yr asesiad yn symud ymlaen i gam tri a phedwar a gellir ceisio rhanddirymiadau penodol. Mae'r rhain yn penderfynu a oes atebion amgen yn bodoli ac os nad oes, a oes rhesymau hanfodol er budd cyhoeddus tra phwysig yn berthnasol ac os felly, a yw iawndal yn ymarferol. Dylid nodi mai fel y dewis olaf y dylid ystyried defnyddio'r rhanddirymiadau a dim ond mewn amgylchiadau eithriadol. Datrysir y rhan fwyaf o gynlluniau yn ystod camau 1 a 2 o'r broses HRA, gan mai ychydig fyddai'n llwyddo i basio profion llym camau 3 a 4.


Tabl 1: Crynodeb o'r broses HRA pedwar cam

Cam	Prawf	Tasg
1	Sgrinio	Os na ellir eithrio'r prosiect o'r broses (cyn-sgrinio), mae'r cam hwn yn penderfynu a fydd y prosiect yn arwain at 'effaith sylweddol debygol' ar safle Ewropeaidd ar ei ben ei hun neu ar y cyd â chynlluniau neu brosiectau eraill. Mae'r cam hwn yn defnyddio dull rhagofalus iawn, heb ystyried mesurau lliniaru. Mae'r cam hwn yn cynnwys casglu gwybodaeth am y safleoedd gwarchoddedig ond nid yw'n ddadansoddiad manwl o'r effeithiau.
2	Asesiad Priodol a Phrawf Cyfanrwydd	Os na ellir diystyru 'effeithiau sylweddol tebygol', bydd yn rhaid cynnal 'asesiad priodol' mwy trylwyr i asesu a yw'n bosib canfod a fydd y prosiect yn cael 'effaith andwyol ar gyfanrwydd y safle' (AEOI) ai peidio. Gellir ystyried mesurau lliniaru ar y cam hwn ond nid cyn hynny.
3	Atebion Amgen	Os na ellir diystyru 'AEOI', rhaid i'r HRA archwilio a allai 'atebion amgen' llai andwyol gyflawni amcan cyffredinol y prosiect.
4	Rhesymau Hanfodol Er Budd Cyhoeddus Tra Phwysig (IROPI) ac Iawndal	Os nad oes unrhyw atebion amgen yn bodoli, all y prosiect ddim ond mynd yn ei flaen os yw 'IROPI' yn berthnasol a rhaid cyflawni 'mesurau iawndal' cyn y gellir rhoi caniatâd.

Mae'r HRA hwn yn defnyddio canllawiau a ddarperir gan y Llawlyfr Asesu Rheoliadau Cynefinoedd (DTA, 2013, rhifyn Ionawr 2021), sy'n tynnu ar arfer gorau a chyfraith achosion o'r DU ac ar draws yr UE i lywio arfer gorau. Mae'r diffiniadau o derminoleg HRA a ddefnyddiwyd yn yr asesiad i'w gweld yn y Llawlyfr HRA.

Mae'r ddogfen hon yn cynnwys gwybodaeth ar gyfer Cam 1 (Sgrinio) - Prawf o'r Effeithiau Arwyddocaol Tebygol a gwybodaeth i lywio Cam 2: Asesiad Priodol – ystyried effaith y cynllun ar gyfanrwydd y safleoedd a warchodir yn rhyngwladol, naill ai ar ei ben ei hun neu ar y cyd â phrosiectau neu gynlluniau eraill.

Mae graddau gwybodaeth, defnydd o farn broffesiynol ac egwyddor ragofalus barn broffesiynol wedi'u defnyddio wrth gasglu data ac wrth ddehongli canlyniadau a gafwyd mewn perthynas ag effeithiau posib, lliniaru ac arwyddocâd unrhyw effeithiau gweddilliol, ac ystyriaeth yn erbyn amcanion cadwraeth. Os nad oes gwybodaeth yn wybyddus am effaith bosib ar rywogaeth, yna mae'r egwyddor ragofalus wedi'i defnyddio.



Extract from *The Habitats Regulations Assessment Handbook*, www.dtapublications.co.uk
 © DTA Publications Limited (October 2018) all rights reserved
 This work is registered with the UK Copyright Service

Ffigur 1: Amlinelliad o'r dull pedwar cam ar gyfer yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd o gynlluniau

1.5 Diffiniadau, Tystiolaeth a Chyfraith Achosion

Cam Un – Sgrinio

Yng nghyd-destun effaith sylweddol debygol, mae 'tebygol' yn golygu posibilrwydd (neu risg o) effaith sylweddol na ellir diystyru y bydd yn digwydd ar sail gwybodaeth wrthrychol. Mae 'sylweddol' yn golygu a yw'n debygol o danseilio amcanion cadwraeth safle o bwysigrwydd Ewropeaidd/rhyngwladol. Gellir diffinio 'gwybodaeth wrthrychol' fel ffaith glir y gellir ei gwirio yn hytrach na barn oddrychol ac wrth gynnal asesiad sgrinio, nid yw'n golygu bod effeithiau sylweddol yn debygol, ond bod y risg yn 'ddigonol'. Fodd bynnag, mae'n rhaid cael tystiolaeth gredadwy bod yna risg 'go iawn', yn hytrach nag un 'ddamcaniaethol'.

Nid oes angen asesiad 'cyfunol' oni nodir bod effaith yn cael dylanwad ansylweddol ar ei phen ei hun (ond bod effeithiau gweddilliol yn parhau) a allai ddod yn sylweddol o'i hystyried gyda chynlluniau neu brosiectau eraill. Dim ond yn ystod y cam sgrinio y mae angen y math hwn o asesiad, er y gall fod yn anodd gwahaniaethu rhwng effeithiau sylweddol tebygol o'u hystyried ar eu pen eu hunain neu ar y cyd. Yn ychwanegol, gall natur eithaf bras y cam sgrinio weithiau atal neu beryglu'r dadansoddiad angenrheidiol a gall dewis anghywir weithiau ysgogi gwaith helaeth a diangen, sy'n cyfyngu ar y broses hon. Felly, oni bai bod y materion yn y cam sgrinio yn glir, mae'r HRA hwn yn rhagdybio bod yr holl effeithiau sylweddol tebygol yn berthnasol ar eu pen eu hunain heb unrhyw effeithiau gweddilliol. Bydd hyn yn sicrhau bod yr holl effeithiau posib yn cael eu hystyried a'u hasesu ar gyfer dadansoddiad mwy trylwyr yn yr asesiad priodol os oes angen.

Cam Dau - Asesiad Priodol a Phrawf Cyfanrwydd

Mae rheoliad 63 yn nodi, pan fo cynllun yn 'debygol o gael effaith sylweddol', dim ond os gall yr awdurdod cymwys ganfod 'na fydd yn effeithio'n andwyol ar gyfanrwydd y safle Ewropeaidd' y gellir cydsynio ag ef'. Diffinnir Asesiad Priodol fel "ystyried yr effaith ar gyfanrwydd safle Natura 2000 y prosiect neu'r cynllun, naill ai ar ei ben ei hun neu ar y cyd â phrosiectau neu gynlluniau eraill, mewn perthynas â strwythur a swyddogaeth y safle a'i amcanion cadwraeth. Yn ychwanegol, lle mae effeithiau andwyol, asesiad o liniaru posib ar yr effeithiau hynny".

Diffinnir 'cyfanrwydd' safle Ewropeaidd fel:

'cydlyniaid ei strwythur a'i swyddogaeth ecolegol, ar draws ei holl ardal, sy'n ei alluogi i gynnal y cynefin, y gymhlethfa o gynefinoedd a/neu lefelau poblogaethau'r rhywogaeth y cafodd ei ddosbarthu neu ei restru ar ei gyfer'.

Diffiniodd y Comisiwn Ewropeaidd ef yn fwy diweddar fel a ganlyn:

'Mae cyfanrwydd y safle yn ymwneud â'i nodweddion cyfansoddol a'i swyddogaethau ecolegol. Dylai'r penderfyniad a yw'n cael ei effeithio'n andwyol ganolbwyntio ar a chael ei gyfyngu i'r cynefinoedd a'r rhywogaethau y mae'r safle wedi'i ddynodi ar eu cyfer ac amcanion cadwraeth y safle.'

Gan fod y broses HRA yn broses ailadroddol, mae'n anochel y bydd craffu pellach yn ystod yr Asesiad Priodol yn cadarnhau neu'n herio deilliannau'r ymarfer sgrinio. O ganlyniad, gall hyn arwain at newidiadau fel nodi effeithiau newydd neu ddileu effeithiau presennol, neu'r angen am asesiad sgrinio mewn cyfuniad.

Yn unol ag egwyddorion yr hierarchaeth liniaru, os yw mesurau lliniaru yn gallu dileu effaith andwyol, dylid mabwysiadu'r mesur ni waeth beth fo'r gost neu'r anhawster.

Statws Cadwraeth Ffafirol

Nod y Gyfarwyddeb Cynefinoedd yw cynnal neu adfer y cynefinoedd a'r rhywogaethau (neu'r nodweddion cymhwys) a restrir yn Atodiad I ac Atodiad II yn y drefn honno, i statws cadwraeth ffafirol (FCS) er mwyn sicrhau eu goroesiad hirdymor ar draws eu tiriogaeth naturiol o fewn yr UE. Caiff hyn ei ddisgrifio yn Erthyglau 1(e) ac 1(i) o'r Gyfarwyddeb fel a ganlyn:

Ystyrir bod statws cadwraeth cynefin naturiol yn ffafirol pan:

- *Mae ei diriogaeth naturiol a'r ardaloedd y mae'n eu gorchuddio o fewn y diriogaeth honno yn sefydlog neu'n cynyddu;*
- *Mae'r strwythur a'r swyddogaethau penodol sy'n angenrheidiol ar gyfer ei gynnal a'i gadw'n hirdymor yn bodoli ac yn debygol o barhau i fodoli hyd y gellir rhagweld; a*
- *Mae statws cadwraeth ei rywogaethau nodweddiadol yn ffafirol fel y'i diffinnir yn (i);*

[ac]

Ystyrir bod statws cadwraeth rhywogaeth yn ffafriol pan:

- Mae data dynameg poblogaeth ar y rhywogaeth dan sylw yn dangos ei bod yn cynnal ei hun ar sail hirdymor fel elfen hyfyw o'i chynefinoedd naturiol;
- Nad yw tiriogaeth naturiol y rhywogaeth yn cael ei lleihau nac yn debygol o gael ei lleihau yn y dyfodol rhagweladwy; a
- Mae yna gynefin digon mawr i gynnal ei boblogaethau yn yr hirdymor, ac mae'n debygol y bydd yn parhau i fod felly.

Gall y targedau hyn fod yn berthnasol ar draws sawl aelod-wladwriaeth ond cânt eu cyflawni gan amcanion cadwraeth ar sail safle. Gellir diffinio amcanion cadwraeth ar sail safle fel '*set o amcanion penodedig i'w cyflawni mewn safle er mwyn gwneud yn siŵr bod y safle'n cyfrannu yn y ffordd orau bosib at gyflawni FCS ar y lefel briodol (gan ystyried tiriogaeth naturiol y rhywogaethau neu'r mathau o gynefinoedd dan sylw)*'.

Nodweddion blaenoriaeth

Mae rhai o nodweddion cymhwyso'r safleoedd Ewropeaidd Natura 2000 wedi'u rhestru fel 'Nodweddion Blaenoriaeth'. Ymdrinnir â'r rhain yn yr un modd â'r nodweddion eraill yn ystod Camau 1 a 2 o'r HRA, ond yng Ngham 4, mae Rhesymau hanfodol er budd cyhoeddus tra phwysig (IROPI) wedi'u cyfyngu i'r rhai hynny sy'n ymwneud ag iechyd dynol, diogelwch y cyhoedd neu effeithiau buddiol ar yr amgylchedd pe byddai neu y gallai nodweddion blaenoriaeth gael eu heffeithio'n andwyol gan gynllun neu brosiect. Mewn geiriau eraill, ni ellir ystyried IROPI o natur gymdeithasol neu economaidd yn unig yn rhesymau digonol dros effeithiau ar 'nodweddion blaenoriaeth' wrth asesu'r rhanddirymadau (Camau 3 a 4 o'r HRA).

Mesurau lliniaru a chyfraith achosion

Darparodd achos People Over Wind ddehongliad newydd o pryd a sut y dylid ystyried mesurau lliniaru mewn HRA. Yn 2017, gwyrdd Llys Cyfiawnder Ewrop oddi wrth benderfyniadau blaenorol, gan nodi'n glir na ddylai mesurau sydd wedi'u cynllunio'n benodol i osgoi neu leihau effeithiau sylweddol tebygol gael eu gwerthuso yn y cam sgrinio, ac y dylid eu cadw ar gyfer y cam Asesiad Priodol.

Swyddogaeth yr awdurdod cymwys

Cyfrifoldeb yr awdurdod cymwys yw penderfynu a ddylid mabwysiadu'r asesiad hwn ai peidio fel rhan o'i ddyletswydd o dan y Rheoliadau Cynefinoedd.

2.0 YR ANGEN AM ASESU A NODI SAFLEOEDD EWROPEAIDD SYDD MEWN PERYGL

2.1 Eithrio, Dileu a Rhyddhau o'r Angen am Aseiad

Cyn nodi safleoedd Ewropeaidd bregus, mae Cam 1 o'r broses HRA yn annog ymarfer 'cyn-sgrinio' byr i benderfynu a oes angen HRA mewn gwirionedd. Mae'n penderfynu a all cynllun gael ei:

- **Rhyddhau** o'r HRA oherwydd ei fod '...yn uniongyrchol gysylltiedig â neu'n angenrheidiol ar gyfer rheoli'r ... safle Ewropeaidd';
- **Eithrio** o'r HRA oherwydd 'nid yw'n gynllun/prosiect o fewn ystyr a chwmpas y Gyfarwyddeb Cynefinoedd'; neu
- **Dileu** o'r HRA oherwydd mae'n hawdd dangos er ei fod 'yn gynllun/prosiect... ni allai gael unrhyw effaith bosib ar unrhyw safle Ewropeaidd'.

Yn dilyn yr ymarfer cyn-sgrinio hwn, mae'n amlwg bod y ddogfen mewn gwirionedd yn cynrychioli cynllun o fewn ystyr a chwmpas y Gyfarwyddeb Cynefinoedd sydd â'r potensial i achosi niwed i safleoedd Ewropeaidd. O ganlyniad, ni ellir ei eithrio na'i ddileu o'r HRA. Yn ychwanegol, nid yw diben y cynllun yn uniongyrchol gysylltiedig â, nac yn angenrheidiol ar gyfer, rheolaeth safleoedd Ewropeaidd, ac felly ni ellir ei ryddhau o'r broses HRA. Felly, bydd angen cychwyn camau cyntaf aseiad Cam 1 trwy nodi pa safleoedd Ewropeaidd (a nodweddion cysylltiedig) a allai fod mewn perygl. Amlinellir dynodiad y safleoedd hyn yn yr adran isod.

2.2 Nodi safleoedd Ewropeaidd sydd mewn perygl

Mae'r broses HRA yn ei gwneud yn angenrheidiol ystyried yr holl Safleoedd Ewropeaidd sydd â'r potensial i gael eu heffeithio'n andwyol gan LFRMS Gwynedd. Mae'r GLFRMS yn cwmpasu'r holl dir o fewn ffiniau Gwynedd (gan gynnwys ardal Parc Cenedlaethol Eryri sydd o fewn Gwynedd). At ddiben yr HRA hwn, mae'r safleoedd hynny sydd o fewn, neu'n rhannol o fewn Gwynedd a hefyd y safleoedd hynny mewn awdurdodau lleol cyfagos a allai fod mewn perygl o dderbyn effeithiau negyddol (e.e. llygredd dŵr) trwy lwybrau achosol o ganlyniad i GLFRMS, wedi cael eu hystyried. Mae Atodiad A yn dangos lleoliad safleoedd Ewropeaidd sydd wedi eu lleoli o fewn ac yn gyfagos i Wynedd.

Mae Tabl 2 isod yn nodi'r holl Safleoedd Ewropeaidd sydd wedi'u hystyried yn yr aseiad hwn. Cafodd cyfanswm o 32 o Safleoedd Ewropeaidd yn cynnwys 19 SAC, 9 SPA a 4 safle Ramsar eu nodi i ddechrau i'w cynnwys yn y cam sgopio. Ni ddynodwyd unrhyw safleoedd cSAC, pSAC, pSPA na pRamsar yn ardal yr astudiaeth. Y safleoedd yr ystyrir eu bod fwyaf mewn perygl yw'r rhai â chynefinoedd a nodweddion dyfrol, gan y gallai'r GLFRMS arwain at brosiectau sy'n effeithio'n andwyol ar ansawdd dŵr a chynefin glannau afon.

Tabl 2. Safleoedd Ewropeaidd a ystyriwyd yng ngham sgopio'r HRA.

Safle Ewropeaidd	Lleoliad (y tu mewn/y tu allan i ardal cais GLFRMS).
SPA Aber Dyfi	Y tu mewn a'r tu allan
SAC Afon Dyfrdwy a Llyn Tegid	Y tu mewn a'r tu allan
SAC Afon Eden - Cors Goch Trawsfynydd	Y tu mewn
SAC Afon Gwyrfaï a Llyn Cwellyn	Y tu mewn
SPA Bae Lerpwl	Y tu mewn a'r tu allan
SPA y Berwyn	Y tu mewn a'r tu allan
SAC Mynyddoedd y Berwyn a De Clwyd	Y tu mewn a'r tu allan
SAC Cadair Idris	Y tu mewn
SAC Clogwyni Pen Llŷn	Y tu mewn
SAC Coedydd Aber	Y tu mewn
SAC Coedydd Derw a Safleoedd Ystlumod Meirion	Y tu mewn
Ramsar Cors Fochno a Dyfi	Y tu mewn a'r tu allan
SAC Corsydd Eifionydd	Y tu mewn
SAC Corsydd Llŷn	Y tu mewn
Ramsar Corsydd Ynys Môn a Llŷn	Y tu mewn a'r tu allan
SPA Craig y Deryn	Y tu mewn
SAC Eryri	Y tu mewn
SPA Arfordir Aberdaron ac Ynys Enlli	Y tu mewn
SAC Glynllifon	Y tu mewn
SPA Gogledd Bae Ceredigion	Y tu mewn a'r tu allan
SAC Gorllewin Cymru Forol	Y tu mewn a'r tu allan
Ramsar Llyn Idwal	Y tu mewn
Ramsar Llyn Tegid	Y tu mewn
SAC Migneint-Arenig-Dduallt	Y tu mewn a'r tu allan
SPA Migneint-Arenig-Dduallt	Y tu mewn a'r tu allan
SAC Morfa Harlech a Morfa Dyffryn	Y tu mewn
SPA Mynydd Cilan, Trwyn yr Wylfa ac Ynysoedd Sant Tudwal	Y tu mewn
SAC Pen Llŷn a'r Sarnau	Y tu mewn a'r tu allan
SAC Rhinog	Y tu mewn
SPA Traeth Lafan	Y tu mewn a'r tu allan
SAC Y Fenai a Bae Conwy	Y tu mewn a'r tu allan
SAC Y Twyni o Abermenai i Aberffraw	Y tu mewn a'r tu allan

Nid yw presenoldeb safle ar y rhestr yn Nhabl 2 ynddo'i hun yn cyfiawnhau ei gynnwys yng nghamau dilynol y broses HRA, gan fod hyn yn dibynnu ar natur amcan/cam gweithredu'r GLFRMS, nodweddion y safle a'r llwybrau effaith posib rhwng y ddau. Felly cynhaliwyd asesiad cyn-sgrinio yn edrych ar ba amcanion a chamau gweithredu GLFRMS sydd i'w hasesu ymhellach, ynghyd â pha Safleoedd Ewropeaidd (o'r rhestr a nodir yn Nhabl 2) yr ystyrir eu bod mewn perygl ac ymhle mae angen craffu pellach. Lle mae tystiolaeth yn mynnu bod effeithiau andwyol yn annhebygol, mae amcanion GLFRMS a safleoedd Ewropeaidd wedi'u sgopio allan o asesu pellach. Gellir gweld y tabl cyn-sgrinio cyflawn yn llawn yn Atodiad B. Darperir gwybodaeth am sgrinio Amcanion/Camau Gweithredu GLFRMS yn adran 2.3 isod.

2.3 Adolygiad o Amcanion GLFRMS

Mae Strategaeth Genedlaethol Llywodraeth Cymru yn darparu'r fframwaith ar gyfer rheoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol yng Nghymru. Mae'r fframwaith yn canolbwyntio ar nod, pum amcan allweddol a'r mesurau i gyflawni'r amcanion hynny. Nod y strategaeth yw 'lleihau'r perygl i bobl a chymunedau o lifogydd ac erydu arfordirol'. Cefnogir y nod gan bum amcan sy'n cyd-fynd ac yn gorgyffwrdd â'r naill a'r llall gyda'r bwriad o leihau risg i fywyd.

Ar gyfer Strategaeth Rheoli Perygl Llifogydd Lleol Gwynedd (GLFRMS), mae Cyngor Gwynedd wedi datblygu ei amcanion strategol ei hun sy'n cyd-fynd ag amcanion y Strategaeth Genedlaethol ac yn adlewyrchu'r cyd-destun a'r blaenoriaethau lleol. Mae'r amcanion wedi'u dewis i adlewyrchu'r meysydd blaenoriaeth mwyaf gan ystyried cylch gwaith y Cyngor i reoli risgiau a gysylltir â llifogydd lleol ac erydu arfordirol. Cefnogir yr holl amcanion gan ystod o gamau gweithredu, a restrir yn Nhabl 3 isod, sydd wedi'u dylunio i wella a chyd-fynd â'r dulliau a fabwysiadir ar hyn o bryd gan y Cyngor i reoli risgiau llifogydd ac erydu arfordirol.

Cynhaliwyd proses sgrinio i benderfynu pa rai o gamau gweithredu GLFRMS a allai fod â'r potensial i gael effaith andwyol ar safleoedd Ewropeaidd. Roedd llawer o'r camau gweithredu'n ymwneud yn benodol ag effeithiau cymdeithasol (e.e. profi cynlluniau brys) ac felly maent wedi'u sgopio allan o asesiad pellach ar hyn o bryd gan y tybir na fydd gan gamau o'r fath y potensial i gael effaith andwyol ar safleoedd Ewropeaidd.

Mae Tabl 3 isod yn dangos Amcanion a chamau gweithredu'r GLFRMS, asesiad o effaith bosib, ac a yw'r camau gweithredu wedi'u sgopio i mewn neu allan ar gyfer asesiad pellach.

Nododd yr ymarfer sgrinio bedwar cam gweithredu GLFRMS yr ystyrir eu bod â'r potensial i gael effaith andwyol bosib ar safleoedd Ewropeaidd. Y pedwar cam gweithredu sydd wedi eu sgopio i mewn ar gyfer asesiad pellach yw:

Cam Gweithredu 1.2 Gwelliannau rheoli risg llifogydd ac erydu arfordirol:

Cam Gweithredu 1.2A - Paratoi rhestr flynyddol o gynlluniau o'r cynllun gweithredu hirdymor i leihau perygl llifogydd ac erydiad arfordirol i gael ei chyflwyno i'w cynnwys yn rhaglen gyfalaf LIC.

Cam Gweithredu 1.4 Cynnal a chadw a defnyddio asedau rheoli perygl llifogydd/erydu arfordirol:

Cam Gweithredu 1.4A - Paratoi a chyflawni rhaglen mân waith (refeniw) yn seiliedig ar gasgliadau asesiad cyflwr asedau i gynnal a chadw safon yr amddiffyniad y mae asedau perygl llifogydd/erydu arfordirol yn ei gynnig.

Cam Gweithredu 3.3. Systemau Draenio Cynaliadwy (SuDS) a Rheoli Risg Llifogydd Naturiol (NFM):

Cam Gweithredu 3.3A - Nodi cyfleoedd ar gyfer gweithredu cynlluniau SuDS ac NFM mewn ardaloedd sy'n cyflawni buddion risg llifogydd ystyrlon yn ogystal â buddion amgylcheddol a mwynder eraill.

Cam Gweithredu 3.3B - Gweithio gydag awdurdodau partner a pherchnogion tir i gyflawni cynlluniau NFM fel rhan o raglen genedlaethol.

Rhai o'r effeithiau posib a allai ddeillio o'r camau gweithredu hyn yw:

- Aflonyddu ar nodweddion gan ffactorau fel sŵn, dirgryniad, golau ac ati;
- Colli arwynebedd, ansawdd, neu gysylltedd cynefinoedd;
- Newidiadau i drefn llif a nodweddion gwaddod;
- Newidiadau mewn nodweddion draenio;
- Dirywiad yn ansawdd y dŵr a newidiadau yn faint o faethynnau sy'n mynd i'r dyfroedd derbyn;
- Cyflwyno rhwystrau ffisegol a hydrolegol ac ati mewn cyrsiau dŵr

Ar hyn o bryd, ystyrir ei bod yn anodd iawn pennu pa safleoedd yn union y gallai GLFRMS effeithio arnynt neu i ba raddau, oherwydd ansicrwydd ynghylch ble a sut y caiff mesurau GLFRMS eu gweithredu. Fodd bynnag, cymerwyd ymagwedd ragofalus a defnyddiwyd barn broffesiynol i nodi effeithiau andwyol posib ac a yw'r rhain yn debygol o fod yn sylweddol. Darperir crynodeb o'r ymarfer sgopio ar gyfer safleoedd Ewropeaidd yn adran 2.4 isod.

Tabl 3. Tabl sgrinio Amcanion a Chamau Gweithredu GLFRMS

Tabl Sgrinio Amcanion		
Amcanion a Chamau Gweithredu GLFRMS (Drafft)	Effaith Bosib	Wedi'i sgopio i mewn
Amcan 1: Ceisio lleihau lefel y perygl o lifogydd ac erydu arfordirol i drigolion Gwynedd.		
<p>1.1 Rhaglenni rheoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol:</p> <p>Cam Gweithredu 1.1A - Cynnal rhaglen gyfalaf hirdymor i leihau'r perygl o lifogydd mewndirol</p> <p>Cam Gweithredu 1.1B - Cynnal rhaglen gyfalaf hirdymor i leihau'r perygl o lifogydd/erydu arfordirol, gan ymgorffori'r camau gweithredu a nodir yn SMP2</p>	<p>Nid oes llwybr rhwng amcan y cynllun a nodweddion diddordeb safleoedd Ewropeaidd, boed yn llwybr uniongyrchol, anuniongyrchol neu wedi'i ysgogi. Nid ystyrir y bydd y camau gweithredu yn cael effaith andwyol ar safleoedd Ewropeaidd gan eu bod yn ymwneud â chynnal rhaglenni astudiaethau a chynlluniau yn unig. (Er y gall cynnal rhaglenni o'r fath wneud darpariaethau ar gyfer gwaith datblygu posib yn y pen draw, ymdrinnir â gwaith o'r fath o ganlyniad uniongyrchol i'r rhaglenni hyn yn 1.2 isod.)</p>	Wedi'i sgopio allan
<p>1.2 Gwelliannau rheoli risg llifogydd ac erydu arfordirol:</p> <p>Cam Gweithredu 1.2A - Paratoi rhestr flynyddol o gynlluniau o'r cynllun gweithredu hirdymor i leihau perygl llifogydd ac erydiad arfordirol i gael eu cyflwyno i'w cynnwys yn rhaglen gyfalaf LIC</p>	<p>Mae'r camau gweithredu yn darparu ar gyfer gwaith datblygu posib mewn lleoliadau a allai fod o fewn neu'n gyfagos i safleoedd Ewropeaidd, neu lle gallai fod llwybr uniongyrchol. Am y rheswm hwn, ni ellir diystyru effeithiau sylweddol.</p>	Wedi'i sgopio i mewn
<p>1.3 Rheoli asedau rheoli perygl llifogydd/erydu arfordirol:</p> <p>Cam Gweithredu 1.3A - Datblygu cofrestr a map o asedau draenio priffyrdd mewn ardaloedd sy'n dueddol o gael llifogydd</p> <p>Cam Gweithredu 1.3B - Datblygu cofrestr a map o'r holl elfennau SuDS a fabwysiadir gan y Cyngor</p>	<p>Nid oes llwybr rhwng amcan y cynllun a nodweddion diddordeb safleoedd Ewropeaidd, boed yn llwybr uniongyrchol, anuniongyrchol neu wedi'i ysgogi. Nid ystyrir y bydd y camau gweithredu yn cael effaith andwyol ar safleoedd Ewropeaidd gan eu bod yn ymwneud â chynnal cofrestr a gweithgareddau mapio yn unig.</p>	Wedi'i sgopio allan

<p>1.4 Cynnal a chadw a defnyddio asedau rheoli perygl llifogydd/erydu arfordirol</p> <p>Cam Gweithredu 1.4A - Paratoi a chyflawni rhaglen mân waith (refeniw) yn seiliedig ar gasgliadau asesiad cyflwr asedau i gynnal a chadw safon yr amddiffyniad y mae asedau perygl llifogydd/erydu arfordirol yn ei gynnig</p>	<p>Mae'r camau gweithredu yn darparu ar gyfer gwaith datblygu posib mewn lleoliadau a allai fod o fewn neu'n gyfagos i safleoedd Ewropeaidd, neu lle gallai fod llwybr uniongyrchol. Am y rheswm hwn, ni ellir diystyru effeithiau sylweddol.</p>	<p>Wedi'i sgopio i mewn</p>
<p>Amcan 2: Datblygu dealltwriaeth bellach o'r perygl llifogydd i Wynedd ac effeithiau newid hinsawdd.</p>		
<p>2.1 Gweithio gyda phartneriaid RMA:</p> <p>2.1A - Cyfrannu at ddigwyddiadau rhanddeiliaid gyda chydweithwyr o RMAs eraill, h.y. Grŵp Llifogydd Rhanbarthol Gogledd Cymru, Grŵp Arfordirol Gorllewin Cymru</p> <p>Cam Gweithredu 2.1B - Cynnal trafodaethau rheolaidd ynghylch materion perygl llifogydd Gwynedd gyda chydweithwyr o CNC a DCWW.</p>	<p>Nid oes llwybr rhwng amcan y cynllun a nodweddion diddordeb safleoedd Ewropeaidd, boed yn llwybr uniongyrchol, anuniongyrchol neu wedi'i ysgogi. Nid ystyrir y bydd y camau gweithredu yn cael effaith andwyol ar safleoedd Ewropeaidd gan eu bod yn ymwneud â gweithgareddau ymgysylltu rhanddeiliaid.</p>	<p>Wedi'i sgopio allan</p>
<p>2.2 Ymchwiliadau Llifogydd:</p> <p>Cam Gweithredu 2.2A - Datblygu a gwella mecanweithiau presennol i nodi digwyddiadau llifogydd yng Ngwynedd mor gynnar â phosib.</p>	<p>Nid oes llwybr rhwng amcan y cynllun a nodweddion diddordeb safleoedd Ewropeaidd, boed yn llwybr uniongyrchol, anuniongyrchol neu wedi'i ysgogi. Nid ystyrir y bydd y camau gweithredu yn cael effaith andwyol ar safleoedd Ewropeaidd gan eu bod yn ymwneud â gweithgareddau ymchwilio i lifogydd yn unig.</p>	<p>Wedi'i sgopio allan</p>
<p>2.3 Llifogydd ar rwydwaith priffyrdd</p> <p>Cam Gweithredu 2.3A - Dechrau astudiaeth i adnabod ardaloedd o rwydwaith priffyrdd y sir sydd fwyaf agored i lifogydd ac a fydd yn dod yn fwy agored i lifogydd o ganlyniad i effeithiau newid hinsawdd yn y dyfodol.</p>	<p>Nid oes llwybr rhwng amcan y cynllun a nodweddion diddordeb safleoedd Ewropeaidd, boed yn llwybr uniongyrchol, anuniongyrchol neu wedi'i ysgogi. Nid ystyrir y bydd y camau gweithredu yn cael effaith andwyol ar safleoedd Ewropeaidd gan eu bod yn ymwneud â gweithgareddau astudiaethau desg yn unig.</p>	<p>Wedi'i sgopio allan</p>

<p>2.4 Modelu Llifogydd:</p> <p>Cam Gweithredu 2.4A - Datblygu modelu hydrolegol a hydrolig o ansawdd uchel i adeiladu ar fapiau cenedlaethol a chael gwell dealltwriaeth o berygl llifogydd ar lefel leol.</p> <p>Cam Gweithredu 2.4B - Ymgorffori'r rhagamcanion newid hinsawdd diweddaraf ym mhob ymarferiad modelu llifogydd.</p> <p>Cam Gweithredu 2.4C - Rhannu gwybodaeth modelu llifogydd lleol gyda CNC fel y gellir diweddarau mapiau cenedlaethol yn ôl y gofyn.</p>	<p>Nid oes llwybr rhwng amcan y cynllun a nodweddion diddordeb safleoedd Ewropeaidd, boed yn llwybr uniongyrchol, anuniongyrchol neu wedi'i ysgogi. Nid ystyrir y bydd y camau gweithredu yn cael effaith andwyol ar safleoedd Ewropeaidd gan eu bod yn ymwneud â gweithgareddau modelu llifogydd yn unig.</p>	<p>Wedi'i sgopio allan</p>
<p>2.5 Casglu Data:</p> <p>Cam Gweithredu 2.5A - Gwella ein rhwydwaith o synwryddion LoraWAN i fesur lefelau dŵr mewn cyrsiau dŵr yn ogystal â lefel dŵr daear mewn ardaloedd o ddiddordeb penodol.</p> <p>Cam Gweithredu 2.5B - Datblygu a gweithredu rhaglen fonitro ar gyfer ardaloedd yr arfordir lle mae ansadrwydd clogwyni yn peryglu pobl ac eiddo.</p>	<p>Nid oes llwybr rhwng amcan y cynllun a nodweddion diddordeb safleoedd Ewropeaidd, boed yn llwybr uniongyrchol, anuniongyrchol neu wedi'i ysgogi. Nid ystyrir y bydd y camau gweithredu yn cael effaith andwyol ar safleoedd Ewropeaidd gan eu bod yn ymwneud â gweithgareddau casglu data yn unig.</p>	<p>Wedi'i sgopio allan</p>
<p>Amcan 3: Parhau i weithio gyda'r holl gyrff perthnasol i sicrhau datblygiad priodol a chynaliadwy yng Ngwynedd</p>		
<p>3.1 Cynllunio Datblygu/Rheoli Datblygu:</p> <p>Cam Gweithredu 3.1A - Ymgorffori'r gofynion a gynhwysir yn TAN15 ynglŷn â'r Asesiad Canlyniadau Llifogydd Strategol, yn y Cynllun Datblygu Lleol</p> <p>Cam Gweithredu 3.1B - Cydnabyddiaeth yn y Cynllun Datblygu Lleol o argymhellion ar gyfer newidiadau i bolisi arfordirol yn y dyfodol, a goblygiadau hynny ar ddefnydd tir ger yr arfordir</p>	<p>Nid oes llwybr rhwng amcan y cynllun a nodweddion diddordeb safleoedd Ewropeaidd, boed yn llwybr uniongyrchol, anuniongyrchol neu wedi'i ysgogi. Nid ystyrir y bydd y camau gweithredu yn cael effaith andwyol ar safleoedd Ewropeaidd gan eu bod yn ymwneud â datblygu cynlluniau a chydymffurfio â pholisi a gweithgareddau cofrestr a mapio yn unig.</p>	<p>Wedi'i sgopio allan</p>

<p>3.2 Gwaith ger cyrsiau dŵr:</p> <p>Cam Gweithredu 3.2A - Adolygu pob polisi sy'n ymwneud â gweithdrefnau caniatâd Draenio Tir yn ysbeidiol i sicrhau y cynhelir yr arfer orau a bod datblygwyr arfaethedig yn ymwybodol o ofynion dylunio ac adeiladu.</p>	<p>Nid ystyrir y bydd y camau gweithredu yn cael effaith andwyol ar safleoedd Ewropeaidd gan eu bod yn ymwneud â datblygu polisiau a fydd yn hyrwyddo arfer orau, yn cynnwys gwarchod a gwella'r amgylchedd naturiol.</p>	<p>Wedi'i sgopio allan</p>
<p>3.3 Systemau Draenio Cynaliadwy (SuDS) a Rheoli Risg Llifogydd Naturiol (NFM):</p> <p>Cam Gweithredu 3.3A - Nodi cyfleoedd ar gyfer gweithredu cynlluniau SuDS ac NFM mewn ardaloedd sy'n cyflawni buddion perygl llifogydd ystyrion yn ogystal â buddion amgylcheddol a mwynder eraill.</p> <p>Cam Gweithredu 3.3B - Gweithio gydag awdurdodau partner a pherchnogion tir i gyflawni cynlluniau NFM fel rhan o raglen genedlaethol.</p> <p>Cam Gweithredu 3.3C - Datblygu datganiad sefyllfa sy'n amlinellu'n glir sut y dylid dylunio a datblygu cynlluniau NFM i gael caniatâd cyrsiau dŵr angenrheidiol (A23 ac is-ddeddfau DLI) gan Gyngor Gwynedd.</p>	<p>Er bod y camau gweithredu yn ymwneud yn sylfaenol â datblygu rhaglenni SuDS a NFM a fydd yn hyrwyddo arfer gorau, gan gynnwys gwarchod a gwella'r amgylchedd naturiol yn cynnwys bioamrywiaeth, mae'r camau gweithredu yn darparu ar gyfer gwaith datblygu posib mewn lleoliadau a allai fod o fewn neu'n gyfagos i safleoedd Ewropeaidd, neu lle gallai fod llwybr uniongyrchol. Am y rheswm hwn, ni ellir diystyru effeithiau sylweddol.</p>	<p>Wedi'i sgopio i mewn</p>
<p>Amcan 4: Codi ymwybyddiaeth o berygl llifogydd ac erydu arfordirol lleol</p>		
<p>4.1 Codi ymwybyddiaeth o berygl llifogydd lleol:</p> <p>Cam gweithredu 4.1A - Bydd Cyngor Gwynedd yn codi ymwybyddiaeth o'r perygl llifogydd ymysg ei drigolion</p>	<p>Nid oes llwybr rhwng amcan y cynllun a nodweddion diddordeb safleoedd Ewropeaidd, boed yn llwybr uniongyrchol, anuniongyrchol neu wedi'i ysgogi. Nid ystyrir y bydd y camau gweithredu yn cael effaith andwyol ar safleoedd Ewropeaidd gan eu bod yn ymwneud â gweithgareddau cynyddu ymwybyddiaeth yn unig.</p>	<p>Wedi'i sgopio allan</p>

<p>Cam gweithredu 4.1B - Bydd Cyngor Gwynedd yn cynghori ac yn hyrwyddo mesurau gwrthsefyll a chryfhau rhag llifogydd ymysg ei drigolion</p> <p>Cam gweithredu 4.1C - Bydd Cyngor Gwynedd yn paratoi ac yn cyhoeddi pamffled gwybodaeth i bob un o'r trigolion mewn ardaloedd perygl llifogydd, ac i unrhyw drigolion y mae eu heiddo wedi dioddef llifogydd.</p>		
<p>4.2 Codi ymwybyddiaeth o berygl erydu arfordirol:</p> <p>Cam Gweithredu 4.24A - Bydd Cyngor Gwynedd yn codi ymwybyddiaeth o'r perygl erydu arfordirol i'w drigolion, gan ganolbwyntio ar yr ardaloedd sydd â'r perygl mwyaf</p>	<p>Nid oes llwybr rhwng amcan y cynllun a nodweddion diddordeb safleoedd Ewropeaidd, boed yn llwybr uniongyrchol, anuniongyrchol neu wedi'i ysgogi. Nid ystyrir y bydd y camau gweithredu yn cael effaith andwyol ar safleoedd Ewropeaidd gan eu bod yn ymwneud â gweithgareddau cynyddu ymwybyddiaeth yn unig.</p>	<p>Wedi'i sgopio allan</p>
<p>Amcan 5: Gweithio ar y cyd â'r holl Awdurdodau Rheoli Risg eraill a grwpiau/cyrff perthnasol i sicrhau ymateb cyd-gysylltiedig i ddigwyddiadau llifogydd ac erydu arfordirol</p>		
<p>5.1 Paratoi a phrofi Cynlluniau Argyfwng:</p> <p>Cam Gweithredu 5.1A - Bydd Cyngor Gwynedd yn adolygu a diweddarau ei gynlluniau argyfwng llifogydd ar y cyd â Gwasanaeth Cynllunio Rhanbarthol Cyngorau Gogledd Cymru; i gynnwys cynlluniau i symud pobl o'u cartrefi a chreu canolfannau gorffwys.</p>	<p>Nid oes llwybr rhwng amcan y cynllun a nodweddion diddordeb safleoedd Ewropeaidd, boed yn llwybr uniongyrchol, anuniongyrchol neu wedi'i ysgogi. Nid ystyrir y bydd y camau gweithredu yn cael effaith andwyol ar safleoedd Ewropeaidd gan eu bod yn ymwneud â chynllunio ar gyfer argyfwng ac ymatebion.</p>	<p>Wedi'i sgopio allan</p>

2.4 Sgopio safleoedd Ewropeaidd ar gyfer y cam sgrinio

Yn dilyn nodi'r Safleoedd Ewropeaidd a allai gael eu heffeithio'n andwyol gan LFRMS Gwynedd (gweler Tabl 2), cwblhawyd ymarfer sgopio i benderfynu a ellid dod i'r casgliad gwrthrychol na fyddai rhai safleoedd yn cael eu heffeithio, cyn cwblhau'r asesiad sgrinio. Amlinellir yr asesiad cyn-sgrinio hwn yn llawn yn Atodiad A.

Penderfynwyd nad oedd y safleoedd a restrir yn Nhabl 4 isod yn cael eu heffeithio gan LFRMS Gwynedd ac felly cawsant eu sgopio allan o'r cam Sgrinio. Mae'r rhain yn cynnwys safleoedd y tu allan i ardal astudiaeth GLFRMS nad ystyrir eu bod mewn perygl o effeithiau trwy lwybrau achosol a safleoedd eraill nad ystyrir eu bod mewn perygl oherwydd eu lleoliad daearyddol a/neu nodweddion dynodedig. Sgopiwyd allan gyfanswm o 7 Safle Ewropeaidd, yn cynnwys 1 SAC, 5 SPA, ac 1 Ramsar (gweler Tabl 4).

Tabl 4. Safleoedd Ewropeaidd a sgopiwyd allan o'r cam sgrinio HRA

Safle Ewropeaidd	Dynodiad	Cyfiawnhad
Bae Lerpwl	SPA	Lleolir y safle oddi ar arfordir gogledd-ddwyreiniol Gwynedd, fymryn y tu allan i'r ardal GLFRMS. O ystyried ei leoliad, ni ragwelir y bydd effeithiau llygredd neu aflonyddwch yn sgil y GLFRMS o bosib yn creu effeithiau negyddol ar y safle hwn nac ar ei nodweddion adar.
Craig y Deryn	SPA	Mae'r safle wedi'i ddynodi am fod y frân goesgoch yn magu ac yn gaeafu yno, ac mae'n safle magu mewndirol anarferol ar gyfer mulfrain. Mae wedi'i gyfyngu i greigiau Craig y Deryn ac ni ddisgwylir i'r LFRMS arwain at unrhyw brosiectau rheoli llifogydd yn y lleoliad hwn, nac unrhyw effeithiau ar y rhywogaethau adar sy'n sail i ddynodiad y safle.
Arfordir Aberdaron ac Ynys Enlli	SPA	Mae'r safle wedi'i ddynodi am fod y frân goesgoch ac aderyn drycin Manaw yn magu yno, felly mae wedi'i gyfyngu i Ynys Enlli a morlin pendraw Llŷn. Nid yw'r dynodiad yn cynnwys unrhyw gynefinoedd dŵr croyw ac ni ddisgwylir i'r LFRMS arwain at unrhyw brosiectau rheoli llifogydd yn y lleoliad hwn, nac unrhyw effeithiau ar y ddau rywogaeth o adar sy'n sail i ddynodiad y safle.
Gogledd Bae Ceredigion	SPA	Mae'r safle wedi'i ddynodi am ei boblogaeth o'r trochydd gyddf-goch. Er yn sensitif i lygredd morol ac aflonyddwch posib, mae'n annhebygol y bydd prosiectau ar raddfa a allai effeithio'n andwyol ar nodweddion rhywogaeth y safle hwn.
Llyn Idwal	Ramsar	Oherwydd maint bychan y safle hwn (13.51ha) a'i leoliad uchel lle mae draenio dan reolaeth wedi'i gyfyngu, ystyrir ei bod yn annhebygol y bydd y safle hwn mewn perygl o effeithiau andwyol posib gan waith cynnal a chadw/adeiladu sy'n gysylltiedig â'r GLFRMS.
Mynydd Cilan, Trwyn yr Wylfa ac Ynysoedd Sant Tudwal	SPA	Mae'r safle wedi'i ddynodi am fod y frân goesgoch yn magu ac yn gaeafu yno, ac mae wedi'i gyfyngu i forlin deheuol pendraw Llŷn. Nid yw'r dynodiad yn

		cynnwys unrhyw gynefinoedd dŵr croyw ac ni ddisgwylir i'r LFRMS arwain at unrhyw brosiectau rheoli llifogydd yn y lleoliad hwn, nac unrhyw effeithiau ar y rhywogaethau adar sy'n sail i ddynodiad y safle.
Y Twyni o Abermenai i Aberffraw	SAC	Mae'r safle wedi'i leoli yng nghornel dde-orllewinol Ynys Môn ac wrth geg y Foryd yng Ngwynedd. Mae wedi'i ddynodi am ei systemau twyni a'r rhywogaethau planhigion cysylltiedig, ac mae wedi'i adnabod ar gyfer asesiad HRA gan ei fod yn rhannol o fewn yr ardal GLFRMS. Fodd bynnag, ni ragwelir y bydd unrhyw effeithiau llygredd, o bosib yn sgil yr LFRMS, yn achosi effeithiau negyddol i nodweddion twyni'r safle hwn.

Tabl 5. Safleoedd Ewropeaidd a gynhwyswyd yn y cam sgrinio

Safle Ewropeaidd	Dynodiad
Aber Dyfi	SPA
Afon Dyfrdwy a Llyn Tegid	SAC
Afon Eden – Cors Goch Trawsfynydd	SAC
Afon Gwyrfaï a Llyn Cwellyn	SAC
Y Berwyn	SPA
Mynyddoedd y Berwyn a De Clwyd	SAC
Cadair Idris	SAC
Clogwyni Pen Llŷn	SAC
Coedydd Aber	SAC
Coedydd Derw a Safleoedd Ystlumod Meirion	SAC
Cors Fochno a Dyfi	Ramsar
Corsydd Eifionydd	SAC
Corsydd Llŷn	SAC
Corsydd Ynys Môn a Llŷn	Ramsar
Eryri	SAC
Glynllifon	SAC
Gorllewin Cymru Forol	SAC
Llyn Tegid	Ramsar
Migneint-Arenig-Dduallt	SAC
Migneint-Arenig-Dduallt	SPA
Morfa Harlech a Morfa Dyffryn	SAC
Pen Llŷn a'r Sarnau	SAC
Rhinog	SAC
Traeth Lafan	SPA
Y Fenai a Bae Conwy	SAC

3.0 SGRINIO

3.1 Diben

Diben yr ymarfer sgrinio sy'n pennu a fydd cynllun neu brosiect yn arwain at 'effaith sylweddol debygol' neu, mewn geiriau eraill, a oes perygl y bydd y gwaith arfaethedig yn arwain at effeithiau a fyddai'n 'tanseilio amcanion cadwraeth' y safle ac na ellir eu 'heithrio ar sail gwybodaeth wrthrychol'. Mae angen Asesiad Priodol pan fydd effeithiau sylweddol tebygol (sy'n gredadwy ac nid yn ddamcaniaethol) yn cael eu nodi (neu na ellir eu diystyru).

3.2 Dull

Er mwyn cwblhau'r cam sgrinio a nodi unrhyw effeithiau sylweddol tebygol ar nodweddion safle, mae angen gwybodaeth ychwanegol ar gyfer pob safle sydd mewn perygl. Mae Tabl 6 isod felly'n coladu gwybodaeth ar gyfer pob safle, gan gynnwys disgrifiad o'r safle a rhestr o nodweddion cymhwys, ac yn defnyddio hyn i nodi unrhyw effeithiau sylweddol tebygol o'r cynllun (yn seiliedig ar yr amcanion/camau gweithredu a'r bygythiadau a restrir yn adran 2.3 a thabl 3 uchod) a nodweddion y safle a allai gael eu heffeithio. Mae'r wybodaeth benodol i'r safle a ddarperir yn nhabl 6 wedi'i choladu o wefannau Cyfoeth Naturiol Cymru a'r JNCC. Os bydd angen, darperir disgrifiadau manylach o'r safleoedd yn ystod y cam Asesiad Priodol, gan gynnwys yr amcanion cadwraeth, ond mae'r wybodaeth yn Nhablau 6 isod yn ddigonol ar gyfer y cam sgrinio.

Nid oes angen dadansoddiad dwys yn ystod y cam sgrinio gan mai dim ond fel 'sbardun' y dylai weithredu i benderfynu a oes angen Asesiad Priodol. Felly, ni fydd archwiliad manwl o bob un o amcanion cadwraeth pob un o nodweddion y safleoedd yn cael ei gynnal ar hyn o bryd, ac mae wedi'i neilltuo ar gyfer y cam Asesiad Priodol. Yn hytrach, dim ond archwilio'n fras a wna'r adran hon a yw'n bosib y gallai amcanion cadwraeth gael eu tanseilio ac mae'n ystyried y perygl o effaith sylweddol bosib.

O ganlyniad i'r penderfyniad 'People Over Wind', mae'r cam sgrinio yn gallu ystyried nodweddion a phriodoleddau hanfodol cynllun ond nid yw'n gallu cymryd mesurau lliniaru pwrpasol i ystyriaeth. Felly mae ystyriaeth i'r holl fesurau lliniaru ar gyfer y cynllun hwn wedi'i neilltuo ar gyfer y cam Asesiad Priodol.

Tabl 6. Asesiad o Effeithiau Arwyddocaol Tebygol ar Safleoedd Ewropeaidd

Tabl Sgrinio'r Safle			
Safle Ewropeaidd	Nodweddion cymhwysol	Effeithiau arwyddocaol posib ar safle Ewropeaidd (Gan gynnwys amcan GLFRMS/gweithred sy'n achosi pryder)	Effeithiau Arwyddocaol Tebygol?
<p>AGA Aber Dyfi</p> <p>Lleolir aber y Ddyfi ar arfordir gorllewinol Cymru ar y ffin rhwng Ceredigion, Gwynedd a Phowys. Mae'r AGA yn cynnwys yr aber, gyda'r morfa heli cyfagos, glaswelltir corsiog a glaswelltir wedi ei wella. Mae'r casgliad morydol o ddiddordeb ffisiograffig pwysig. Mae'n cynnwys banciau tywod, traethellau, morfa heli, mawnogydd, sianeli afon a chilfachau, gyda chasgliad sylweddol o dwyni tywod ar hyd ceg yr aber. Mae'r aber ei hun yn nodwedd o ACA morol Penllyn a'r Sarnau. Mae'r safle'n bwysig fel ardal aeafu draddodiadol dros y gaeaf i'r Wÿdd talcen wen <i>Aner albifrons flavirostris</i> – yr ardal fwyaf deheuol a ddefnyddir gan y boblogaeth yma yn y DU.</p> <p>Bregusrwydd: Mae aflonyddwch gan weithgareddau hamdden a haid cynyddol o Wyddau Canada yn amharu ar yr Wÿdd Talcen Wen.</p>	<p>Adar Atodiad I ac adar ymfudol sydd i'w gweld yn rheolaidd nad ydynt wedi'u rhestru yn Atodiad I</p> <p>Gŵydd Talcen Wen Anser albifrons flavirostris</p>	<p>Effeithiau andwyol gan Sŵn/aflonyddwch gweledol i'r Wÿdd Talcen Wen oherwydd cynnal a chadw i asedau rheoli risg llifogydd ac erydu arfordirol (1.4), ac unrhyw waith sy'n ymwneud â rhaglen / gwelliannau FCERM (1.2) neu weithrediadau SuDS/NFM (3.3).</p>	<p>Ystyrir y gall y bygythiad o aflonyddwch i nodweddion rhywogaethau, o bosib, danseilio amcanion cadwraeth y safle ar gyfer pob nodwedd Atodiad I ac Atodiad II a restrwyd, ac felly caiff ei gynnwys fel effaith arwyddocaol debygol.</p>
<p>ACA Afon Dyfrdwy a Llyn Tegid</p>	<p>Cynefin Atodiad I:</p>	<p>Gall cynnal a chadw i asedau rheoli risg llifogydd ac erydu arfordirol</p>	<p>Ystyrir y gall y bygythiad o aflonyddwch i nodweddion rhywogaethau,</p>

<p>Mae'r safle'n ymestyn o ben gorllewinol pellaf Llyn Tegid ac yn mynd â'r llyn cyfan a'i lannau i'w arllwysfa yn yr Afon Dyfrdwy. Yna, aiff ar hyd yr afon a'i glannau i'r man ble mae'n ymuno â SoDdGA Aber Dyfrdwy. Mae nifer o isafonydd yr afon Dyfrdwy hefyd yn cael eu cynnwys yma, sef Ceiriog, Meloch, Tryweryn a Mynach. Dynodwyd y safle oherwydd ei Afonydd gyda llystyfiant arnofiol sy'n aml yn cael ei ddominyddu gan nodwedd cynefin craffanc y dŵr, ynghyd â nodwedd o sawl rhywogaeth yn cynnwys; Pennau lletwad, llysywod pendoll yr afon, llysywod pendoll y nant, llyriad-y-dŵr arnofiol, dyfrgwn, llysywod pendoll y môr ac eog yr Iwerydd.</p> <p>Bregusrwydd: Mae'r safle a'i nodweddion dan fygythiad arferion sy'n cael effeithiau andwyol ar ansawdd, cyfaint a phatrwm llif y dŵr gan gynnwys y canlynol: rheolaeth llif amhriodol; gormod o echdynnu (er dibenion diwydiannol, amaethyddol a domestig); bygythiadau i ansawdd dŵr drwy lygredd uniongyrchol a thryledol; ewtroffigedd a siltio. Mae dirywiad cynefinoedd y glannau oherwydd gwaith peiranyddol, arferion amaethyddol a rhywogaethau ymledol o blanhigion yn gallu cael effaith andwyol yn ogystal. Caiff poblogaeth eog yr Iwerydd ei fygwth oherwydd gormod o bysgota y pysgodfeydd môr mawr, aberol ac adloniadol. Yn ogystal, gallai cyflwyno rhywogaethau nad ydynt yn frodorol,</p>	<p>Cyrsiau dŵr ar lefelau gwastad a mynyddig gyda Ranunculus fluitantis a llystyfiant Callitriche-Batrachion</p> <p>Rhywogaethau Atodiad II:</p> <p>Eog yr Iwerydd <i>Salmo salar</i></p> <p>Llyriad-y-dŵr arnofiol <i>Luronium natans</i></p> <p>Lamprai'r môr <i>Petromyzon marinus</i></p> <p>Llysywod pendoll y nant <i>Lampetra planeri</i></p> <p>Llysywod pendoll yr afon <i>Lampetra fluviatilis</i></p> <p>Pennau llenwad <i>Cottus gobio</i></p> <p>Dyfrgi <i>Lutra lutra</i></p>	<p>(1.4), ac unrhyw waith sy'n ymwneud â rhaglen / gwelliannau FCERM (1.2) neu weithrediadau SuDS/NFM (3.3) achosi effeithiau andwyol oherwydd aflonyddwch i nodweddion rhywogaethau a cholledion posib o gynefinoedd, ynghyd ag effeithiau andwyol posib ar ansawdd dŵr drwy waith cynnal a chadw / adeiladu.</p>	<p>colledion posib o gynefinoedd a dirywiad ansawdd dŵr, o bosib, danseilio amcanion cadwraeth y safle ar gyfer pob nodwedd Atodiad I ac Atodiad II a restrwyd, ac felly caiff ei gynnwys fel effaith arwyddocaol debygol.</p>
--	--	--	--

fygwth rhywogaethau pysgod a phlanhigion.			
<p>Afon Eden – ACA Cors Goch Trawsfynydd</p> <p>Mae'r Afon Eden yn afon sy'n gymharol heb ei newid; mae gan fwyaf yn llifo mewn ucheldir ac yn tua 10Km o hyd. Mae'r wahanfa ddŵr yn cychwyn i'r de o Lyn Trawsfynydd, o fewn ardal sydd â thir ar lethrau ysgafn, sy'n draenio'n wael. Mae rhan uchaf y dalgylch yn llifo'n araf gyda nifer o lynnoedd dyfnion ar ei hyd. Yn neuparth isaf y basn, mae'r afon yn llifo'n fwy serth i mewn i geunant cul creigiog gydag ardal o blanhigfa goed gerllaw a elwir yn Coed y Brenin. Mae cydlifiad yr Afon Eden a'r Afon Mawddach fymryn yn uwch na phentref Ganllwyd ond mae ffiniau'r ACA yn mynd yn ei flaen i lawr yr afon hyd at derfyn llanw'r Fawddach yn Llanelltyd. Yn yr afon ceir y boblogaeth olaf hysbys o fisglod perlog sydd wedi goroesi yng Nghymru, maent wedi'u cyfyngu bron i gyd i un rhan o'r afon. Nodweddion cymhwysol eraill i'r safle yw Cyforgorsydd actif, llyriad-y-dŵr arnofiol, dyfrgwn ac eog yr Iwerydd.</p> <p>Bregusrwydd: Mae'r misglod perlog a'r pysgod salmonid oll yn arbennig o sensitif i lygredd dŵr e.e. nitrad a gwaddod yn llifo i'r afon, a'r afon yn cael ei rheoli'n amhriodol.</p>	<p>Cynefin Atodiad I</p> <p>Cyforgorsydd actif</p> <p>Rhywogaethau Atodiad II</p> <p>Misglod perlog <i>Margaritifera margaritifera</i></p> <p>Llyriad-y-dŵr arnofiol <i>Lurionium natans</i></p> <p>Eog yr Iwerydd <i>Salmo salar</i></p> <p>Dyfrgi <i>Lutra lutra</i></p>	<p>Gall cynnal a chadw i asedau rheoli risg llifogydd ac erydu arfordirol (1.4), ac unrhyw waith sy'n ymwneud â rhaglen / gwelliannau FCERM (1.2) neu weithrediadau SuDS/NFM (3.3) achosi effeithiau andwyol oherwydd aflonyddwch i nodweddion rhywogaethau a cholledion posib o gynefinoedd, ynghyd ag effeithiau andwyol posib ar ansawdd dŵr drwy waith cynnal a chadw / adeiladu.</p>	<p>Ystyrir y gall y bygythiad o aflonyddwch i nodweddion rhywogaethau, colledion posib o gynefinoedd a dirywiad ansawdd dŵr, o bosib, danseilio amcanion cadwraeth y safle ar gyfer pob nodwedd Atodiad I ac Atodiad II a restrwyd, ac felly caiff ei gynnwys fel effaith arwyddocaol debygol.</p>

<p>ACA Afon Gwyrfai a Llyn Cwellyn</p> <p>Mae'r safle'n cynnwys afon Gwyrfai a Llyn Cwellyn. Llifa afon Gwyrfai o Lyn y Gader ger Rhyd Ddu gan basio drwy Lyn Cwellyn ar ei ffordd i'r môr yn y Foryd ym Mae Caernarfon. Mae hefyd yn cynnwys isafon i afon Gwyrfai, sef afon Treweunydd, a'r llyn bychan y mae'n llifo ohono ar lethrau'r Wyddfa. Caiff yr ACA ei ffinio hwnt ag yma gan gynefin torlannol gwlypdir lled-naturiol, ac mae'r rhan fwyaf ohono wedi'i leoli o fewn y SoDdGA. Mae system afon Gwyrfai yn ei chyfanrwydd yn un sydd o ansawdd ecolegol eithriadol. Mae'r afon yn adnabyddus am ei phoblogaeth o eog, ac ystyrir mai hon yw un o'r afonydd gorau yn y Deyrnas Unedig am gynnal yr eog. Mae hefyd yn nodweddiadol am ei phoblogaeth o ddyfrgwn sy'n niferus yma oherwydd anian naturiol ei chynefinoedd torlannol a digonedd o orchudd trwchus sy'n cael llonydd. Yn ogystal â'r llyn, mae'r afon yn cynnal cymuned arwahanol o lyriad-y-dŵr arnofiol, ynghyd â chrafanc y dŵr <i>Ranunculus</i> spp a llystyfiant cysylltiedig eraill sy'n cynnwys casgliadau o bryoffytau sydd i'w cael mewn amrywiol rannau o'r afon.</p> <p>Bregusrwydd: Mae afon Gwyrfai yn debygol o fod yn fwyaf sensitif i effeithiau cronus yn deillio o newidiadau bychain ar ei hyd, a gall y rhain effeithio ar ansawdd y dŵr a strwythur y cynefinoedd.</p>	<p>Cynefin Atodiad I</p> <p>Merddyfroedd oligroffig i fesotroffig gyda llystyfiant <i>Littorelletea uniflorae</i> ac/neu <i>Isoëto-Nanojuncetea</i></p> <p>Cyrsiau dŵr ar lefelau gwastad a mynyddig gyda'r llystyfiant <i>Ranunculion fluitantis</i> a <i>Callitricho-Batrachion</i></p> <p>Rhywogaethau Atodiad II</p> <p>Eog yr Iwerydd <i>Salmo salar</i></p> <p>Llyriad-y-dŵr arnofiol <i>Luronium natans</i></p> <p>Dyfrgi <i>Lutra lutra</i></p>	<p>Gall cynnal a chadw i asedau rheoli risg llifogydd ac erydu arfordirol (1.4), ac unrhyw waith sy'n ymwneud â rhaglen / gwelliannau FCERM (1.2) neu weithrediadau SuDS/NFM (3.3) achosi effeithiau andwyol oherwydd aflonyddwch i nodweddion rhywogaethau a cholledion posib o gynefinoedd, ynghyd ag effeithiau andwyol posib ar ansawdd dŵr drwy waith cynnal a chadw / adeiladu.</p>	<p>Ystyrir y gall y bygythiad o aflonyddwch i nodweddion rhywogaethau, colledion posib o gynefinoedd a dirywiad ansawdd dŵr, o bosib, danseilio amcanion cadwraeth y safle ar gyfer pob nodwedd Atodiad I ac Atodiad II a restrwyd, ac felly caiff ei gynnwys fel effaith arwyddocaol debygol.</p>
--	---	---	--

<p>AGA y Berwyn</p> <p>Y Berwyn yw'r ucheldir pwysicaf yng Nghymru i adar sy'n magu. Mae'n cynnal ystod eang o rywogaethau ynghyd â niferoedd rhyngwladol bwysig o'r boda tinwyn <i>Circus cyaneus</i>, y cudyll bach <i>Falco columbarius</i>, yr hebog tramor <i>Falco peregrinus</i> a'r barcud <i>Milvus milvus</i>, yn ogystal â chyfran sylweddol o boblogaethau Cymru o rywogaethau eraill gan gynnwys y dylluan glustiog <i>Asio flammeus</i>, cwtiad aur <i>Pluvialis apricaria</i>, y grugiar goch <i>Lagopus lagopus</i> a'r grugiar ddu <i>Tetrao tetrix</i>.</p> <p>Bregusrwydd: Mae'r mignenni, y rhostiroedd, y corsydd a'r glaswelltiroedd oll dan fygythiad oddi wrth ddatblygiadau amaethyddol amhriodol gan gynnwys draenio, ail-hadu, defnyddio gwrtiaith, adeiladu traciau a phrosesau porthi niweidiol. Gall defnydd hamdden achosi erydu.</p>	<p>Adar Atodiad I ac adar ymfudol sydd i'w gweld yn rheolaidd nad ydynt wedi'u rhestru yn Atodiad I</p> <p>Y boda tinwyn <i>Circus cyaneus</i></p> <p>Y cudyll bach <i>Falco columbarius</i></p> <p>Yr Hebog Tramor <i>Falco peregrinus</i></p> <p>Barcud <i>Milvus milvus</i></p>	<p>Effeithiau andwyol gan Sŵn/aflonyddwch gweledol i adar ysglyfaethus sy'n nythu oherwydd cynnal a chadw i asedau rheoli risg llifogydd ac erydu arfordirol (1.4), ac unrhyw waith posib ar welliannau FCERM (1.2 a 2.2) neu weithrediadau SuDS/NFM (3.3).</p>	<p>Ystyrir y gall y bygythiad o aflonyddwch i nodweddion rhywogaethau, o bosib, danseilio amcanion cadwraeth y safle ar gyfer pob nodwedd Atodiad I ac Atodiad II a restrwyd, ac felly caiff ei gynnwys fel effaith arwyddocaol debygol.</p>
<p>ACA Mynyddoedd y Berwyn a De Clwyd</p> <p>Mae ACA Mynyddoedd y Berwyn a De Clwyd yn safle ucheldir mawr (27,132 ha), ac mae'n cynnwys yr ardal fwyaf o fignen a rhostir sych Ewropeaidd yng Nghymru. Mae'n cynnwys tri safle arwahanol, SoDdGA Y Berwyn, SoDdGA Gweunydd Llandegla ac SoDdGA Rhiwabon, Mynyddoedd Llantysilio a'r Mwynglawdd.</p>	<p>Cynefin Atodiad I</p> <p>Rhostiroedd Sych Ewropeaidd</p> <p>Mignenni</p> <p>Glaswelltiroedd sych lled-naturiol a gweddau tir prysg: ar swbstradau calchaid (Festuco-Brometalia)</p>	<p>Gall addasiad i ddraenio ucheldir (e.e. ffosydd, draeniau) drwy gynnal a chadw, gan gynnwys clirio sianeli gael effaith andwyol ar nodweddion cynefin tir corsiog ar y safle (e.e. mignen a rhostir gwlyb)</p>	<p>Ystyrir y gall y bygythiad o golledion/dirywiad cynefin posib, danseilio amcanion cadwraeth y safle ar gyfer pob nodwedd Atodiad I ac Atodiad II a restrwyd, ac felly caiff ei gynnwys fel effaith arwyddocaol debygol.</p>

<p>Mae'r holl safleoedd hyn yn bennaf yn gymysgfa o rostir sych a llystyfiant gorgors gyda chlytiau o fignenni trawsnewidiol a llystyfiant cors grynu a welir fel brithwaith cymhleth, fel arfer ar fathau o gerrig asidig a gyda'i gilydd gellir eu disgrifio fel gweundir ucheldir.</p> <p>Bregusrwydd: Mae'r mignenni, y rhostiroedd, y corsydd a'r glaswelltiroedd oll dan fygythiad oddi wrth ddatblygiadau amaethyddol amhriodol gan gynnwys draenio, ail-hadu, defnyddio gwrtiaith, adeiladu traciau a phrosesau porthi niweidiol. Gall defnydd hamdden achosi erydu.</p>	<p>Mignenni trawsnewidiol a chorsydd crynu</p> <p>Sgri calchaid o lefelau mynyddig i alpaidd (<i>Thlaspietea rotundifolii</i>)</p> <p>Llethrau creigiog calchaid gyda llystyfiant casmoffitig</p>		
<p>ACA Cadair Idris</p> <p>Mae'r safle wedi'i leoli yn ne Dolgellau ac mae'n safle o ddi-ddordeb arbennig oherwydd ei nodweddion biolegol, daeareg carreg-wely Ordoficaidd/igneaid a nodweddion geomorffoleg Pleistosen/Cwaternaidd. Mae'r safle'n cynnwys mynydd Cadair Idris a'r llethrau is, sy'n fosaig o goedlannau llydanddail, dolydd gwlyb, cynefinoedd ucheldir a glaswelltir. Mae'r amrywiaeth eang o amodau ffisegol yn arwain at ystod eang o fathau o gynefinoedd. Mae'r rhain yn cynnwys cymunedau rhostir prysgwydd, glaswelltir mynyddig, cymunedau llawn perlaysiau a rhedyn, gorgorsydd, cymunedau soligenaidd, cynefin ffynnon,</p>	<p>Cynefinoedd Atodiad I</p> <p>Merddyfroedd oligroffig i fesotroffig gyda llystyfiant <i>Littorelletea uniflorae</i> ac/neu <i>Isoëto-Nanojuncetea</i></p> <p>Sgri silicaidd o lefelau mynyddig i lefelau eira (<i>Androsacetalia alpinae</i> a <i>Galeopsietalia ladani</i>)</p> <p>Llethrau creigiog calchaid gyda llystyfiant casmoffitig</p> <p>Llethrau creigiog silicaidd gyda llystyfiant casmoffitig</p>	<p>Gall addasiad i ddraenio ucheldir (e.e. ffosydd, draeniau) drwy gynnal a chadw (1.4), gan gynnwys clirio sianeli neu gynlluniau NFM (3.3) gael effaith andwyol ar nodweddion cynefin tir corsiog ar y safle (e.e., mignen a rhostir gwlyb)</p>	<p>Ystyrir y gall y bygythiad o golledion cynefin posib a dirywiad ansawdd dŵr danseilio amcanion cadwraeth y safle ar gyfer pob nodwedd Atodiad I ac Atodiad II a restrwyd, ac felly caiff ei gynnwys fel effaith arwyddocaol debygol.</p>

<p>dŵr agored a choedlan dderw. Y mwyaf amlwg yw glaswelltiroedd asid wedi'u dominyddu gan <i>Nardus stricta</i> a <i>Festuca ovina</i> a rhostiroedd sych asidig wedi'u dominyddu gan <i>Calluna vulgaris</i>. Yng nghyd-destun y SoDdGA, mae'r safle hefyd o ddiddordeb arbennig oherwydd ei gasgliad o uwch-blanhigion, cen, bryoffytau ac infertebratau mynyddig. Mae naw uwch-blanhigyn o ddiddordeb arbennig yn eu rhinwedd eu hunain (nodwedd ACA) ynghyd â'r mwsogl pluog main gwyrdd <i>Hamatocaulis vernicosus</i> a rhywogaeth cen ar y cyrion.</p> <p>Bregusrwydd: Mae pwysau ymwelwyr yn arwain at ddifrod i llystyfiant yn lleol. Mae glaw trwm yn golygu bod y safle'n sensitif i asideiddio. Gall pori trwm a llosgi arwain at newid yn strwythur y safle.</p>	<p>Rhostiroedd gwlyb Gogledd yr Iwerydd gydag <i>Erica tetralix</i></p> <p>Rhostiroedd sych Ewropeaidd</p> <p>Dolydd <i>molinia</i> ar briddoedd calchaid, mawnaidd neu glai llawn silt (<i>Molinion caeruleae</i>)</p> <p>Cymunedau ymylol o lysiau tal hydroffilaidd y gwastadeddau a'r ucheldiroedd mynyddig alpaidd</p> <p>Mignenni</p> <p>Corsydd alcalinaidd</p> <p>Hen goedwigoedd derw â mes digoes gydag <i>Ilex</i> a <i>Blechnum</i> yn Ynysoedd Prydain</p> <p>Rhywogaethau Atodiad II</p> <p>Glöyn byw brith y gors <i>Euphydrias (Eurodryas, Hypodryas) aurinia</i></p> <p>Mwsog pluog main gwyrdd <i>Drepanocladus (Hamatocaulis) vernicosus</i></p>		
<p>ACA Clogwyni Pen Llŷn</p> <p>Mae ACA Clogwyni Pen Llŷn yn rhan fawr o arfordir Pen Llŷn, yn ffinio â Môr Iwerddon ac yn gwbl agored i'r gwyntoedd cryfion a systemau'r tywydd.</p>	<p>Cynefinoedd Atodiad I</p> <p>Clogwyni gyda llystyfiant Arfordir yr Iwerydd a'r Arfordir Baltig</p>	<p>Effeithiau andwyol ar gynefinoedd clogwyni oherwydd gwaith peirianeg sy'n gysylltiedig â chynnal a chadw i asedau rheoli risg llifogydd ac erydu arfordirol (1.4), ac unrhyw waith adeiladu</p>	<p>Ystyrir y gall y bygythiad o golledion cynefin posib, danseilio amcanion cadwraeth y safle ar gyfer pob nodwedd Atodiad I ac Atodiad II a restrwyd, ac felly caiff ei gynnwys fel effaith arwyddocaol debygol.</p>

<p>O angenrheidrwydd mae ei gynefinoedd yn cael eu dylanwadu gan ei leoliad, daeareg a'r hinsawdd ac mae'r ardal arfordirol yn cefnogi rhai o'r enghreifftiau gorau sy'n bodoli o rostiroedd a glaswelltir arfordirol ac arforol yn Llŷn. Mae'r safle wedi cael ei ddynodi fel ACA oherwydd cynefin rhyngwladol bwysig 'Clogwyni gyda Llystyfiant Arfordir yr Iwerydd a'r Arfordiroedd Baltig'. Mae'r nodwedd hon yn cynnwys amrediad o gynefinoedd, gyda nifer ohonynt yn cael eu cynrychioli ar y safle hwn, gan gynnwys clogwyni caled a meddal, rhostir arforol ac arfordirol, cymunedau o laswelltir arforol a theroffytau arforol.</p> <p>Bregusrwydd: Gwaith peirianyddol i'r clogwyni eu hunain ac amddiffynfeydd môr artiffisial. Gall newidiadau mewn amodau hinsoddol arwain at gynnydd neu ostyngiad mewn stormydd a gwyntoedd uchel, llawn halen cysylltiedig, a all effeithio ar ddsbarthiad cymharol y glaswelltir arforol a rhostir arforol, dau gynefin sydd â chysylltiad agos..</p>		<p>cysylltiedig sy'n ymwneud â rhaglen / gwelliannau FCERM (1.2 a 3.3).</p>	
<p>ACA Coedydd Aber</p> <p>Mae Coedydd Aber yn ymestyn 4 km ar hyd dyffrynnoedd serth Afon Rhaeadr Fawr ac Afon Anafon, sydd wedi'u lleoli'n union i'r de o bentref Abergwyngregyn. Mae Coedydd Aber yn safle o ddiddordeb arbennig oherwydd ei ddiddordebau botanegol, adaregol a phryfetegol. Mae'r</p>	<p>Cynefin Atodiad I</p> <p>Hen goedwigoedd derw â mes digoes gydag Ilex a Blechnum yn Ynysoedd Prydain</p> <p>Coedwigoedd llifwaddodol gydag Alnus glutinosa a Fraxinus excelsior</p>	<p>Effaith andwyol ar ansawdd dŵr drwy unrhyw waith cynnal a chadw i asedau rheoli risg llifogydd (1.4), gwaith sy'n ymwneud â'r rhaglen / gwelliannau FCERM (1.2), a gweithrediadau SuDS/NFM (3.3). Gall coedwigoedd llifwaddodol fod yn sensitif i newidiadau mewn ansawdd dŵr.</p>	<p>Ystyrir y gall y bygythiad o ddirywiad i ansawdd dŵr danseilio amcanion cadwraeth y safle ar gyfer pob nodwedd Atodiad I ac Atodiad II a restrwyd, ac felly caiff ei gynnwys fel effaith arwyddocaol debygol.</p>

<p>safle yn cefnogi mosaig o fathau o goedlannau llydanddail cynhenid o bwysigrwydd rhyngwladol, gan gynnwys fforestydd llifwaddodol gyda gwern ac ynn, a hen goedwigoedd derw mes digoes, lle mae'r cynefinoedd (sy'n ddibynnol ar uchder) yn trawsnewid yn naturiol o'r arfordir i'r mynyddoedd agored.</p> <p>Bregusrwydd: Mae cynefin y coetir yn weddol gadarn ond mae sgôp i'w wella drwy waredu coed conwydd a rhywogaethau ymledol eraill.</p>	<p>(Alno-Padion, Alnion incanae, Salicion albae)</p>		
<p>ACA Coedydd Derw a Safleoedd Ystlumod Meirion</p> <p>Mae ACA Coedwigoedd Derw a Safleoedd Ystlumod Meirionnydd yn cynnwys cyfres o goetiroedd, yn ymestyn o Ddolgellau yn y de i Eryri yn y gogledd. Mae'r rhan fwyaf o'r ACA wedi'i dosbarthu fel math o goetir a elwir yn "hen goedwigoedd derw â mes digoes gydag Ilex a Blechnum yn Ynysoedd Prydain," sy'n gorchuddio oddeutu 84% o'r ACA – dyma'r math o goetir dominyddol yn y mwyafrif o'r safleoedd. Nodwedd allweddol o bwysigrwydd Ewropeaidd yw'r cymunedau bryoffytâu yr Iwerydd cyfoethog sy'n aml wedi datblygu'n dda o fewn y cynefin Atodiad I hwn. Mae gan ystlumod pedol lleiaf dros 20 o glwydfannau hysbys o fewn yr ACA a byddant yn chwilota'n eang o fewn</p>	<p>Cynefin Atodiad I</p> <p>Hen goedwigoedd derw â mes digoes gydag Ilex a Blechnum yn Ynysoedd Prydain</p> <p>Coedwigoedd llifwaddodol gydag Alnus glutinosa a Fraxinus excelsior (Alno-Padion, Alnion incanae, Salicion albae)</p> <p>Cyrsiau dŵr ar lefelau gwastad a mynyddig gyda Ranunculion fluitantis a llystyfiant Callitricho-Batrachion</p> <p>Rhostiroedd gwlyb Gogledd yr Iwerydd gydag Erica tetralix</p> <p>Rhostiroedd sych Ewropeaidd</p>	<p>Effaith andwyol ar ansawdd dŵr drwy unrhyw waith cynnal a chadw i asedau rheoli risg llifogydd (1.4), gwaith sy'n ymwneud â'r rhaglen / gwelliannau FCERM (1.2), neu weithrediadau SuDS/NFM (3.3). Mae nodweddion megis 'Cyrsiau dŵr ar lefelau gwastad a mynyddig' yn sensitif i newidiadau mewn ansawdd dŵr.</p> <p>Gall cynnal a chadw strwythurau (rheini sydd ddigon mawr i gael gofod gwag addas ar gyfer ystlumod sy'n hongian yn rhydd (e.e. rhai cylfatau a strwythurau pontydd) achosi effeithiau andwyol oherwydd colli cynefinoedd neu aflonyddwch i ystlumod pedol lleiaf.</p>	<p>Ystyrir y gall y bygythiad o aflonyddwch i nodweddion rhywogaethau, colledion posib o gynefinoedd a dirywiad ansawdd dŵr, o bosib, danseilio amcanion cadwraeth y safle ar gyfer pob nodwedd Atodiad I ac Atodiad II a restrwyd, ac felly caiff ei gynnwys fel effaith arwyddocaol debygol.</p>

<p>coetiroedd yr ACA, cynefinoedd cysylltiedig a'r ardaloedd gwledig cyfagos.</p> <p>Bregusrwydd: Mae mwsoglau a llysiau'r afu mewn ceunentydd lle mae gweithgareddau hamdden megis cerdded ceunant a chanŵio eithafol yn digwydd dan fygythiad o or-ddefnydd. Mae angen rheoli geifr gwyllt sy'n bresennol yn rhai o'r safleoedd yn ofalus i atal stripio rhisgl a difrod pori i goed ifanc a choed egin. Yn y gorffennol, mae'r rhostir wedi bod dan fygythiad coedwigo a llosgi/pori amhriodol. Mae ystlumod pedol lleiaf yn fwyaf bregus yn eu clwydfannau haf a gaeaf. Gosodwyd griliau ar nifer o glwydfannau sydd mewn ceuffyrdd mwynglawdd erbyn hyn i atal aflonyddwch i ystlumod sy'n gaeafgysgu. Caiff ystlumod eu heffeithio hefyd gan leihad yn y nifer o bryfaid sydd ar gael i'w bwyta, oherwydd newidiadau mewn arferion amaethu a phlaladdwyr.</p>	<p>Coedwigoedd Tilio-Acerion ar lethrau, sgrïau a cheunentydd</p> <p>Coetir cors</p> <p>Rhywogaethau Atodiad II</p> <p>Ystlum Pedol Lleiaf <i>Rhinolophus hipposideros</i></p>		
<p>Ramsar Cors Fochno a Dyfi</p> <p>Mae Ramsar Cors Fochno a Dyfi wedi'i leoli'n rhannol yn ne Gwynedd a gogledd Ceredigion.</p>	<p>Maen Prawf Ramsar 1</p> <p>Mae'r safle'n cynnwys yr ehangder mwyaf o gyforgors o ansawdd da yn iseldir Prydain; y gyforgors forydol fwyaf a'r drydedd gyforgors 'actif' fwyaf ym Mhrydain. Mae nodweddion Atodiad I y Gyfarwydddeb Cynefinoedd sy'n bresennol yn yr elfen ACA yn cynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Cyforgorsydd actif 	<p>Effaith andwyol ar ansawdd dŵr drwy unrhyw waith cynnal a chadw i asedau rheoli risg llifogydd ac erydu arfordirol (1.4), neu waith ar welliannau FCERM (1.2), neu weithrediadau SuDS/NFM (3.3).</p> <p>Effeithiau andwyol gan Sŵn/aflonyddwch gweledol i nodweddion rhywogaethau adar oherwydd cynnal a chadw i asedau rheoli risg llifogydd ac erydu</p>	<p>Ystyrir y gall y bygythiad o aflonyddwch i nodweddion rhywogaethau, a dirywiad ansawdd dŵr, o bosib, danseilio amcanion cadwraeth y safle ar gyfer pob nodwedd Atodiad I ac Atodiad II a restrwyd, ac felly caiff ei gynnwys fel effaith arwyddocaol debygol.</p>

	<ul style="list-style-type: none"> • Cyforgorsydd diraddedig y mae'n bosib eu hadfywio • Pantiau ar is-haenau mawn y Rhynchosporion <p>Mae'r safle yn cynnal yr unig haid o wyddau brest wen yr Ynys Las sy'n gaeafu'n rheolaidd yn Lloegr a Chymru, ac yn safle pwysig yng Nghymru ar gyfer rhydwyr sy'n magu.</p>	<p>arfordirol neu waith ar welliannau FCERM.</p>	
<p>ACA Corsydd Eifionydd</p> <p>Mae ACA Corsydd Eifionydd yn cynnwys pedwar Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig ar wahân; SoDdGA Cors Graianog, SoDdGA/Gwarchodfa Natur Cors Gyfelog , SoDdGA Cors Llanllyfni a SoDdGA Cors y Wlad. Mae'r safleoedd wedi'u lleoli ar gyrion yr ucheldir rhwng Eryri a Phenrhyn Llŷn, a gyda'i gilydd, maent yn cwmpasu ardal o dros 144 ha. Rhyngddynt, dylent gefnogi tair nodwedd o bwysigrwydd rhyngwladol sef mignen trawsnewidiol a chors grynu, brith y gors a mwsog pluog main gwyrdd. Dylai'r safleoedd hyn hefyd gefnogi amrywiaeth o gynefinoedd gwlypdir eraill gan gynnwys glaswelltir corsiog, ffen, cors, coetir gwlyb a chynefinoedd siglen.</p> <p>Bregusrwydd: Y prif bwysau sydd ar y safle hwn yw prysg yn lledaenu oherwydd diffyg pori, sy'n adlewyrchu natur gorslyd</p>	<p>Cynefin Atodiad I</p> <p>Mignenni trawsnewidiol a chorsydd crynu</p> <p>Rhywogaethau Atodiad II</p> <p>Glöyn byw brith y gors <i>Euphydryas (Eurodryas, Hypodryas) aurinia</i></p> <p>Mwsog pluog main gwyrdd <i>Drepanocladus (Hamatocaulis) vernicosus</i></p>	<p>Effaith andwyol ar ansawdd dŵr drwy unrhyw waith cynnal a chadw i asedau rheoli risg llifogydd (1.4), gwaith sy'n ymwneud â'r rhaglen / gwelliannau adeiladu (1.2), neu weithrediadau SuDS/NFM (3.3). Ystyrir bod nodweddion cynefin yr ACA hwn yn arbennig o sensitif i newidiadau mewn ansawdd dŵr.</p> <p>Gall addasiad i ddraenio (e.e. ffosydd, draeniau, cylfatau) drwy gynnal a chadw, gan gynnwys clirio sianeli gael effaith andwyol ar nodweddion cynefin tir corsiog ar y safle (e.e. mignenni trawsnewidiol a chorsydd crynu).</p>	<p>Ystyrir y gall y bygythiad o golledion cynefin posib a dirywiad ansawdd dŵr danseilio amcanion cadwraeth y safle ar gyfer pob nodwedd Atodiad I ac Atodiad II a restrwyd, ac felly caiff ei gynnwys fel effaith arwyddocaol debygol.</p>

<p>ac anhygyrch y tir yma. Mae draenio a llygredd yn beryglon ychwanegol.</p>			
<p>ACA Corsydd Llŷn</p> <p>Mae ACA Corsydd Llŷn yn cynnwys cadwyn o bedair cors galchog ar draws canol Penrhyn Llŷn, yng ngogledd orllewin Cymru. Cors Geirch yw'r safle cydran fwyaf; mae'r tri safle cydran arall sef Cors Hirdre, Rhyllech Uchaf ac Aber Geirch yn cynnwys unedau hydrotopograffig ar wahân. Mae nodweddion yn cynnwys cors yn gyfoethog o galsiwm sy'n cael ei dominyddu gan hesgen ffen fawr, ffeniau sy'n cael eu bwydo gan ddŵr ffynnon sy'n gyfoethog o galsiwm, y falwen droellog Geyer, y falwen droellog Desmoulin.</p> <p>Bregusrwydd: Mae'r safle dan bwysau gan amaeth (e.e. cynnal a chadw ffosydd, chwalu gwrtait, esgeulustod). Mae ansawdd dŵr y safle yn fregus i ddirywiad oherwydd gweithgareddau amaethyddol (e.e. slyri). Mae prysg yn lledaenu yn broblem rheoli barhaus.</p>	<p>Cynefin Atodiad I</p> <p>Corsydd alcalinaidd</p> <p>Corsydd calchaid gyda <i>Cladium mariscus</i> a rhywogaethau o'r Caricion davallinae</p> <p>Rhywogaethau Atodiad II</p> <p>Malwen droellog Desmoulin. <i>Vertigo moulinsiana</i></p> <p>Malwen droellog Geyer <i>Vertigo geyeri</i></p>	<p>Effaith andwyol ar ansawdd dŵr drwy unrhyw waith cynnal a chadw i asedau rheoli risg llifogydd (1.4), gwaith sy'n ymwneud â rhaglen adeiladu FCERM (1.2), neu weithrediadau SuDS/NFM (3.3). Ystyrir bod nodweddion yr ACA hwn yn arbennig o sensitif i newidiadau mewn ansawdd dŵr.</p> <p>Gall addasiad i ddraenio (e.e., ffosydd, draeniau, cylfatau) drwy gynnal a chadw, gan gynnwys clirio sianeli, gael effaith andwyol ar nodweddion cynefin tir corsiog ar y safle.</p>	<p>Ystyrir y gall y bygythiad o golledion cynefin posib a dirywiad ansawdd dŵr danseilio amcanion cadwraeth y safle ar gyfer pob nodwedd Atodiad I ac Atodiad II a restrwyd, ac felly caiff ei gynnwys fel effaith arwyddocaol debygol.</p>
<p>Ramsar Corsydd Ynys Môn a Llŷn</p> <p>Cyfres o gorsydd tra-fasig o bwysigrwydd rhyngwladol sy'n cynnwys chwe safle gwahanol, sy'n cefnogi amrediad o elfennau fflora a ffawna prin. Mae'r chwe gwlypdir i'w cael ym mlaenau cymoedd a hen fasnau llynnoedd sydd wedi'u llenwi'n</p>	<p>Maen Prawf Ramsar 1</p> <p>Mae'r safle yn cynnal cyfres o gorsydd tra-fasig, calchaid sy'n gynefin prin yn y Deyrnas Unedig.</p> <p>Mae nodweddion Atodiad I yn cynnwys:</p>	<p>Gall cynnal a chadw i asedau rheoli risg llifogydd ac erydu arfordirol (1.4), gwaith sy'n ymwneud â'r rhaglen adeiladu FCERM (1.2) neu weithrediadau SuDS/NFM (3.3) achosi effeithiau andwyol oherwydd aflonyddwch i</p>	<p>Ystyrir y gall y bygythiad o aflonyddwch i nodweddion rhywogaethau, colledion posib o gynefinoedd a dirywiad ansawdd dŵr, o bosib, danseilio amcanion cadwraeth y safle ar gyfer pob nodwedd Atodiad I ac Atodiad II a restrwyd, ac felly caiff ei</p>

<p>bennaf â gwaddodion marl a mawn, ac mewn dau safle ceir dŵr agored. Mae ffynhonnau calchaid yn tarddu o galchfaen a dyfrhaenau drift calchaid yn llifo i'r corysdd ac yn arwain at llystyfiant penodol. Mae'r corysdd hyn yn adnabyddus fel y safleoedd gorau yng Nghymru ar gyfer rhawn yr ebol.</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Dyfroedd oligo-mestroffig caled gyda llystyfiant benthig Chara spp • Rhostiroedd gwlyb Gogledd yr Iwerydd gydag Erica tetralix • Dolydd molinia ar briddoedd calchaid, mawnaidd neu glai llawn silt (Molinion caeruleae) • Corysdd calchaid gyda Cladium mariscus a rhywogaethau o'r Caricion davallinae • Corysdd alcalinaidd • Malwen Droellog Geyer Vertigo Geyeri • Mursen y De Coenagrion mercuriale • Glöyn byw brith y gors Euphydrias (Eurodryas, Hypodryas) aurinia <p>Maen Prawf Ramsar 3</p> <p>Mae'r safle'n cefnogi fflora a ffawna amrywiol ac mae o werth arbennig ar gyfer cynnal amrywiaeth enetig / eolegol.</p>	<p>nodweddion rhywogaethau a cholledion posib o gynefinoedd.</p> <p>Effaith andwyol ar ansawdd dŵr drwy unrhyw waith cynnal a chadw i asedau rheoli risg llifogydd. Mae nifer o nodweddion y safle Ramsar hwn yn sensitif i newidiadau mewn ansawdd dŵr.</p> <p>Gall addasiad i ddraenio (e.e. ffosydd, draeniau, cylfatau) drwy gynnal a chadw, gan gynnwys clirio sianeli, gael effaith andwyol ar nodweddion cynefin tir corsiog ar y safle.</p>	<p>gynnwys fel effaith arwyddocaol debygol.</p>
<p>ACA Eryri</p> <p>Mae Eryri yn cynnwys tri darn o ucheldir gaiff eu gwahanu gan ffyrdd, sef y Carneddau, y Glyderau a'r Wyddfa. Mae'r tri yn gartref i nifer o nodweddion SoDdGA biolegol a daearegol ac i nodweddion ACA. Mae nodweddion cymhwysol yn cynnwys; Cymunedau planhigion ar dir uchel sy'n gysylltiedig ag ardaloedd o ddŵr yn treiddio, mignenni,</p>	<p>Cynefinoedd Atodiad I</p> <p>Merddyfroedd oligorffig i fesotroffig gyda llystyfiant Littorelletea uniflorae ac/neu Isoëto-Nanojuncetea</p> <p>Glaswelltiroedd silicaidd alpaidd a boreal</p>	<p>Gall addasiad i ddraenio ucheldir (e.e. ffosydd, draeniau) drwy gynnal a chadw (1.4), gan gynnwys clirio sianeli gael effaith andwyol ar nodweddion cynefin tir corsiog ar y safle (e.e. mignen a rhostir gwlyb). Gall gweithredu NFM (3.3) hefyd effeithio ar rai nodweddion (megis rhostir sych Ewropeaidd) drwy gynyddu lefelau dŵr ar dir.</p>	<p>Ystyrir y gall y bygythiad o golledion cynefin posib a dirywiad ansawdd dŵr danseilio amcanion cadwraeth y safle ar gyfer pob nodwedd Atodiad I ac Atodiad II a restrwyd, ac felly caiff ei gynnwys fel effaith arwyddocaol debygol.</p>

<p>glaswelltir sydd â chyfoeth o rywogaethau gyda mat-wellt mewn ardaloedd o dir uchel, rhostiroedd alpaidd ac isalpaidd, rhostiroedd sych, a choetir dderw asidig orllewinol.</p> <p>Bregusrwydd: Gall gorbori effeithio ar rai cymunedau llystyfiant. Mae'r glawiad trwm a'r ddaeareg/priddeg asidaidd helaeth yn golygu fod yr ardal yma, yn enwedig ei chyrsiau dŵr a'r llynnoedd, yn agored i niwed gan asideiddio.</p>	<p>Cymunedau ymylol o lysiau tal hydroffilaidd y gwastadeddau a'r ucheldiroedd mynyddig alpaidd</p> <p>Sgri silicaidd o lefelau mynyddig i lefelau eira (<i>Androsacetalia alpinae</i> a <i>Galeopsietalia ladani</i>)</p> <p>Llethrau creigiog calchaid gyda llystyfiant casmoffitig</p> <p>Llethrau creigiog silicaidd gyda llystyfiant casmoffitig</p> <p>Rhostiroedd gwlyb Gogledd yr Iwerydd gydag <i>Erica tetralix</i></p> <p>Rhostiroedd sych Ewropeaidd</p> <p>Rhostiroedd alpaidd a boreal</p> <p>Glaswelltiroedd calchaid alpaidd ac isalpaidd</p> <p>Glaswelltir <i>Nardus</i> llawn rhywogaethau ar is-haenau siliciadd mewn ardaloedd mynyddig</p> <p>Mignenni</p> <p>Pantiau ar is-haenau mawn y Rhynchosporion</p> <p>Ffynhonnau caregaidd gyda ffurfiad twffa (<i>Cratoneurion</i>)</p>	<p>Effaith andwyol ar ansawdd dŵr drwy unrhyw waith cynnal a chadw i asedau rheoli risg llifogydd. Mae rhai nodweddion yr ACA hwn yn sensitif i newidiadau mewn ansawdd dŵr.</p>	
--	--	--	--

	<p>Corsydd alcalinaidd</p> <p>Ffurfiadau alpaidd pwysig o Caricion bicloris-atrofuscae</p> <p>Hen goedwigoedd derw â mes digoes gydag Ilex a Blechnum yn Ynysoedd Prydain</p> <p>Rhywogaethau Atodiad II</p> <p>Mwsog pluog main gwyrdd <i>Drepanocladus (Hamatocaulis) vernicosus</i></p> <p>Llyriad-y-dŵr arnofiol <i>Luronium natans</i></p>		
<p>ACA Glynllifon</p> <p>Mae ACA Glynllifon wedi'i dynodi am ei phoblogaeth o'r Ystlum Bedol Leiaf. Mae tair clwydfan fagu o fewn y safle a dwy glwydfan gaeafgysgu. Er bod rhai cynefinoedd wedi'u cynnwys o fewn ffin yr ACA, mae'r ystlumod yn defnyddio ardal llawer ehangach i fwydo a chymudo ac mae yna hefyd glwydfannau cysylltiedig a adnabuwyd tu allan i ffin yr ACA.</p> <p>Bregusrwydd: Datblygiad, gan gynnwys colled o safleoedd clwydo ac effaith ar linellau hedfan yn sgil clirio llystyfiant/coed. Mae llinellau hedfan sy'n cysylltu unedau'r ACA hefyd yn bwysig iawn ac mae angen eu hystyried wrth</p>	<p>Rhywogaethau Atodiad II</p> <p>Ystlum Pedol Leiaf <i>Rhinolophus hipposideros</i></p>	<p>Effaith andwyol ar linellau hedfan Ystlumod Pedol Leiaf yn sgil clirio llystyfiant oherwydd gwaith sy'n ymwneud â'r rhaglen FCERM a gwaith adeiladu SuDS/NFM (1.2 a 3.3) neu reoli asedau llifogydd (1.4). Mae llinellau hedfan y tu allan i'r ACA hefyd yn sensitif gan eu bod yn cysylltu elfennau'r ACA a safleoedd porthi posib.</p>	<p>Ystyrir y gall y bygythiad o aflonyddwch i nodweddion rhywogaethau a dirywiad cynefin danseilio amcanion cadwraeth y safle ar gyfer pob nodwedd Atodiad I ac Atodiad II a restrwyd, ac felly caiff ei gynnwys fel effaith arwyddocaol debygol.</p>

<p>asesu datblygiadau. Mae ystlumod yn agored i aflonyddwch, yn enwedig yn ystod tymor mamolaeth yr haf. Caiff ystlumod eu heffeithio hefyd gan leihad yn y nifer o bryfaid sydd ar gael i'w bwyta, oherwydd newidiadau mewn arferion amaethu a phlaladdwyr.</p>			
<p>ACA Gorllewin Cymru Forol</p> <p>Mae ACA Gorllewin Cymru Forol yn cwmpasu ardal o 7,376km² yn ymestyn tua'r de o ben gorllewinol Penrhyn Llŷn ar draws Bae Ceredigion i Sir Benfro. Mae wedi'i dynodi am ei phoblogaeth o Lamhidydd yr Harbwr.</p> <p>Bregusrwydd: Aflonyddwch yn deillio o sŵn dan ddŵr. Gweithgareddau pysgodfeydd, gan gynnwys dal llamhidydd yr harbwr a chael gwared ar rywogaethau ysglyfaeth. Gweithgareddau cychod hamdden, yn achosi aflonyddwch neu wrthdrawiad.</p>	<p>Rhywogaethau Atodiad II</p> <p>Llamhidydd yr Harbwr <i>Phocoena phocoena</i></p>	<p>Effaith andwyol ar rywogaethau symudol sy'n cynnwys Llamhidydd yr Harbwr oherwydd y potensial i gynlluniau amddiffyn yr arfordir greu sŵn dan ddŵr (1.2).</p>	<p>Ystyrir y gall y bygythiad o aflonyddwch i nodweddion rhywogaethau, o bosib, danseilio amcanion cadwraeth y safle ar gyfer pob nodwedd Atodiad I ac Atodiad II a restrwyd, ac felly caiff ei gynnwys fel effaith arwyddocaol debygol.</p>
<p>Ramsar Llyn Tegid</p> <p>Y llyn naturiol mwyaf yng Nghymru, yn gorwedd yn ddwfn mewn dyffryn cafnog. Mae ei lystyfiant dyfrol yn brin iawn, ond mae'r amrywiaeth o rywogaethau, nifer sy'n brin ym Mhrydain, yn arwydd o amodau maeth sy'n weddol gymedrol. Llyn Tegid yw un o'r chwe safle ym Mhrydain ble ceir y pysgodyn <i>Coregonus lavaretus</i> ac mae'n gynefin anarferol ar</p>	<p>Maen Prawf Ramsar 1</p> <p>Y llyn naturiol mwyaf yng Nghymru, yn gorwedd yn ddwfn mewn cafn rhewlifol gynt.</p> <p>Maen Prawf Ramsar 2</p> <p>Mae rhywogaethau'r planhigion lleidllys <i>Limosa aquatica</i>, y gwybyr chwe brigerog <i>Elatine hexandra</i>, hesg <i>Carex aquatilis</i> a'r llyriad</p>	<p>Gall cynnal a chadw i asedau rheoli risg llifogydd ac erydu arfordirol (1.4) achosi effeithiau andwyol oherwydd aflonyddwch i nodweddion rhywogaethau a cholledion posib o gynefinoedd.</p> <p>Effaith andwyol ar ansawdd dŵr drwy unrhyw waith cynnal a chadw / adeiladu.</p>	<p>Ystyrir y gall y bygythiad o aflonyddwch i nodweddion rhywogaethau, colledion posib o gynefinoedd a dirywiad ansawdd dŵr, o bosib, danseilio amcanion cadwraeth y safle ar gyfer pob nodwedd Atodiad I ac Atodiad II a restrwyd, ac felly caiff ei gynnwys fel effaith arwyddocaol debygol.</p>

<p>gyfer y pysgodyn <i>Thymallus thymallus</i> sydd fel arfer mewn afonydd.</p>	<p>nofiadwy <i>Luronium natans</i> yn tyfu naill ai yn y llyn neu ar ei bwys, ac mae'r rhain oll yn brin ym Mhrydain. Ystyrir bod y llyriad nofadwy'n rhywogaeth fregus yn fyd-eang.</p> <p>Dyma un o'r chwe safle ym Mhrydain ble y ceir y <i>Gwyniad</i> <i>Coregonus lavaretus</i>; mae poblogaeth Gymreig y pysgodyn hwn yn unigryw o ran ei enynnau.</p> <p>Mae Llyn Tegid hefyd yn gynefin anarferol i'r penllwyd <i>Thymallus thymallus</i> gan ei bod fel arfer yn rhywogaeth afonol.</p> <p>Mae'r falwen ludiog, <i>Myxas glutinosa</i> sy'n brin yn genedlaethol wedi'i haildarganfod yng ngro bas glannau'r llyn.</p>		
<p>ACA Migneint-Arenig-Dduallt</p> <p>Mae Migneint-Arenig-Dduallt yn safle mawr ar yr ucheldir, sy'n ymestyn rhwng Ysbyty Ifan a Phenmachno yn y gogledd i lawr i Rydymain yn y de, ac o Drawsfynydd yn y gorllewin fymryn i'r dwyrain o Lyn Celyn. Mae ei uchder yn amrywio o 300m i 712m. Mae'r rhan ogleddol yn cynnwys llwyfandir mawnog uchel ar Figneint ac yn ymestyn i Domen y Mur yn y gorllewin a Chwm Hesygn yn y dwyrain, gyda phwyntiau uwch megis Arenig Fach o amgylch yr ymyl. Mae'r rhan ddeheuol, i'r</p>	<p>Cynefin Atodiad I</p> <p>Rhostiroedd sych Ewropeaidd</p> <p>Mignenni</p> <p>Merddyfroedd oligroffig i fesotroffig gyda llystyfiant <i>Littorelletea uniflorae</i> ac/neu <i>Isoëto-Nanojuncetea</i></p> <p>Llynnoedd a phyllau dystroffig naturiol</p>	<p>Gall addasiad i ddraenio ucheldir (e.e. ffosydd, draeniau) drwy gynnal a chadw (1.4), gan gynnwys clirio sianeli gael effaith andwyol ar nodweddion cynefin tir corsiog ar y safle (e.e. mignen a rhostir gwlyb).</p> <p>Effaith andwyol ar ansawdd dŵr drwy unrhyw waith cynnal a chadw neu adeiladu. Mae rhai nodweddion yr ACA hwn yn sensitif i newidiadau mewn ansawdd dŵr.</p>	<p>Ystyrir y gall y bygythiad o golledion cynefin posib a dirywiad ansawdd dŵr danseilio amcanion cadwraeth y safle ar gyfer pob nodwedd Atodiad I ac Atodiad II a restrwyd, ac felly caiff ei gynnwys fel effaith arwyddocaol debygol.</p>

<p>de o Afon Lliw, hefyd yn cynnwys llwyfandir uchel wedi'i hamgylchynu gan dir uchel a'i dominyddu gan Fynydd Dduallt. Mae'r rhan ganol, yn gorwedd i'r de o Gwm Prysor a Llyn Celyn ac mae'n cynnwys Moel Llyfnant a Moel y Llechi yn ogystal â chrib mynydd Arenig Fawr, sef rhan uchaf y safle cyfan. Mae cynefinoedd yr ACA yn cynnwys mwsogl y gors, rhostir sych, rhostir gwlyb, llynnoedd a choetir.</p> <p>Bregusrwydd: Mae pori, llosgi a draenio amhriodol yn arwain at ddiraddiad y fignen a'r rhostir – dyma'r prif fygythiadau i'r safle. Mae'r llystyfiant a nodweddion y llyn yn sensitif i asideiddio oherwydd llygredd atmosfferig.</p>	<p>Rhostiroedd gwlyb Gogledd yr Iwerydd gyda <i>Erica tetralix</i></p> <p>Hen goedwigoedd derw â mes digoes gydag <i>Ilex</i> a <i>Blechnum</i> yn Ynysoedd Prydain</p>		
<p>AGA Migneint-Arenig-Dduallt</p> <p>Mae Migneint-Arenig-Dduallt yn safle mawr ar yr ucheldir, sy'n ymestyn rhwng Ysbyty Ifan a Phenmachno yn y gogledd i lawr i Rydymain yn y de, ac o Drawsfynydd yn y gorllewin fymryn i'r dwyrain o Lyn Celyn. Mae'r AGA wedi'i ddynodi am y Boda Tinwyn <i>Circus cyaneus</i>, y Cudyll bach <i>Falco columbarius</i>, yr Hebog Tramor <i>Falco peregrinus</i>.</p> <p>Bregusrwydd: Mae rheolaeth anaddas o bori / llosgi / draenio wedi niweidio cynefin bwydo / magu nodweddion yr AGA. Mae cynefinoedd bwydo/magu'r tair rhywogaeth hefyd yn agored i asideiddio gan fod glawiad uchel a daeareg/priddeg</p>	<p>Adar Atodiad I ac adar ymfudol sydd i'w gweld yn rheolaidd nad ydynt wedi'u rhestru yn Atodiad 1</p> <p>Y Boda Tinwyn <i>Circus cyaneus</i></p> <p>Y Cudyll Bach <i>Falco columbarius</i></p> <p>Yr Hebog Tramor <i>Falco peregrinus</i></p>	<p>Effeithiau andwyol gan Sŵn/aflonyddwch gweledol i adar ysglyfaethus sy'n nythu oherwydd cynnal a chadw i asedau rheoli risg llifogydd ac erydu arfordirol (1.4), gwaith adeiladu dan y rhaglen FCERM (1.2) neu weithrediadau SuDS/NFM (3.3).</p>	<p>Ystyrir y gall y bygythiad o aflonyddwch i nodweddion rhywogaethau, o bosib, danseilio amcanion cadwraeth y safle ar gyfer pob nodwedd Atodiad I ac Atodiad II a restrwyd, ac felly caiff ei gynnwys fel effaith arwyddocaol debygol.</p>

<p>asidig y safle yn ychwanegu at y llygredd atmosfferig. Mae'r safle hwn hefyd wedi cael ei effeithio'n sylweddol yn y gorffennol gan weithgarwch cloddio sydd wedi arwain at ddinistrio'r cynefinoedd a ddefnyddiwyd gan adar sy'n magu.</p>			
<p>ACA Morfa Harlech a Morfa Dyffryn</p> <p>Mae ACA Morfa Harlech a Morfa Dyffryn yn cynnwys dwy system twyni tywod – Morfa Harlech i'r gogledd a Morfa Dyffryn i'r de. Mae Morfa Harlech yn system dwyni sy'n cronni'n gyflym, ac yn casglu tywod o'r arfordir i'r de, gan gynnwys y system dwyni ym Morfa Dyffryn sy'n erydu. Mae ACA Morfa Harlech a Morfa Dyffryn yn cefnogi'r nodweddion ACA canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Twyni symudol embryonig • Twyni symudol ar hyd y draethlin gydag <i>Ammophila arenaria</i> (twyni gwyn) • Gwastatir llaith rhwng y twyni • Twyni â <i>Salix repens</i> ssp. <i>argentea</i> (<i>Salicion arenariae</i>) • <i>Petalys Petalophyllum ralfsii</i> <p>Bregusrwydd: Pwysau trwm ar y traethau a'r twyni, yn arwain at ansefydlogi sy'n un o'r prif bygythiadau i'r safle.</p>	<p>Cynefin Atodiad I</p> <p>Twyni symudol embryonig</p> <p>Twyni symudol ar hyd y draethlin gydag <i>Ammophila arenaria</i> (twyni gwyn)</p> <p>Twyni â <i>Salix repens</i> ssp. <i>argentea</i> (<i>Salicion arenariae</i>)</p> <p>Gwastatir llaith rhwng y twyni</p> <p>Rhywogaethau Atodiad II</p> <p><i>Petalys Petalophyllum ralfsii</i></p>	<p>Ystyrir bod y potensial am effeithiau andwyol ar y safle hwn yn gyfyngedig iawn, gan fod y nodweddion cymhwysol pennaf yn gynefinoedd daearol a'u llystyfiant cysylltiedig. Byddai nodweddion y twyni yn sensitif i gyfyngiad ar symudiad naturiol y tywod, er enghraifft drwy strwythurau amddiffyn arfordir newydd (1.2), felly bydd angen ystyried hyn mewn perthynas ag unrhyw waith amddiffyn arfordirol o fewn yr un 'cell' arfordirol.</p>	<p>Ystyrir y gall y bygythiad o golledion neu ddirywiad cynefin posib, danseilio amcanion cadwraeth y safle ar gyfer pob nodwedd Atodiad I ac Atodiad II a restrwyd, ac felly caiff ei gynnwys fel effaith arwyddocaol debygol.</p>
<p>ACA Pen Llŷn a'r Sarnau</p> <p>Mae ACA Pen Llŷn a'r Sarnau yn cwmpasu ardaloedd o fôr, arfordir a'r aber sy'n cefnogi ystod eang o wahanol</p>	<p>Cynefinoedd Atodiad I</p> <p>Traethellau y mae dŵr môr yn eu gorchuddio rhywfaint drwy'r adeg</p>	<p>Gall gwaith sy'n ymwneud â gwelliannau FCERM (1.2), cynnal a chadw i asedau rheoli risg llifogydd ac erydu arfordirol (1.4) a gweithrediadau SuDS/NFM (3.3)</p>	<p>Ystyrir y gall y bygythiad o aflonyddwch i nodweddion rhywogaethau, colledion posib o gynefinoedd drwy ddifrod neu gywasgiad arfordirol, a dirywiad ansawdd dŵr, o bosib,</p>

<p>gynefinoedd morwrol a bywyd gwyllt. Mae natur gwely'r môr a'r arfordir, yn ogystal â'r amrywiaeth o amodau amgylcheddol sy'n bresennol yn amrywio ar draws yr ACA. Mae gwahaniaethau mewn mathau o garreg a gwaddodion, agwedd, symudiad gwaddodion, amlygiad i gerrynt y llanw a symudiad y tonnau, claerder a halltedd y dŵr, ynghyd â'r rhyngweithiadau biolegol a chadwyn fwyd, wedi creu ystod eang o gynefinoedd a chymunedau cysylltiedig o blanhigion morwrol a rhywogaethau anifeiliaid, gyda rhai ohonynt yn unigryw i Gymru.</p> <p>Mae ACA Pen Llŷn a'r Sarnau yn safle o sawl diddordeb sydd wedi'i ddewis oherwydd presenoldeb naw math o gynefin morwrol a bywyd gwyllt cysylltiedig (mathau o gynefin Atodiad I y Gyfarwyddeb Cynefinoedd) a thair rhywogaeth mamaliaid (rhywogaethau Atodiad II y Gyfarwyddeb Cynefinoedd). Ar gyfer y cynefinoedd a rhywogaethau cymhwysol, caiff ACA Pen Llŷn a'r Sarnau ei hystyried i fod yn un o ardaloedd gorau y Deyrnas Unedig ar gyfer: Riffiau, Cilfachau a baeau mawr a bas, Traethellau y mae dŵr môr yn gorchuddio rhywfaint ohonynt drwy'r adeg, Aberoedd, Lagŵns arfordirol.</p> <p>Bregusrwydd: Gall adeiladu (e.e. llithrfeydd, amddiffynfeydd arfordirol a marinas/harbyrau) achosi aflonyddwch i'r cynefinoedd morydol, gwastadeddau llaid</p>	<p>Aberoedd</p> <p>Lagŵns Arfordirol</p> <p>Cilfachau a baeau mawr a bas</p> <p>Riffiau</p> <p>Fflatiau llaid a gwastadeddau tywod heb eu gorchuddio gan ddŵr môr ar lanw isel</p> <p>Salicornia a rhai blynyddol eraill sy'n cytrefu llaid a thywod</p> <p>Dolydd arfor yr Iwerydd (Glauco-Puccinellietalia maritimae)</p> <p>Ogofau môr dan ddŵr neu'n rhannol dan ddŵr</p> <p>Rhywogaethau Atodiad II</p> <p>Dolffin trwynbwl <i>Tursiops truncatus</i></p> <p>Dyfrgi <i>Lutra lutra</i></p> <p>Morlo llwyd <i>Halichoerus grypus</i></p>	<p>achosi effeithiau andwyol oherwydd colledion posib i nodweddion cynefinoedd neu aflonyddwch i nodweddion rhywogaethau.</p> <p>Effaith andwyol ar ansawdd dŵr y môr drwy unrhyw waith cynnal a chadw neu adeiladu.</p>	<p>danseilio amcanion cadwraeth y safle ar gyfer pob nodwedd Atodiad I ac Atodiad II a restrwyd, ac felly caiff ei gynnwys fel effaith arwyddocaol debygol.</p>
---	---	--	---

<p>a thywod rhynglanw, a chynefinoedd rîff ac amharu ar brosesau ffisegol hanfodol ar gyfer cynnal a chadw'r cynefinoedd hyn. Mae rhai cymunedau rîff yn agored i'w haflonyddu gan ddulliau pysgota penodol, yn benodol, offer trwm i bysgota'r pysgod ar y gwaelod. Mae cymunedau yn yr ACA yn sensitif i lygredd olew.</p>			
<p>ACA Rhinog</p> <p>Mae'r Rhinogydd wedi'u cerfio o raeau Cambrian caled, asidig cromen Harlech, ac mae'r topograffi'n arw gyda llynnoedd gwasgaredig ar yr ucheldir, llethrau â chreigiau anferth arnynt, clogwyni a brigiadau.</p> <p>Mae lleoliad daearyddol y safle yn golygu bod y môr yn dylanwadu ar yr hinsawdd, gan arwain at lawiad uchel, tymereddau cymedrol a lleithder uchel yn gyffredinol. Y prif llystyfiant yno yw'r grug <i>Calluna vulgaris</i>, sy'n tyfu ar briddoedd tenau, gwael ac asidig. Mae pori a llosgi dros y 60 mlynedd diwethaf wedi bod yn eithaf cyfyngedig, felly mae'r grug yn ddwfn ac yn aeddfed. Mae hyn, ynghyd â'r prif amodau hinsoddol, wedi arwain at fflora cyfoethog o blanhigion bryophyte a rhedyn ar y ddaear. Mae'r safle hwn yn unigryw yng Nghymru fel enghraifft o gynefin <i>Calluna</i> o'r fath sydd heb ei addasu.</p>	<p>Cynefinoedd Atodiad I</p> <p>Rhostiroedd Sych Ewropeaidd</p> <p>Hen goedwigoedd derw â mes digoes gydag <i>Ilex</i> a <i>Blechnum</i> yn Ynysoedd Prydain</p> <p>Merddyfroedd oligroffig i fesotroffig gyda llystyfiant <i>Littorelletea uniflorae</i> ac/neu <i>Isoëto-Nanojuncetea</i></p> <p>Rhostiroedd gwlyb Gogledd yr Iwerydd gydag <i>Erica tetralix</i></p> <p>Rhostiroedd alpaidd a boreal</p> <p>Mignenni</p> <p>Pantiau ar is-haenau mawn y Rhynchosporion</p> <p>Rhywogaethau Atodiad II</p>	<p>Gall addasiad i ddraenio ucheldir (e.e. ffosydd, draeniau) drwy gynnal a chadw (1.4), gan gynnwys clirio sianeli gael effaith andwyol ar nodweddion cynefin tir corsiog ar y safle (e.e. mignen a rhostir gwlyb). Difrod/colledion cynefin drwy weithredu cynlluniau NFM (3.3) drwy gynyddu lefelau dŵr mewn ardaloedd.</p>	<p>Ystyrir y gall y bygythiad o ddirywiad i ansawdd dŵr danseilio amcanion cadwraeth y safle ar gyfer pob nodwedd Atodiad I ac Atodiad II a restrwyd, ac felly caiff ei gynnwys fel effaith arwyddocaol debygol.</p>

<p>Bregusrwydd: Mae'r glawiad trwm a'r ddaearreg/priddeg asidaidd helaeth yn golygu fod yr ardal yma, yn enwedig ei chyrsiau dŵr a'r llynnoedd, yn agored i niwed gan asideiddio. Mae'r rhostir cefnforol sy'n gyfoeth o gen a bryoffytau yn agored i gael eu llosgi a chael eu niweidio gan or-bori.</p>	<p>Llyriad-y-dŵr arnofiol <i>Luronium natans</i></p>		
<p>AGA Traeth Lafan</p> <p>Saif Traeth Lafan ym mae Conwy, rhwng Bangor a Llanfairfechan yng ngogledd orllewin Cymru. Mae'r ardal fawr hon o wastadeddau llaid a thywod rhynglanwol wedi'i lleoli ar ymyl dwyreiniol y Fenai. Mae rhannau o'r ardal yn gwbl agored a cheir yma amrywiaeth o amodau, wedi'u cyfoethogi gan ffrydiau dŵr croyw sy'n llifo ar hyd y gwastadau. Mae'r safle'n bwysig am ei adar dŵr sy'n gaeafu yno, yn enwedig pioden y môr (<i>Haematopus ostralegus</i>) a'r gylfinir (<i>Numenius arquata</i>). Dan amodau tywydd garw'r gaeaf, mae Traeth Lafan yn gweithredu fel lloches i biod y môr a gaiff eu dadleoli o aber afon Dyfrdwy. Mae'r safle hefyd yn glwydfan bwrw pwysig i'r wyach fawr gopog (<i>Podiceps cristatus</i>) tua diwedd yr haf/dechrau'r hydref.</p> <p>Bregusrwydd: Mae pryderon wedi bod y gall y gwaith achlysurol o garthu cocos drwy sugno brinhau ffynhonnell fwyd priod y môr.</p>	<p>Adar Atodiad I ac adar ymfudol sydd i'w gweld yn rheolaidd nad ydynt wedi'u rhestru yn Atodiad I</p> <p>Pioden y Môr <i>Haematopus ostralegus</i></p> <p>Gylfinir <i>Numenius arquata</i></p> <p>Gwyach Fawr Gopog <i>Podiceps cristatus</i></p>	<p>Effeithiau andwyol gan Sŵn/aflonyddwch gweledol i nodweddion rhywogaethau adar yn sgil cynnal a chadw i asedau rheoli risg llifogydd ac erydu arfordirol (1.4).</p>	<p>Ystyrir y gall y bygythiad o aflonyddwch i nodweddion rhywogaethau, o bosib, danseilio amcanion cadwraeth y safle ar gyfer pob nodwedd Atodiad I ac Atodiad II a restrwyd, ac felly caiff ei gynnwys fel effaith arwyddocaol debygol.</p>

<p>ACA Y Fenai a Bae Conwy</p> <p>Mae'r amodau ffisiograffig unigryw a geir o fewn ACA Afon Menai a Bae Conwy yn gwneud y safle hwn yn un anarferol, sydd wedi'i gydnabod ers amser fel safle pwysig ar gyfer bywyd gwyllt morwrol. Mae'r amrywiaeth mewn amodau ffisegol ac amgylcheddol drwy'r safle, gan gynnwys mathau o garreg a gwaddodion, agwedd, claerder y dŵr ac amlygiad i gerrynt y llanw a symudiad y tonnau yn arwain at ystod eang o gynefinoedd a chymunedau morwrol cysylltiedig. Mae nifer o'r mathau hyn o gymunedau yn anarferol i Gymru. Mae'r continwwm o amodau amgylcheddol a ffisegol o ddiddordeb arbennig, ynghyd â'r cymunedau morol cysylltiedig o'r dŵr cul, sy'n profi'r llanw ond nid gymaint y tonnau yn y Fenai i ddyfroedd mwy agored Bae Conwy a Phen y Gogarth a'r Gogarth Fach sy'n gymharol agored i'r tonnau. Mae ACA Y Fenai a Bae Conwy yn safle o fwy nag un diddordeb sydd wedi'i ddewis oherwydd presenoldeb pum math o gynefin morwrol a bywyd gwyllt cysylltiedig (mathau o gynefin Atodiad I y Gyfarwyddeb Cynefinoedd).</p> <p>Ar gyfer y cynefinoedd cymhwysol, ystyrir yr ACA fel un o'r ardaloedd gorau yn y DU ar gyfer; Traethellau llaid a thywod nad ydynt yn cael eu gorchuddio gan ddŵr môr pan fo'r llanw'n isel, Riffiau,</p>	<p>Cynefinoedd Atodiad I</p> <p>Traethellau y mae dŵr môr yn eu gorchuddio rhywfaint drwy'r adeg</p> <p>Traethellau llaid a thywod nad ydynt yn cael eu gorchuddio gan ddŵr môr pan fo'r llanw'n isel</p> <p>Riffiau</p> <p>Cilfachau a baeau mawr a bas</p> <p>Ogofau môr dan ddŵr neu'n rhannol dan ddŵr</p>	<p>Gall cynnal a chadw i asedau rheoli risg llifogydd ac erydu arfordirol (1.4), gwaith sy'n ymwneud â'r rhaglen adeiladu FCERM (1.2) neu weithrediadau SuDS/NFM (3.3) achosi effeithiau andwyol oherwydd colledion posib o gynefinoedd.</p> <p>Effaith andwyol ar ansawdd dŵr y môr oherwydd unrhyw waith cynnal a chadw ar asedau rheoli risg llifogydd ac erydu arfordirol.</p>	<p>Ystyrir y gall y bygythiad o golledion cynefin posib a dirywiad ansawdd dŵr danseilio amcanion cadwraeth y safle ar gyfer pob nodwedd Atodiad I ac Atodiad II a restrwyd, ac felly caiff ei gynnwys fel effaith arwyddocaol debygol.</p>
---	---	--	---

<p>Traethellau y mae dŵr môr yn gorchuddio rhywfaint ohonynt drwy'r adeg.</p> <p>Bregusrwydd: Gall adeiladu (e.e. llithrfeydd, amddiffynfeydd arfordirol a marinas/harbyrau) achosi aflonyddwch i'r cynefinoedd Ewropeaidd ac amharu ar brosesau ffisegol hanfodol ar gyfer cynnal a chadw'r cynefinoedd hyn. Gall yr effeithiau posib o offer trwm i bysgota pysgod ar y gwaelod ar y banc tywod islanwol a chynefinoedd cilfachau a baeau mawr a bas fod yn niweidiol. Gall gwaredu'r deunydd wedi'i garthu fod yn negyddol. Mae cymunedau morwrol yn yr ACA yn sensitif i lygredd olew.</p>			
--	--	--	--

4.0 ASESU TEBYGOLRWYDD EFFEITHIAU CYFUNOL

4.1 Effeithiau Posibl Ar y Cyd â Chynlluniau Perthnasol Eraill

Yn ogystal ag ystyried effeithiau arwyddocaol tebygol y GLFRMS yn unigol, mae'r Rheoliadau Cynfinoedd yn gofyn am benderfyniad ynglŷn â fyddai cynllun/prosiect ag effeithiau sylweddol ar y cyd â chynlluniau a phrosiectau eraill. Yn yr adran hon rydym yn ystyried pa gynlluniau sydd â'r potensial i weithredu ar y cyd â'r GLFRMS.

O ystyried yr ystod eang o gynlluniau a phrosiectau a allai effeithio ar safleoedd Ewropeaidd yn ardal y GLFRMS a'r diffyg gwybodaeth benodol am y cynllun yn y GLFRMS, cymerwyd ymagwedd bragmatig tuag at yr asesiad cyfunol. Felly, i sicrhau ei fod yn ystyried y materion mwyaf perthnasol, roedd yr asesiad ar y cyd yn canolbwyntio ar y cynlluniau a'r prosiectau hynny yr ystyriwyd oedd â'r gallu i ryngweithio yn sylweddol gyda'r GLFRMS o safbwynt derbynnyddion bioamrywiaeth h.y. nodweddion safleoedd Ewropeaidd. Yn ystod y cam asesu priodol, byddwn yn ystyried yn fanylach effeithiau cyfunol gweithrediadau'r GLFRMS sydd wedi eu cwmpasu â'u cynnwys.

Mae Tabl 7 yn cyflwyno manylion y cynlluniau perthnasol a allai gael effeithiau cyfunol gyda'r GLFRMS. Ystyriir mai'r cynlluniau hyn yw'r rhai mwyaf perthnasol i'r GLFRMS gan eu bod yn ymdrin yn bennaf â rheoli adnoddau dyfrol. Ystyriwyd Cynlluniau Datblygu Lleol Gwynedd ac Ynys Môn a Chynllun Lleol Eryri gan eu bod yn gynlluniau datblygu ar raddfa fawr sy'n cwmpasu Gwynedd gyfan ac yn nodi'r fframwaith eang ar gyfer cynllunio a datblygu. Yn ogystal, ystyriwyd bod Cynllun Rheoli Adnoddau Dŵr Cymru yn berthnasol gan ei fod yn cynnwys y cynlluniau adnoddau dŵr ar gyfer dalgylchoedd yng Ngwynedd, sydd â'r potensial i weithredu ar y cyd â'r GLFRMS.

Tabl 7: Cynlluniau a allai weithredu ar y cyd â'r GLFRMS.

Enw'r Cynllun	Perchennog / Awdur	Manylion y Ddogfen
Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd ac Ynys Môn (CDLI) 2011-2026	Cyngor Sir Ynys Môn a Chyngor Gwynedd	Mae Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd ac Ynys Môn yn nodi'r strategaeth ar gyfer datblygu a defnyddio tir yn Ynys Môn a Gwynedd am y cyfnod 2011 - 2026. Mae'n nodi polisiâu i weithredu'r strategaeth ac yn darparu arweiniad ar leoliad tai newydd, cyfleoedd cyflogaeth a chyfleusterau hamdden a chymunedol.
Cynllun Datblygu Lleol Eryri (CDLI) 2016 - 2031	Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri	Mae'r ddogfen hon yn nodi'r fframwaith gynllunio defnydd tir 15 mlynedd ar gyfer Parc Cenedlaethol Eryri. Mae'r Cynllun Datblygu Lleol yn cynnwys polisiâu strategol a pholisiâu datblygu fydd yn cyflawni'r weledigaeth ofodol hirdymor ar gyfer dyfodol Parc Cenedlaethol Eryri.
Cynlluniau Rheoli Ardaloedd Basn Afon Dyfrdwy a Gorllewin Cymru 2021 - 2027	Cyfoeth Naturiol Cymru (2022)	Mae cynlluniau rheoli basn afon yn darparu fframwaith gyffredinol ar gyfer rheoli dŵr, gan helpu i ddiogelu a gwella ein hamgylchedd dŵr. Mae ein hafonydd, llynnoedd, gwlyptiroedd, dyfroedd daear, aberoedd a dyfroedd arfordirol - gan gynnwys y rhai mewn

		ardaloedd gwarchoddedig - i gyd yn dod o dan y cynlluniau hyn.
Cynllun Rheoli Traethlin Gorllewin Cymru (SMP2)	Grŵp Arfordirol Gorllewin Cymru (Royal Haskoning, 2012)	Cynllun Rheoli Traethlin Gorllewin Cymru yw'r cynllun strategol rhanbarthol sy'n nodi'r blaenoriaethau a'r cyfeiriad strategol i reoli risg llifogydd ac erydu arfordirol. Mae gan SMPs fframwaith daearyddol wedi'i nodi yn ôl ardal yr arfordir a elwir yn is-gell o fewn cell gwaddod littoral (hyd yr arfordir sy'n gymharol hunangynhwysol o ran symudiad y gwaddod). Mae polisi wedi ei aseinio i bob is-gell i gyfarwyddo gweithgareddau FRM o amgylch yr arfordir.
Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru (WNMP)	Llywodraeth Cymru (2019)	Yn gweithredu gofynion Deddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009 sy'n nodi fframwaith ar gyfer system o gynllunio morol, gan ddarparu'r cyd-destun polisi lefel uchel i ddatblygu ardal morol Cymru yn gynaliadwy, gan gefnogi'r weledigaeth o gefnforoedd a moroedd glân, iach, diogel, cynhyrchiol ac amrywiol yn fiolegol. Mabwysiadwyd y Cynllun ym mis Tachwedd 2019. Mae'n gosod y fframwaith cynllunio sy'n rhaid i ymgeiswyr ac awdurdodau cyhoeddus ei ddefnyddio wrth ymgeisio am ganiatâd cynllunio ac wrth ddod i benderfyniadau ar gynigion a cheisiadau trwyddedu.
Cynllun Rheoli Risg Llifogydd (FRMP) ar gyfer Cymru	Cyfoeth Naturiol Cymru (dan adolygiad)	Mae'r FRMPau yn ddull cynllunio lefel uchel sy'n nodi amcanion ar gyfer rheoli perygl llifogydd ar draws dalgylch ac aber pob afon. Fe'i mabwysiadwyd yn 2015 gan CNC ac Asiantaeth yr Amgylchedd ar gyfer tair prif ddalgylch yng Nghymru (CNC arweiniodd ar FRMP Gorllewin Cymru a FRMP afon Dyfrdwy gyda Asiantaeth yr Amgylchedd yn arwain ar FRMP afon Hafren). Maent yn ystyried perygl llifogydd mewndirol o afonydd, dŵr wyneb, dŵr daear a llifogydd llanw ac fe'i cynlluniwyd i osod cyfeiriad cyffredinol i reoli perygl llifogydd ar sail dalgylch. Maent yn nodi polisiau rheoli perygl llifogydd eang sy'n ymarferol yn economaidd, sydd ag oes posibl o 50 i 100 mlynedd, a byddant yn helpu CNC i weithio gydag eraill i'w rhoi ar waith. Mae'r FRMPau yn cael eu hadolygu ar hyn o bryd.
Cynllun Rheoli Adnoddau Dŵr	Dŵr Cymru / Welsh Water (2023)	Ysgrifennir y Cynlluniau hyn yn bennaf mewn ymateb i Ddeddf Dŵr (2003); er bod llawer o

		<p>ddogfennau rheoleiddio eraill yn gysylltiedig â'r cynlluniau (e.e. Strategaeth Dŵr Cymru 2015, Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, Deddf Amgylchedd (Cymru) 2016, a'r rhai cyfatebol yn Lloegr). Cyhoeddir y cynlluniau hyn bob pum mlynedd i ddelio â'r cyflenwad dŵr a'r pwysau o ran y galw a nodwyd ar draws yr Ardaloedd Basn Afon, gan edrych ar yr heriau dros y 25 mlynedd nesaf o leiaf.</p> <p>Mae Dŵr Cymru / Welsh Water (DCWW) wedi paratoi ei WRMP (WRMP24) ar gyfer y cyfnod 2025 - 2050. Mae'r WRMP yn nodi hoff opsiynau rheoli adnoddau a'r opsiynau rheoli galw ('yr opsiynau a ffafrir') i fodloni y diffygion a ragwelir yn y dŵr sydd ar gael i'r Cyflenwad Dŵr Cyhoeddus, ac i sicrhau diogelwch y cyflenwad.</p>
--	--	---

5.0 BARN SGRINIO FFURFIOL

Mae'r cynllun wedi cael ei sgrinio yn unol â'r gweithdrefnau statudol a nodir yn Rheoliadau Cynefinoedd 2017 (fel y'i diwygiwyd) gan ddefnyddio'r fethodoleg a amlinellir yn y Llawlyfr Aseu Rheoliadau Cynefinoedd.

Daeth yr ymarfer sgrinio i'r casgliad na ellid diystyru effeithiau sylweddol tebygol (LSE) ar gyfer cyfanswm o 18 ACA, 4 AGA a 3 safle Ramsar, oherwydd y rhesymau a amlinellwyd yn Nhabl 6 uchod. Felly, mae angen asesiad priodol ar gyfer yr effeithiau sylweddol tebygol hyn.

6.0 ASESIAD PRIODOL

6.1 Pwrpas

Lle fo cynllun yn debygol o gael effaith sylweddol, mae'r egwyddor ragofalus yn pwysleisio y gellir ond cymeradwyo os gall yr awdurdod cymwys sicrhau na fydd y cynllun yn effeithio'n andwyol ar gyfanrwydd y safle Ewropeaidd, yn dilyn asesiad priodol. Dyma ddiben y cam asesu priodol.

Yn unol â'r dyfarniad 'Pobl dros Wynt' mae'r asesiad priodol yn ystyried unrhyw fesurau lliniaru corfforedig sy'n ddigonol i gael gwared ar yr effaith sylweddol debygol. I'r gwrthwyneb, os nad yw mesurau lliniaru yn cael eu cynnig, neu eu bod yn profi yn annigonol, gall yr awdurdod cymwys eu gosod trwy amodau neu ddulliau cynllunio eraill.

Mae'r rôl lliniaru yn wahanol i rôl iawndal. Nod mesurau lliniaru yw osgoi, dileu neu leihau effeithiau sylweddol ar safleoedd Ewropeaidd, tra bod iawndal ond yn cael ei ystyried o dan y rhanddirymidiadau yn ystod camau diweddarach yr HRA, os oes angen.

Mae llawlyfr yr HRA yn amlinellu'r diffiniad o gyfanrwydd mewn polisi cynllunio cyfoes ac yn datgan er mwyn i sefydliad sy'n rhoi caniatâd ddod i'r casgliad nad oes unrhyw effaith andwyol, yna dylent gael eu 'argyhoeddi' nad oes unrhyw amheuaeth wyddonol resymol yn parhau. Fel y diffinnir gan CJEU (Sweetman) a'r Comisiwn Economaidd, mae cyfanrwydd y safle yn ymwneud â 'chadwraeth barhaol nodweddion cyfansoddol y safle'. Ar gyfer diffiniadau pellach gweler Adran 1.5 uchod.

6.2 Dull

Mae tebygolrwydd ac arwyddocâd effeithiau'r cynllun wedi'u nodi yn rhannau cynharach yr HRA hwn. Mae'r Asesiad Priodol (AA) yn ystyried a fydd effeithiau andwyol ar gyfanrwydd y safle yn digwydd ar gyfer yr amcanion / camau gweithredu sydd heb eu sgrinio. Aethpwyd â'r amcanion / camau gweithredu hyn ymlaen i'r Asesiad Priodol oherwydd ansicrwydd ynghylch graddfa/lleoliad/maint yr effeithiau sylweddol gan na allem ddod i'r casgliad nad oeddent yn debygol o ddigwydd. Mae llwybrau credadwy ar gyfer yr effeithiau a fedrai ddigwydd, ond ar y lefel yma o'r cynllun nid yw'r manylion ar gael i ni fedru dweud ble, sut neu pryd y gallai'r effeithiau ddigwydd. O ganlyniad, amlinellir y mesurau osgoi a lliniaru sy'n rhoi hyder y bydd unrhyw effaithiau andwyol ar safleoedd Ewropeaidd yn cael eu hosgoi neu eu lliniaru yn ddigonol.

Mae gan bob un o'r amcanion / camau gweithredu sydd wedi'u sgrinio, y potensial i arwain at waith ffisgeol, felly mae angen i'r HRA sefydlu nad oes unrhyw ganlyniadau anfwriadol o weithredu'r GLFRMS ar y Safleoedd Ewropeaidd a nodwyd.

Fe wnaeth cam sgrinio'r HRA nodi pa safleoedd Ewropeaidd yn ardal y cynllun a'r cyffiniau y dylid eu hystyried yn fanylach fel rhan o'r Asesiad Priodol. Nododd y cam sgrinio hefyd Amcanion a Chamau Gweithredu'r GLFRMS a allai effeithio ar gyfanrwydd y safleoedd Ewropeaidd a nodwyd. Mae'r safleoedd a'r amcanion a ddangosir ar gyfer Asesiad Priodol wedi'u rhestru yn Nhabl 8 isod.

Tabl 8: Safleoedd Ewropeaidd ac Amcanion / Camau Gweithredu GLFRMS wedi eu sgrinio ar gyfer Asesiad Priodol.

Safleoedd Ewropeaidd wedi eu sgrinio ar gyfer Asesiad Priodol:
Safle Ewropeaidd
AGA Aber Dyfi
ACA Afon Dyfrdwy a Llyn Tegid
ACA Afon Eden - Cors Goch Trawsfynydd.
ACA Afon Gwyrfai a Llyn Cwellyn
AGA y Berwyn

ACA Mynyddoedd y Berwyn a De Clwyd
ACA Cader Idris
ACA Clogwyni Pen Llŷn
ACA Coedydd Aber
ACA Coedydd Derw a Safleoedd Ystlumod Meirion
Ramsar Cors Fochno a Dyfi
ACA Corsydd Eifionydd
ACA Corsydd Llŷn
Ramsar Corsydd Ynys Môn a Llŷn
ACA Eryri
ACA Glynllifon
ACA Gorllewin Cymru Forol
Ramsar Llyn Tegid
ACA Migneint-Arenig-Dduallt
AGA Migneint-Arenig-Dduallt
ACA Morfa Harlech a Morfa Dyffryn
ACA Pen Llŷn a'r Sarnau
ACA Rhinog
AGA Traeth Lafan
ACA Y Fenai a Bae Conwy
Amcanion / Camau Gweithredu GLFRMS sy'n cael eu sgrinio mewn i Asesiad Priodol:
Amcan 1: Anelu i leihau lefel y perygl o lifogydd ac erydu arfordirol i drigolion Gwynedd.
<i>Cam Gweithredu 1.2 Gwelliannau rheoli risg llifogydd ac erydu arfordirol:</i>
<i>Cam Gweithredu 1.2A - Paratoi rhestr flynyddol o gynlluniau o'r cynllun gweithredu hirdymor i leihau perygl llifogydd ac erydiad arfordirol i'w cyflwyno i'w cynnwys yn rhaglen gyfalaf LIC.</i>
<i>Cam Gweithredu 1.4 Cynnal a chadw a defnyddio asedau rheoli perygl llifogydd/erydu arfordirol:</i>
<i>Cam Gweithredu 1.4A - Paratoi a chyflawni rhaglen mân waith (refeniw) yn seiliedig ar gasgliadau asesiad cyflwr asedau i gynnal a chadw safon yr amddiffyniad y mae asedau perygl llifogydd/erydu arfordirol yn ei gynnig.</i>
Amcan 3: Parhau i weithio gyda'r holl gyrff perthnasol i sicrhau datblygiad priodol a chynaliadwy yng Ngwynedd
<i>Cam Gweithredu 3.3. Systemau Draenio Cynaliadwy (SuDS) a Rheoli Risg Llifogydd Naturiol (NFM):</i>
<i>Cam Gweithredu 3.3A - Nodi cyfleoedd ar gyfer gweithredu cynlluniau SuDS ac NFM mewn ardaloedd sy'n cyflawni buddion risg llifogydd ystyrion yn ogystal â buddion amgylcheddol a mwynderol eraill.</i>

Oherwydd lefel uchel y cynllun, mae anawsterau ac ansicrwydd cynhenid wrth gynnal Asesiad Priodol (AA) ar y raddfa hon. Fodd bynnag, rhaid asesu effeithiau andwyol ar gyfanrwydd safleoedd Ewropeaidd cyn belled ag y bo modd gan ddefnyddio'r manylion sydd ar gael sy'n gysylltiedig â'r camau sgrinio.

Rhaid i'r AA hwn wedyn lywio datblygiad y camau gweithredu hyn, gyda chynllun haen is, rhaglen a lefel y prosiect HRA yn cynyddu mewn penodoldeb yn y camau dilynol.

Yn yr AA hwn, ein nod yw darparu mesurau lliniaru lefel uchel i osgoi neu leihau unrhyw effeithiau posibl sy'n gysylltiedig â datblygu a chyflawni'r amcanion / camau gweithredu sydd wedi'u sgrinio. Disgrifir y rhain yn adran 6.4 ac maent yn rhoi hyder i ni y gellir datblygu a chyflawni cynlluniau, rhaglenni a phrosiectau haen is heb achosi effaith andwyol ar gyfanrwydd y safle i unrhyw safleoedd Ewropeaidd. Ni fwriedir i'r lliniaru fod yn gynhwysfawr, ac mae'n debygol iawn y bydd effeithiau eraill ac felly mesurau lliniaru eraill y bydd eu hangen nad yw'n bosibl eu nodi ar lefel y cynllun oherwydd nad yw'r natur, amseru, hyd, graddfa neu leoliad yn hysbys eto. Mae'r manylion hyn wedi eu gohirio i'r HRA o gynlluniau, rhaglenni a phrosiectau haen is.

6.3 Asesu effeithiau Amcanion/Camau Gweithredu GLFRMS

Tabl 9: Asesiad o Gamau Gweithredu GLFRMS gyda'r effeithiau tebygol posibl ar Safleoedd Ewropeaidd

Camau Gweithredu GLFRMS	Effeithiau allweddol
<p>1.2 Gwelliannau rheoli risg llifogydd ac erydu arfordirol:</p> <p>Cam Gweithredu 1.2A - Paratoi rhestr flynyddol o gynlluniau o'r cynllun gweithredu hirdymor i leihau perygl llifogydd ac erydiad arfordirol i gael eu cyflwyno i'w cynnwys yn rhaglen gyfalaf LIC. Bydd ein rhaglenni gwaith (mewndirol ac arfordirol) yn ffurfio sail i'n cyflwyniad blynyddol o astudiaethau a chynlluniau i'w cynnwys ar raglenni FCEM cenedlaethol a thrwy hynny sicrhau cefnogaeth ariannol gan Lywodraeth Cymru.</p>	<p>Colli cynefinoedd, difrod neu ddarnio</p> <p>Aflonyddwch i nodweddion rhywogaethau</p> <p>Allyriadau i aer (llwch, allyriadau cerbydau)</p> <p>Diraddiad ansawdd dŵr</p> <p>Bioddiogelwch</p>
<p>Asesiad</p> <p>Mae'r cam gweithredu GLFRMS yma yn debygol o arwain at weithredu cynlluniau a fydd yn cynnwys gwaith ffisgeol mewn safleoedd y nodwyd eu bod mewn perygl o lifogydd ac erydu arfordirol. Nid yw'n hysbys p'un a fydd camau ffisegol yn digwydd, ac nid yw maint neu leoliad y gweithredoedd ffisegol yn hysbys.</p> <p>Gallai gwaith ffisegol o'r fath effeithio ar nodweddion cynefinoedd Safleoedd Ewropeaidd a nodwyd oherwydd ddifrod ffisegol a achoswyd gan weithgareddau adeiladu (tynnu coed / llystyfiant, difrod i welyau afonydd oherwydd gwaith mewn afonydd ac ati). Gall newidiadau ffisegol a achosir gan waith o'r fath hefyd effeithio ar nodweddion cynefinoedd yn yr hirdymor trwy newidiadau mewn prosesau ffisegol, neu newid mewn lefelau dŵr (megis newidiadau mewn symudiadau gwaddodion ar yr arfordir oherwydd amddiffynfeydd arfordirol, neu newidiadau i gyfundrefnau draenio sy'n effeithio ar ardaloedd gwlyptir mewndirol). Mae gwasgfa arfordirol hefyd yn ffactor sydd angen ei ystyried wrth ddatblygu amddiffynfeydd arfordirol, a allai gael effaith ar nodweddion cynefin y safleoedd hynny sydd wedi'u lleoli ar yr arfordir ac o fewn amgylchedd morol. Gan nad yw lleoliad a maint unrhyw gynlluniau posibl yn hysbys eto, ystyrir y gallai'r camau hyn effeithio ar amcanion cadwraeth yr holl safleoedd Ewropeaidd a nodwyd yn Nhabl 8 uchod.</p> <p>Gallai unrhyw waith adeiladu hefyd effeithio ar nodweddion rhywogaethau'r safleoedd Ewropeaidd a nodwyd. Mae llawer o nodweddion rhywogaethau yn sensitif i aflonyddwch, megis trwy sŵn, golau neu</p>	

ddirgryniad. Gallai aflonyddwch o'r fath ddisodli nodweddion rhywogaethau o ardaloedd pori pwysig neu lwybrau cymudo, gan gael effaith ar boblogaethau lleol. Gallai hyn effeithio ar amcanion cadwraeth yr holl safleoedd a nodwyd sydd â nodweddion rhywogaethau, (megis ACA afon Gwyrfaï a Llyn Cwellyn sydd â dyfrgwn fel nodwedd rhywogaethau cymwys, rhywogaeth sy'n sensitif i aflonyddwch dynol).

Yn yr un modd, gallai gweithredu cynlluniau yn yr amgylchedd dyfrol greu rhwystrau o bosibl i lwybrau cymudo/mudol mewn dalgylchoedd. Gallai hyn effeithio ar rywogaethau fel Eog yr Iwerydd (Nodwedd rhywogaeth o ACA afon Eden – Cors Goch Trawsfynydd, ac ACA afon Dyfrdwy a Llyn Tegid) sy'n mudo i fyny dalgylchoedd afonydd i silio.

Mae perygl y bydd gwaith ffisegol yn arwain at allyriadau i aer yn ystod gwaith adeiladu, naill ai drwy allyriadau llwch, neu allyriadau o gerbydau/peiriannau a ddefnyddir yn ystod y gwaith adeiladu. Bydd graddfa a natur prosiectau yn pennu lefel bosibl y risg o allyriadau i aer sy'n effeithio ar safleoedd Ewropeaidd, ac nid yw hyn yn hysbys ar hyn o bryd. Heb weithredu arfer gorau safonol, ni ellir diystyru effeithiau ar amcanion cadwraeth safleoedd Ewropeaidd.

Mae defnyddio cyfarpar a pheiriannau yn ystod gwaith adeiladu yn peri risg o lygredd trwy ollwng damweiniol o gerbydau neu fannau storio. Mae gan aflonyddwch tir, gwaith daear a gwaith yn yr afon hefyd y potensial i achosi silt i ffoi sy'n gallu llygru'r amgylchedd dŵr. Mae gan ddigwyddiadau o'r fath y potensial i achosi diraddio ansawdd dŵr, a all arwain at effeithiau ar safleoedd Ewropeaidd fel diraddio cynefinoedd, dadleoli nodweddion rhywogaethau, lleihau argaeledd ysglyfaeth i nodweddion rhywogaethau, tagu gwelyau silio, ac ati. Mae gan hyn y potensial i effeithio ar amcanion cadwraeth yr holl safleoedd Ewropeaidd a nodwyd sydd â nodweddion dŵr/gwlyptir, a nodweddion rhywogaethau sy'n dibynnu ar gynefinoedd o'r fath.

Mae gweithio gydag offer adeiladu o fewn, a mewnforio deunydd i, gyrsiau dŵr yn peri risg o gyflwyno Rhywogaethau Anffrodorol Ymledol (INNS) i ardal, neu ledaenu afiechydon / pathogenau. Gallai hyn effeithio ar yr amcanion cadwraeth ar gyfer safleoedd Ewropeaidd.

Camau Gweithredu GLFRMS	Effeithiau allweddol
<p>1.4 Cynnal a chadw a defnyddio asedau rheoli perygl llifogydd/erydu arfordirol</p> <p>Cam Gweithredu 1.4A - Paratoi a chyflawni rhaglen mân waith (refeniw) yn seiliedig ar gasgliadau asesiad cyflwr asedau i gynnal a chadw safon yr amddiffyniad y mae asedau perygl llifogydd/erydu arfordirol yn ei gynnig. Ar ôl cwblhau ein rhaglen archwilio asedau bydd y Cyngor yn llunio rhaglen yn seiliedig ar risg i gynnal a chadw mân waith i sicrhau bod cyflwr yr ased yn cael ei gynnal ac nad yw safon yr amddiffyniad dan fygythiad. Bydd unrhyw waith na ellir ei gyflawni'n defnyddio cyllideb refeniw benodol y Cyngor ar gyfer unrhyw flwyddyn benodol yn cael ei gynnwys ar raglen waith gyfalaf.</p>	<p>Colli cynefinoedd, difrod neu ddarnio</p> <p>Aflonyddwch i nodweddion rhywogaethau</p> <p>Allyriadau i aer (llwch, allyriadau cerbydau)</p> <p>Diraddiad ansawdd dŵr</p> <p>Bioddiogelwch</p>
<p>Asesiad</p>	
<p>Mae'r cam gweithredu GLFRMS yma yn debygol o arwain at weithredu rhaglenni cynnal a chadw a chynlluniau mân waith, fydd yn cynnwys gwaith ffisegol mewn safleoedd lle mae gan y Cyngor asedau</p>	

rhag perygl llifogydd / amddiffyn arfordirol. P'un a fydd camau ffisegol yn digwydd, nid yw maint na lleoliad y camau gweithredu ffisegol yn hysbys. Gallai ymgymryd â gwaith ffisegol effeithio ar nodweddion cynefinoedd a rhywogaethau safleoedd Ewropeaidd trwy gollu cynefinoedd, difrod neu ddarnio, tarfu ar nodweddion rhywogaethau, allyriadau i aer, diraddio ansawdd dŵr, neu fioldiogelwch. Mae'r asesiad o effeithiau posibl ar safleoedd Ewropeaidd a nodwyd yr un fath ag a nodir ar gyfer 1.2 uchod.

Camau Gweithredu GLFRMS	Effeithiau allweddol
<p>3.3 Systemau Draenio Cynaliadwy (SuDS) a Rheoli Risg Llifogydd Naturiol (NFM):</p> <p>Cam Gweithredu 3.3A - Nodi cyfleoedd ar gyfer gweithredu cynlluniau SuDS ac NFM mewn ardaloedd sy'n cyflawni buddion perygl llifogydd ystyrlon yn ogystal â buddion amgylcheddol a mwynderol eraill.</p> <p>Mae SuDS yn systemau draenio sy'n cael eu hystyried yn fuddiol i'r amgylchedd, gan achosi niwed minimal neu ddim niwed andwyol yn yr hirdymor. Maent yn aml yn cael eu hystyried fel dilyniant o arferion rheoli, strwythurau a strategaethau rheoli wedi'u dylunio i ddraenio dŵr wyneb yn effeithiol ac yn gynaliadwy, wrth leihau llygredd a rheoli'r effaith ar ansawdd dŵr cyrff dŵr lleol.</p> <p>Mae NFM yn cynnwys gweithio gyda natur i leihau perygl llifogydd mewn cymunedau. Mae'n defnyddio amryw o dechnegau i adfer neu ddynewared swyddogaethau naturiol afonydd, gorlifdiroedd a dalgylchoedd ehangach. Y bwriad yw storio dŵr yn y dalgylch ac arafu'r gyfradd y mae dŵr yn rhedeg i afonydd, i helpu lleihau llifogydd i lawr yr afon.</p> <p>Blaenoriaeth allweddol y Strategaeth Genedlaethol yw cyflawni mwy o gynlluniau fel hyn, a chan gadw hyn mewn cof bydd Cyngor Gwynedd yn nodi ardaloedd trefol ac uwchdir sy'n addas ar gyfer ymyraethau SuDS ac NFM, un ai fel prosiectau annibynnol neu fel rhan o gynlluniau rheoli perygl llifogydd ehangach.</p> <p>Cam Gweithredu 3.3B - Gweithio gydag awdurdodau partner a pherchnogion tir i gyflawni cynlluniau NFM fel rhan o raglen genedlaethol.</p> <p>Wrth i gyllid ddod ar gael ar gyfer cynlluniau NFM, bydd Cyngor Gwynedd yn nodi ac yn gweithio ar y cyd â pherchnogion tir a phartneriaid i gyflawni prosiectau llwyddiannus sy'n gwireddu'r holl fuddion posib sy'n gysylltiedig ag NFM.</p>	<p>Colli cynefinoedd, difrod neu ddarnio</p> <p>Aflonyddwch i nodweddion rhywogaethau</p> <p>Allyriadau i aer (llwch, allyriadau cerbydau)</p> <p>Diraddiad ansawdd dŵr</p> <p>Bioldiogelwch</p>

Asesiad

Bwriad natur yr amcan /cam gweithredu yma yw diogelu'r amgylchedd naturiol gan gynnwys bioamrywiaeth a gwella'r amgylchedd naturiol. Fodd bynnag, mae gwelliannau o'r fath yn dal i fod yn debygol o gynnwys rhywfaint o waith ffisegol er mwyn gweithredu'r nodweddion a'r gwelliannau gofynnol. Gallai hyn lywio'r gwaith ffisegol tuag at neu annog gwaith ffisegol mewn ardal sy'n cynnwys safle Ewropeaidd neu ardal lle gall gwaith ffisegol effeithio'n anuniongyrchol ar safle Ewropeaidd.

Fel y nodwyd yn 1.2 uchod, gallai'r gwaith ffisegol o weithredu cynlluniau SuDS neu NFM achosi colli cynefinoedd, difrod neu ddarnio os ydynt yn digwydd o fewn neu gerllaw safle Ewropeaidd a nodwyd.

Gall gwelliannau SuDS a NFM hefyd arwain at newidiadau ffisegol, megis newidiadau mewn lefelau dŵr, cyfundrefnau draenio ac ati, ac er y gall ymyriadau o'r fath gael effeithiau buddiol, ni ellir diystyru'r potensial am effeithiau andwyol hefyd, yn enwedig ar gyfer y safleoedd Ewropeaidd hynny sydd â nodweddion gwlyptir a nodweddion rhywogaethau sy'n dibynnu arnynt.

Gallai gweithredu cynlluniau o'r fath hefyd gael effeithiau aflonyddu yn ystod y gwaith adeiladu, gyda'r potensial i effeithio ar nodweddion rhywogaethau fel dyfrgwn, ystlumod ac adar, fel y trafodwyd o dan Gam Gweithredu 1.2 uchod. Mae angen ystyried y potensial i greu rhwystrau i lwybrau mudol neu gymudo yn anfwriadol hefyd wrth weithredu cynlluniau o'r fath.

Fel y trafodwyd o dan Gam Gweithredu 1.2 uchod, gallai gwella SuDS a NFM achosi effeithiau andwyol eraill yn ystod y gwaith adeiladu, megis allyriadau i aer, diraddio ansawdd dŵr oherwydd halogiad, a risgiau bioddiogelwch oherwydd symudiad offer a deunyddiau.

6.4. Mesurau Lliniaru

Mae ansicrwydd cynhenid wrth gynnal Asesiad Priodol ar gyfer cynlluniau lefel uwch. Mae absenoldeb cyd-destun gofodol yn golygu na ellir nodi lleoliadau ac effeithiau cynlluniau a phrosiectau haen is sy'n codi o ganlyniad i fabwysiadu'r cynllun hwn bob amser ar hyn o bryd. O ganlyniad, ni fu'n bosibl rhoi ystyriaeth fanwl i effaith y mesurau ar safleoedd Ewropeaidd penodol.

Nid yw datblygu cynigion lliniaru safle neu brosiectau penodol yn bosibl nac yn briodol ar y lefel hon ac yn lle hynny cynigir egwyddorion lliniaru generig. Dylid ystyried y rhain wrth gynnal HRAs ar gynlluniau neu brosiectau lefel is.

Dylid nodi y gall rhai mesurau yn y cynllun ddiogelu a/neu wella Safleoedd Ewropeaidd. Mae'r cynllun yn darparu cyfleoedd i wella'r amgylchedd gan leihau perygl llifogydd ar yr un pryd.

Nod creiddiol y Gyfarwydddeb Cynefinoedd yw cefnogi cynnal a chadw a hyrwyddo bioamrywiaeth. Mae'r Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd yn darparu'r offeryn y gall cynllunwyr ei ddefnyddio i sicrhau eu bod yn bodloni ymrwymadau a gofynion cyfreithiol deddfwriaeth Ewropeaidd a Chenedlaethol.

Lle nodwyd effeithiau andwyol, mae'n briodol yn gyntaf ystyried opsiwn osgoi lle mae'r strategaeth, y cynllun neu'r prosiect yn cael ei adael am opsiwn o wneud dim. Mae llawer o'r amcanion a'r mesurau a nodir yn y strategaeth hon wedi'u datblygu o ganlyniad i bolisiau lefel uwch fel Deddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010 a dogfennau strategaeth lefel uwch megis Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol yng Nghymru (Llywodraeth Cymru). Felly nid yw bob amser yn bosibl mabwysiadu dull osgoi gan fod gofyn i Gyngor Gwynedd gynhyrchu LFRMS sy'n cefnogi nodau ac amcanion cyffredinol y Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr.

Y cam nesaf yw ystyried ac asesu opsiynau. Mae gan weithredu'r GLFRMS y potensial i arwain at ystod eang o atebion, cynlluniau a phrosiectau amgen posibl. Ar hyn o bryd, nid yw'n ymarferol cynnal asesiad ar gyfer pob dewis arall posibl.

Nid yw'n bosibl ar y lefel uwch hon i ddarparu cynigion penodol i liniaru effeithiau'r strategaeth gan y bydd y rhain yn dibynnu ar pryd a ble y cânt eu gweithredu. Bydd mesurau lliniaru yn dibynnu ar amcanion cadwraeth Safleoedd Dynodedig Ewropeaidd a'r math o effaith y bydd y mesur neu'r amcan yn ei gael. Felly, dylid ystyried yr AA hwn yn rhagofalus a bydd HRAs pellach yn cael eu cynnal wrth i gynlluniau mwy manwl ddod ar gael. Yn y HRAs hyn, gellir archwilio mesurau lliniaru manwl. Felly darparwyd mesurau lliniaru generig ac mae'n hanfodol bod y rhain wedi'u teilwra i'r effeithiau sy'n codi o gynlluniau neu brosiectau lefel is (gweler Tabl 10 isod).

Mae lliniaru hefyd yn cael ei ragnodi'n effeithiol trwy amcanion a gynhwysir yn y strategaeth ei hun, fel y rhestrir isod. Bydd mesurau amgen ar gyfer adeiladu amddiffynfeydd llifogydd fel Rheoli Llifogydd yn Naturiol a Systemau Draenio Cynaliadwy (SuDS) yn cael eu hystyried a'u hyrwyddo drwy'r Strategaeth Leol; mae'r mesurau hyn hefyd yn debygol o leihau effeithiau niweidiol ar Safleoedd Dynodedig Ewropeaidd.

Mae'r mesurau lliniaru a ragnodir drwy amcanion y strategaeth yn cynnwys:

Amcan 1 - Cam Gweithredu 1.2A:

Yn ogystal â lleihau peryglon llifogydd ac arfordirol, bydd pob cynllun yn cael ei ddatblygu gyda'r nod o uchafu buddion amgylcheddol ac economaidd-gymdeithasol ar gyfer ardaloedd yr astudiaeth. Bydd hyn yn cynnwys lleihau unrhyw effeithiau andwyol ar safleoedd ecolegol dynodedig fydd yn cael ei yrru gan brosesu EIA a HRA.

Amcan 1 - Cam Gweithredu 1.3A:

Bydd y cofnod o asedau draenio yn cynnwys gwybodaeth am nodweddion amgylcheddol sensitif sy'n gysylltiedig â'r ased (os yw'n berthnasol), megis unrhyw ddynodiadau archeolegol a/neu fioamrywiaeth, fel y gellir ystyried y rhain os bydd unrhyw waith cynnal a chadw yn codi.

Amcan 3 - Cam Gweithredu 3.2A:

Mae Cyngor Gwynedd yn gwrthwynebu sianelu cyrsiau dŵr oherwydd yr effaith wael ecolegol, peryglon llifogydd, diogelwch dynol a'r effaith esthetig.

Bydd cyfleoedd i wneud gwelliannau amgylcheddol yn cael eu cynnwys mewn polisiau o'r fath lle bo hynny'n berthnasol, gan gynnwys defnydd rhagweithiol o isadeiledd gwyrdd, lleihau faint o silt sy'n ffoi ac adfer prosesau naturiol. Mae amcanion a mesurau WFD i'w cyflawni lle bo'n rhesymol i wneud hynny.

Amcan 3 - Cam Gweithredu 3.3A:

Bydd Cyngor Gwynedd yn adnabod ardaloedd trefol ac uwchdir sy'n addas ar gyfer ymyraethau SuDS ac NFM, un ai fel prosiectau annibynnol neu fel rhan o gynlluniau rheoli perygl llifogydd ehangach.

Amcan 3 - Cam Gweithredu 3.3B:

Wrth i gyllid ddod ar gael ar gyfer cynlluniau NFM, bydd Cyngor Gwynedd yn adnabod ac yn gweithio ar y cyd â pherchnogion tir a phartneriaid i gyflawni prosiectau llwyddiannus sy'n gwireddu'r holl fuddion posib sy'n gysylltiedig ag NFM.

Amcan 3 - Cam Gweithredu 3.3C:

Bydd Cyngor Gwynedd yn datblygu datganiad sefyllfa i sefydlu meini prawf dylunio ar gyfer mesurau NFM sy'n gofyn am ein caniatâd i osgoi unrhyw wrthdaro gyda'n gweithdrefnau caniatáu presennol. Bydd meini prawf o'r fath yn hyrwyddo opsiynau sy'n darparu mesurau gwella amgylcheddol.

Tabl 10: Mesurau Lliniaru Generig:

Mesurau Lliniaru Generig a gynigir i leihau neu osgoi effeithiau ar Safleoedd Ewropeaidd
<ul style="list-style-type: none">• Canllawiau Atal Llygredd i'w dilyn wrth ymgymryd â gwaith, gan gynnwys:<ul style="list-style-type: none">- Canllawiau ar gyfer Atal Llygredd GPP1 – Deall eich cyfrifoldebau amgylcheddol- GPP5 - Gwaith a chynnal a chadw mewn neu gerllaw dŵr- GPP6 - Gweithio ar safleoedd adeiladu a safleoedd dymchwel.• Mesurau priodol i reoli silt i'w defnyddio (megis trapiau silt, pyllau gwaddol) lle mae gweithgareddau'n debygol o darfu ar waddodion.• Monitro ansawdd dŵr i'w wneud yn ystod gwaith i sicrhau nad yw lefelau'n dirywio'n sylweddol.• Mae gwaith i'w amseru i osgoi'r cyfnodau mwyaf sensitif e.e. mudo pysgod a silio, gorffwys/bridio dyfrgwn, clwydo ystlumod, nythu adar, adar sy'n gaeafu a symudiad dyfrgwn.• Lleihau ôl troed y gwaith lle bo hynny'n bosibl, lle mae gwaith o fewn neu gerllaw i safleoedd Ewropeaidd.• Gwnewch yn siŵr bod llwybrau effaith yn cael eu deall yn dda a sicrhau y gellir cyflwyno mesurau lliniaru priodol a'u bod yn cael eu cynnwys mewn datganiadau dull lle nodir potensial ar gyfer effeithiau andwyol.• Gall nodweddion safleoedd Ewropeaidd gael eu heffeithio gan dynnu dŵr a'i ddal (e.e. creu pyllau), gan felly sicrhau bod effeithiau posibl wedi'u hystyried o fewn ardal y cynllun/prosiect a'r tu allan.• Dylid gwneud asesiad o risg bosibl o INNS; i'r cynefin a'r nodweddion ar y safle gweithiol, neu os oes unrhyw rai yn bresennol y gellid eu lledaenu mewn mannau eraill yn ddiweddarach.

6.5 Asesiad o'r effeithiau cyfunol

Mae'r Rheoliadau Cynefinoedd yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau cymwys gynnwys o fewn AA, asesiad o'r effeithiau ar safle Ewropeaidd ar y cyd â chynlluniau neu brosiectau eraill.

At ddibenion yr asesiad hwn, ac yn unol â natur lefel uchel y cynllun, dim ond cynlluniau lefel uchel allweddol perthnasol a allai arwain at effeithiau cyfunol sydd wedi'u hystyried. Ar y raddfa hon, nid yw'n bosibl darparu rhestr helaeth o'r holl gynlluniau a phrosiectau a allai arwain at effeithiau cyfunol ynghyd â'r GLFRMS. Fodd bynnag, bydd angen ystyried y rhain ymhellach lle mae angen AA mewn asesiadau haen is. Mae'r cynlluniau allweddol a ystyriwyd wedi eu crynhoi isod (fel y nodwyd yn adran 4.1).

- Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn (CDLI) 2011-2026
- Cynllun Datblygu Lleol Eryri (CDLI) 2016 - 2031
- Cynlluniau Rheoli Ardaloedd Basn Afon Dyfrdwy a Gorllewin Cymru 2021 - 2027
- Cynllun Rheoli Traethlin Gorllewin Cymru (SMP2)
- Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru (WNMP)
- Cynllun Rheoli Risg Llifogydd (FRMP) ar gyfer Cymru
- Cynllun Rheoli Adnoddau Dŵr (DCWW)

Tabl 11: Asesiad o'r effeithiau posibl ar y cyd â chynlluniau eraill.

Enw'r Cynllun	Asesiad o'r effeithiau posibl ar y cyd
Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn (CDLI) 2011 - 2026 Cyngor Sir Ynys Môn a Chyngor Gwynedd	Canfu'r sgrinio nad yw'r datblygiad a gynigir yn y dyraniadau safle unigol neu mewn cyfuniad â'i gilydd mewn aneddiadau yn debygol o gael effeithiau sylweddol ar unrhyw safleoedd Ewropeaidd. Er bod llwybrau posibl ar gyfer effeithiau ar rai safleoedd Ewropeaidd, bydd graddfa fach y datblygiad arfaethedig a'r lliniaru a ddarparwyd trwy bolisiau y CDLI ar y Cyd wedi ei Adneuo sydd ar gael ar lefel y prosiect fydd yn sicrhau nad oes unrhyw effeithiau sylweddol. O ystyried gweithredu camau lliniaru yn y GLFRMS, sy'n cynnwys yr angen i ystyried HRA ar lefel benodol i brosiectau, ni ragwelir effeithiau sylweddol tebygol ar y cyd â Chynllun Datblygu Lleol Gwynedd ac Ynys Môn.
Cynllun Datblygu Lleol Eryri (CDLI) 2016 - 2031 Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri	Roedd Cynllun Datblygu Lleol Eryri (2016-2031) mabwysiedig yn destun Asesiad Rheoleiddio Cynefinoedd i asesu a fyddai ei weithredu'n cael effaith ar unrhyw safleoedd Ewropeaidd o bwysigrwydd cadwraeth natur (megis ACA, AGA). Roedd hyn yn cynnwys sgrinio holl Bolisiau a chynigion y CDLI ac asesiad manwl o'r effeithiau tebygol. Nid yw'r cynllun wedi dibynnu ar weithredu camau lliniaru yn ystod y cam sgrinio, felly ni nodwyd unrhyw effeithiau sylweddol tebygol, naill ai ar ei ben ei hun neu mewn perthynas â chynlluniau neu bolisiau eraill. O ystyried gweithredu camau lliniaru yn y GLFRMS, sy'n cynnwys yr angen i ystyried HRA ar lefel benodol i brosiectau, ni ragwelir effeithiau sylweddol tebygol ar y cyd â CDLI Eryri.

<p>Cynlluniau Rheoli Ardaloedd Basn Afon Dyfrdwy a Gorllewin Cymru 2021 - 2027</p> <p>Cyfoeth Naturiol Cymru (2022)</p>	<p>Cymerodd HRA RBMP3 Afon Dyfrdwy a Gorllewin Cymru 9 o'r 86 mesur Cymreig i AA. Cymerwyd y dull hwn yn rhagofalus yng ngoleuni'r gyfraith achosion ac ansicrwydd effeithiau rhai mesurau ar lefel uchel yr RBMP. Yn ystod y cam AA gwnaed yr achos i ohirio'r HRA i lawr i gynlluniau a phrosiectau haen is. Dylid ei ystyried yng nghyd-destun prif nod yr RBMPs sef gwella'r amgylchedd dŵr, gan gynnwys safleoedd Rhwydwaith Safle Cenedlaethol.</p> <p>Bydd y mesurau lliniaru generig a nodwyd yn yr AA, ynghyd â'r mesurau gwella hynny a ragnodir o fewn Amcanion GLFRMS, yn ategu'r RBMP ac yn annhebygol o arwain at effeithiau sylweddol ar safleoedd Ewropeaidd.</p>
<p>Cynllun Rheoli Traethlin Gorllewin Cymru (SMP2)</p> <p>Grŵp Arfordirol Gorllewin Cymru (Royal Haskoning, 2012)</p>	<p>Mabwysiadwyd ail genhedlaeth y Cynlluniau Rheoli Traethlin (SMPs), yng Nghymru yn 2013, oedd yn nodi'r blaenoriaethau a'r cyfeiriad strategol i reoli holl risg llifogydd ac erydu arfordirol. Mae polisi SMP yn canolbwyntio'n bennaf ar gynnal neu ddilyn mesurau a fydd naill ai'n cynnal neu'n gwella'r nodweddion o safleoedd rhyngwladol.</p> <p>Nododd yr HRA effeithiau andwyol sylweddol posibl ar gyfer rhai parthau o'r arfordir na ellid eu hosgoi na'u lliniaru. Mae'r safleoedd a allai gael eu heffeithio gan y SMP2 yn cynnwys rhai o'r rhai a nodwyd fel rhai sy'n cael eu heffeithio'n andwyol gan ganlyniadau'r GLFRMS. Mae'r rhain yn cynnwys ACA Pen Llŷn a'r Sarnau, ACA Afon Menai a Bae Conwy, AGA Aber Dyfi, AGA Traeth Lafan a safle Ramsar Cors Fochno a Dyfi.</p> <p>Mae'r effeithiau sylweddol a amlinellir yn y SMP2 yn ymwneud yn bennaf â cholli cynefinoedd, yn enwedig nodweddion fflatiau llaid rhynglanwol a gwastadeddau tywod a morfa heli oherwydd polisiau fel ail-alinio a reolir.</p> <p>Ni fydd gweithredu'r GLFRMS yn ychwanegu at nac yn gwaethygu'r effeithiau andwyol hynny a allai gael eu hachosi gan y SMP2. Felly, ni ystyrir y byddai'r GLFRMS a'r SMP2 yn achosi effaith andwyol sylweddol ar safleoedd Ewropeaidd.</p>
<p>Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru (WNMP)</p> <p>Llywodraeth Cymru (2019)</p>	<p>Canolbwyntiodd HRA WNMP ar effeithiau posibl polisiau'r sector yn hyrwyddo neu'n cefnogi datblygiad ar safleoedd Ewropeaidd. Roedd natur lefel uchel y cynllun, sy'n golygu ansicrwydd o ran lleoliad, graddfa, math ac amseriad gweithgareddau yn y dyfodol, yn golygu na allai'r Awdurdod Lleol nodi effeithiau penodol ar safleoedd Ewropeaidd. Mae ansicrwydd yn anochel ac yn gyffredin mewn cynlluniau lefel uchel ac argymhellodd yr HRA fod camau diogelu y polisi cyffredinol, gofyniad i HRA lefel prosiect ac adolygiad rheolaidd o'r WNMP (3 blwyddyn) yn sicrhau nad oes effaith andwyol ar gyfanrwydd safleoedd Ewropeaidd.</p> <p>Mae'r WNMP yn benodol yn cefnogi cyflawni Statws Amgylcheddol Da (GES) o dan Strategaeth Forol y DU.</p> <p>Ei nod yw cyflawni neu gynnal GES mewn dyfroedd arfordirol a morol, sy'n cael ei ddiffinio trwy 11 "<i>Descriptors</i>" sy'n cwmpasu'r amgylchedd morol cyfan. Mae'r polisiau a nodir yn y WNMP yn chwarae rhan</p>

	<p>allweddol wrth gefnogi cyflawniad GES. Y mesurau lliniaru generig a nodwyd yn yr AA, ynghyd â'r mesurau gwella hynny a ragnodir o fewn Amcanion GLFRMS, fydd yn ategu'r WNMP a byddant yn annhebygol o arwain at effeithiau sylweddol ar safleoedd Ewropeaidd.</p>
<p>Cynllun Rheoli Risg Llifogydd (FRMP) ar gyfer Cymru</p> <p>Cyfoeth Naturiol Cymru (dan adolygiad)</p>	<p>Cyhoeddwyd y FRMPs cylch cyntaf ochr yn ochr â'r ail gylch o RBMPs yn 2015. Maent yn declynnau cynllunio lefel uchel sy'n nodi amcanion ar gyfer rheoli perygl llifogydd ar draws dalgylch ac aber pob afon. Dyluniwyd y FRMPs i osod cyfeiriad cyffredinol i reoli perygl llifogydd, gan flaenoriaethu yn dibynnu ar y risg i gymunedau. Maent yn nodi polisiau rheoli perygl llifogydd eang sy'n ymarferol yn economaidd, sydd â oes posibl o 50 i 100 mlynedd, a byddant yn helpu CNC i weithio gydag eraill i'w rhoi ar waith.</p> <p>Mae'r ail gylch o FRMPs yn cael eu datblygu ac maent yn y cyfnod ymgynghori. Mae'r HRA FRMP drafft wedi cymryd 9 o'r 58 mesur cenedlaethol i AA. Cymerwyd y dull rhagofalus hwn yng ngoleuni cyfraith achosion ac ansicrwydd effeithiau rhai mesurau o'r FRMP. Ar y Cam AA gwnaed yr achos i ohirio'r HRA i lawr i gynlluniau a phrosiectau haen is. Trwy'r mesurau a'r dulliau a nodir yn adroddiad HRA, ynghyd â HRA manwl priodol gyda mesurau lliniaru ar lefel haen is, gellir osgoi effeithiau ar gyflawnrwydd y safle. Nid oes unrhyw effaith sylweddol wedi ei darogan ar y cyd â'r GLFRMS.</p>
<p>Cynllun Rheoli Adnoddau Dŵr</p> <p>Dŵr Cymru / Welsh Water (2023)</p>	<p>Mae'r Cynllun Rheoli Adnoddau Dŵr yn rhoi manylion am sut y bydd Dŵr Cymru yn sicrhau bod digon o ddŵr ar gael i gwrdd â'r twf arfaethedig mewn poblogaeth, tai a gweithgarwch economaidd yn ei ardal gyflenwi, gan ystyried newid yn yr hinsawdd a lleihau effeithiau ar filiau cwsmeriaid a'r amgylchedd.</p> <p>Mae'r opsiynau i fynd i'r afael â diffyg cyflenwad dŵr yn cynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> • annog effeithlonrwydd dŵr, • lleihau gollyngiadau a • chwilio am adnoddau dŵr drwy ffynonellau newydd neu rhai cyfredol. <p>Daeth HRA y WRMP i'r casgliad na fydd yn cael unrhyw effeithiau sylweddol nac andwyol ar unrhyw safle Ewropeaidd o ganlyniad i'w weithredu.</p> <p>Nid oes unrhyw effeithiau sylweddol ar safleoedd Ewropeaidd yn debygol o gael eu cyfuno â'r GLFRMS.</p>

Oherwydd lefel strategol y strategaeth / dogfennau cynllun uchod, ystyrir mai dim ond ar lefel prosiect y byddai effeithiau ar y cyd yn debygol lle gellir asesu cynigion a sensitifrwydd safle-benodol yn drylwyr. Felly, fe argymhellir bod HRA yn cael ei gynnal ar gyfer pob prosiect sy'n codi o ganlyniad i'r GLFRMS, lle bo'n berthnasol. Mae argymhellion tebyg ar gyfer HRA lefel prosiect wedi'u gwneud yn yr HRAs a gynhaliwyd ar gyfer y cynlluniau / strategaethau y cyfeirir atynt uchod.

Er y gallai gweithgareddau lefel prosiect fod â'r potensial ar gyfer effeithiau cyfunol, ni fydd gweithredu'r strategaeth ar y lefel hon ynddo'i hun yn arwain at effeithiau sylweddol tebygol.

7.0 CASGLIAD

Yn unol â gofynion y Rheoliadau Cynefinoedd, cynhaliwyd Asesiad Priodol i bennu effaith bosibl y GLFRMS ar Safleoedd Dynodedig Ewropeaidd. Cynhaliwyd yr asesiad hwn yn rhagofalus yng ngoleuni'r ansicrwydd o effeithiau amcanion / camau gweithredu y Strategaeth ar lefel uchel y cynllun.

Canfu'r Asesiad Priodol y gallai rhai o amcanion/camau gweithredu'r GLFRMS effeithio ar gyfanrwydd Safleoedd Dynodedig Ewropeaidd. Fodd bynnag, nid yw'r amcanion / camau gweithredu hyn yn rhoi unrhyw arwydd o'r hyn a fydd yn cael ei gynnwys na lleoliad y gwaith.

Ar y lefel uchel hon, nid yw'n bosib dod i gasgliad gydag unrhyw sicrwydd pa safleoedd, os o gwbl, fydd yn cael eu heffeithio, neu os bydd yr effeithiau yn sylweddol o ran amcanion cadwraeth Safleoedd Dynodedig Ewropeaidd a amlygir yn yr adroddiad hwn. Cydnabyddir bod y GLFRMS yn nodi'r cyfeiriad strategol ar gyfer rheoli perygl llifogydd yng Ngwynedd ac na fydd unrhyw effeithiau'n codi'n uniongyrchol o'r strategaeth ei hun.

Fodd bynnag, ni ellir rhoi'r strategaeth ar waith nes bod cynlluniau, prosiectau neu weithgareddau haen is sy'n deillio o'r Strategaeth Leol hon yn cael eu pennu a'u gweithredu; felly, ni ellir pennu effeithiau posibl y strategaeth yn llawn nes bod cynlluniau manylach yn cael eu cadarnhau. Bydd cynlluniau a phrosiectau/cynlluniau dilynol sy'n deillio o'r GLFRMS yn ddarostyngedig i HRA os oes potensial i effeithio ar Safleoedd Dynodedig Ewropeaidd, o dan y Rheoliadau Cynefinoedd.

Nid yw'r GLFRMS yn cyfyngu ar ble na sut y bydd camau gweithredu'r Strategaeth yn digwydd, felly gall yr amcanion a'r camau gweithredu fynd rhagddynt yn rhywle neu mewn rhyw ffordd na fydd yn cael effaith sylweddol ar unrhyw Safle Ddynodedig Ewropeaidd.

Mae'r asesiad yn dangos, ar gyfer yr effeithiau tebygol a nodwyd, fod dulliau lliniaru effeithiol ar gael ar lefelau haen is. Cyn belled â bod mesurau lliniaru effeithiol a phriodol yn cael eu gweithredu, gellir casglu na fydd unrhyw effaith andwyol ar gyfanrwydd Safle Ewropeaidd o ganlyniad i fabwysiadu'r GLFRMS. Felly, casglodd yr Asesiad Priodol yma nad yw'r GLFRMS yn debygol o gael unrhyw effeithiau sylweddol ar safleoedd Ewropeaidd ynddo'i hun nac mewn cyfuniad â chynlluniau neu brosiectau eraill. Bydd angen asesiadau manwl ar lefelau haen is i adnabod unrhyw effeithiau sylweddol tebygol ar lefel benodol i safle a gweithredu'r mesurau lliniaru gofynnol i'w hosgoi.

8.0 CYFEIRIADAETH

Enfusion 2013, Cyngor Sir Ynys Môn a Chyngor Gwynedd Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Asesiadau Sgrinio Rheoliadau Cynefinoedd

Chapman, C., & Tyldesley, D. 2015. *Functional Linkage: How areas that are functionally linked to European sites have been considered when they may be affected by the projects – a review of authoritative decisions.* Adroddiad Ymchwil Natural England.

David Tyldesley & Associates ar gyfer Cyngor Cefn Gwlad Cymru (Tachwedd 2009): *Guidance for Plan Making Authorities In Wales – the Appraisal of Plans under the Habitats Directive*

Yr Undeb Ewropeaidd. 2019. *Managing Natura 2000 sites: The provisions of Article 6 of the ‘Habitats’ Directive 92/43/EEC.*

Cydbwyllgor Cadwraeth Natur (JNCC). Dim dyddiad. AGA Aber Dyfi Ffurflen Ddata Safonol. Ar gael o: <https://jncc.gov.uk/jncc-assets/SPA-N2K/UK9020284.pdf>

Cydbwyllgor Cadwraeth Natur (JNCC). Dim dyddiad. ACA Afon Dyfrdwy a Llyn Tegid. Ar gael o: <https://sac.jncc.gov.uk/site/UK0030252>

Cydbwyllgor Cadwraeth Natur (JNCC). Dim dyddiad. ACA Afon Eden - Cors Goch Trawsfynydd. <https://sac.jncc.gov.uk/site/UK0030075>

Cydbwyllgor Cadwraeth Natur (JNCC). Dim dyddiad. ACA Afon Gwyrfaï a Llyn Cwellyn. Ar gael o: <https://sac.jncc.gov.uk/site/UK0030046>

Cydbwyllgor Cadwraeth Natur (JNCC). Dim dyddiad. ACA Mynyddoedd y Berwyn a De Clwyd. Ar gael o: <https://sac.jncc.gov.uk/site/UK0012926>

Cydbwyllgor Cadwraeth Natur (JNCC). Dim dyddiad. ACA Cader Idris. Ar gael o: <https://sac.jncc.gov.uk/site/UK0030104>

Cydbwyllgor Cadwraeth Natur (JNCC). Dim dyddiad. ACA Clogwyni Pen Llŷn. Ar gael o: <https://sac.jncc.gov.uk/site/UK0030271>

Cydbwyllgor Cadwraeth Natur (JNCC). Dim dyddiad. ACA Coedydd Aber Ar gael o: <https://sac.jncc.gov.uk/site/UK0030118>

Cydbwyllgor Cadwraeth Natur (JNCC). Dim dyddiad. ACA Corsydd Eifionydd Ar gael o: <https://sac.jncc.gov.uk/site/UK0030121>

Cydbwyllgor Cadwraeth Natur (JNCC). Dim dyddiad. ACA Coedydd Derw a Safleoedd Ystumod Meirion. Ar gael o: <https://sac.jncc.gov.uk/site/UK0014789>

Cydbwyllgor Cadwraeth Natur (JNCC). Dim dyddiad. ACA Corsydd Llŷn. Ar gael o: <https://sac.jncc.gov.uk/site/UK0030187>

Cydbwyllgor Cadwraeth Natur (JNCC). Dim dyddiad. ACA Eryri. Ar gael o: <https://sac.jncc.gov.uk/site/UK0012946>

Cydbwyllgor Cadwraeth Natur (JNCC). Dim dyddiad. ACA Glynllifon. Ar gael o:
<https://sac.jncc.gov.uk/site/UK0012946>

Cydbwyllgor Cadwraeth Natur (JNCC). Dim dyddiad. ACA Gorllewin Cymru Forol Ar gael o:
<https://sac.jncc.gov.uk/site/UK0030397>

Cydbwyllgor Cadwraeth Natur (JNCC). Dim dyddiad. ACA Migneint-Arenig-Dduallt. Ar gael o:
<https://jncc.gov.uk/jncc-assets/SPA-N2K/UK9013131.pdf>

Cydbwyllgor Cadwraeth Natur (JNCC). Dim dyddiad. ACA Morfa Harlech a Morfa Dyffryn. Ar gael o:
<https://sac.jncc.gov.uk/site/UK0030049>

Cydbwyllgor Cadwraeth Natur (JNCC). Dim dyddiad. ACA Rhinog. Ar gael o:
<https://sac.jncc.gov.uk/site/UK0012945>

Cydbwyllgor Cadwraeth Natur (JNCC). Dim dyddiad. ACA Y Fenai a Bae Conwy. Ar gael o:
<https://sac.jncc.gov.uk/site/UK0030202>

Cydbwyllgor Cadwraeth Natur (JNCC). Dim dyddiad. ACA Pen Llŷn a'r Sarnau. Ar gael o:
<https://sac.jncc.gov.uk/site/UK0013117>

Cyfoeth Naturiol Cymru / Asiantaeth yr Amgylchedd, 2022. Rheoliadau Cynefinoedd Asesiad o'r trydydd cylch o Gynlluniau Rheoli Gorllewin Cymru a Basn afon Dyfrdwy.

Cyfoeth Naturiol Cymru 2015. Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd Cynllun Rheoli Risg Llifogydd Gorllewin Cymru.

Royal Haskoning 2011. Cynllun Rheoli Traethlin Gorllewin Cymru 2 Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd.

Tyldesley, D., & Chapman, C. 2013. *The Habitats Regulations Assessment Handbook, Tachwedd 2018 argraffiad y DU: DTA Publications Ltd.*

Llywodraeth Cymru 2019, Asesiad Rheoleiddio Cynefinoedd Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru.

WSP / Dŵr Cymru / Welsh Water 2023, Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd y Cynllun Rheoli Adnoddau Dŵr, 2024.


ATODIADAU

Atodiad A: Safleoedd Ewropeidd o fewn neu gerllaw ardal LFRMS Gwynedd.



1: Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACAau) a leolir o fewn neu gerllaw ardal Gwynedd:


MAGiC

SAC



Legend

-  Counties, Metropolitan Districts and Unitary Authorities (GB)
-  Special Areas of Conservation (Wales)



Projection = OSGB36

xmin = 130900

ymin = 280000

xmax = 382700

ymax = 403900


Map produced by MAGIC on 9 October, 2023.

Copyright resides with the data suppliers and the map must not be reproduced without their permission. Some information in MAGIC is a snapshot of the information that is being maintained or continually updated by the originating organisation. Please refer to the metadata for details as information may be illustrative or representative rather than definitive at this stage.

2: Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig (AGA) sydd wedi'u lleoli yn neu gerllaw Gwynedd:


MAGiC

SPA



Legend

- Counties, Metropolitan Districts and Unitary Authorities (GB)
- Special Protection Areas (Wales)




Projection = OSGB36
 xmin = 130900
 ymin = 280000
 xmax = 382700
 ymax = 403900

Map produced by MAGIC on 9 October, 2023.
 Copyright resides with the data suppliers and the map must not be reproduced without their permission. Some information in MAGIC is a snapshot of the information that is being maintained or continually updated by the originating organisation. Please refer to the metadata for details as information may be illustrative or representative rather than definitive at this stage.


3: Safleoedd Ramsar o fewn neu gerllaw ardal Gwynedd:

MAGiC


Ramsar



Legend

 Counties, Metropolitan Districts and Unitary Authorities (GB)

 Ramsar Sites (Wales)



Projection = OSGB36

xmin = 130900

ymin = 280000

xmax = 382700

ymax = 403900

Map produced by MAGIC on 9 October, 2023.

Copyright resides with the data suppliers and the map must not be reproduced without their permission. Some information in MAGIC is a snapshot of the information that is being maintained or continually updated by the originating organisation. Please refer to the metadata for details as information may be illustrative or representative rather than definitive at this stage.

Atodiad B: Safleoedd Ewropeaidd a allai fod mewn perygl (tabl llawn)

Safleoedd Ewropeaidd a Allai fod mewn Perygl – Tabl cyn-sgrinio	
Safle Ewropeaidd	Asesiad Cyn Sgrinio
<p>AGA Aber Dyfi</p> <p>Lleolir aber y Ddyfi ar arfordir gorllewinol Cymru ar y ffin rhwng Ceredigion, Gwynedd a Phowys. Mae'r AGA yn cynnwys yr aber, gyda'r morfa heli cyfagos, glaswelltir corsiog a glaswelltir wedi ei wella. Mae'r casgliad morydol o ddiddordeb ffisiograffig enfawr. Mae'n cynnwys banciau tywod, gwastadeddau llaid, morfa heli, mawnogydd, sianeli afon a chilfachau, gyda chasgliad sylweddol o dwyni tywod ar hyd ceg yr aber. Mae'r aber ei hun yn nodwedd o ACA morol Pen Llŷn a'r Sarnau. Mae'n safle pwysig fel ardal draddodiadol dros y gaeaf i'r Wŷdd talcen wen <i>Aner albifrons flavirostris</i> – yr ardal fwyaf deheuol a ddefnyddir i'r boblogaeth yma yn y DU. <i>Aner albifrons flavirostris</i> – yr ardal fwyaf deheuol a ddefnyddir yn rheolaidd gan y boblogaeth yma yn y DU.</p> <p>Bregusrwydd: Mae aflonyddwch gan weithgareddau hamdden a nifer cynyddol o Wyddau Canada yn byw yno yn amharu ar yr Wŷdd Talcen Wen.</p>	<p>Effeithiau andwyol gan Sŵn/aflonyddwch gweledol i'r Wŷdd Talcen Wen oherwydd gwaith cynnal a chadw i asedau rheoli risg llifogydd ac erydu arfordirol, ac unrhyw waith sy'n ymwneud â'r rhaglen / gwelliannau FCERM.</p> <p>Wedi'i sgopio i mewn</p>

ACA Afon Dyfrdwy a Llyn Tegid

Mae'r safle'n ymestyn o ben gorllewinol pellaf Llyn Tegid dros y llyn cyfan a'i lannau i'w arllwysfa yn yr Afon Dyfrdwy. Yna, aiff ar hyd yr afon a'i glannau i lawr at y man mae'n ymuno â SoDdGA Aber Dyfrdwy. Mae nifer o isafonydd yr afon Dyfrdwy hefyd yn cael eu cynnwys yma, sef Ceiriog, Meloch, Tryweryn a Mynach. Cafodd y safle ei ddynodi am ei Afonydd gyda llystyfiant arnofiol lle gwelir nodwedd cynefin crafanc y dŵr yn aml, ynghyd â sawl rhywogaeth yn cynnwys; Pennau lletwad, Llysywod pendoll yr afon (*River lamprey*), Llysywod pendoll y nant (*Brook lamprey*), Llyriad-y-dŵr arnofiol, Dyfrgwn, Llysywod pendoll y môr (*Sea lamprey*) ac Eog yr Iwerydd.

Bregusrwydd: Mae'r safle a'i nodweddion dan fygythiad gan arferion sy'n effeithio'n andwyol ar ansawdd, cyfaint a phatrwm llif y dŵr gan gynnwys y canlynol: rheolaeth amhriodol o'r llif; echdynnu gormodol (at ddibenion diwydiannol, amaethyddol a domestig); bygythiadau i ansawdd dŵr drwy lygredd uniongyrchol a thryledol; ewtroffigedd a siltio. Mae dirywiad cynefinoedd y glannau oherwydd gwaith peirianyddol, arferion amaethyddol a rhywogaethau ymledol o blanhigion yn gallu cael effaith andwyol hefyd. Mae poblogaeth eog yr Iwerydd dan fygythiad yn sgil gormod o bysgota gan bysgodfeydd môr mawr, aberol ac adloniadol. Yn ogystal, gallai cyflwyno rhywogaethau anfredorol fygwth rhywogaethau pysgod a phlanhigion.

Gall cynnal a chadw i asedau rheoli risg llifogydd ac erydu arfordirol gwaith sy'n ymwneud â'r rhaglen / gwelliannau FCERM achosi effeithiau andwyol oherwydd aflonyddwch i nodweddion arbennig a cholli cynefinoedd o bosib, ynghyd ag effeithiau andwyol posib ar ansawdd dŵr drwy waith cynnal a chadw / adeiladu.

Wedi'i sgopio i mewn

ACA Afon Eden – Cors Goch Trawsfynydd

Mae'r Afon Eden yn afon sydd heb ei newid lawer; mae'n llifo mewn ucheldir gan fwyaf ac yn tua 10km o hyd. Mae'r wahanfa ddŵr yn cychwyn fymryn i'r de o Lyn Trawsfynydd, o fewn ardal sydd â thir ar lethrau ysgafn, yn draenio'n wael. Mae rhan uchaf y dalgylch yn llifo'n araf gyda nifer o lynnoedd dyfn ar ei hyd. Yn neuparth isaf y dalgylch, mae'r afon yn llifo'n fwy serth i mewn i geunant cul creigiog gydag ardal o blanhigfa goed gerllaw a elwir yn Coed y Brenin. Mae'r Afon Eden yn ymuno â'r Afon Mawddach fymryn yn uwch na phentref Ganllwyd ond mae ffiniau'r ACA yn mynd yn ei flaen i lawr yr afon hyd at derfyn llanw'r Fawddach yn Llanelltyd. Yn yr afon ceir y boblogaeth olaf sy'n wybyddus o fisglod perlog sydd wedi goroesi yng Nghymru, maent wedi'u cyfyngu bron i gyd i un rhan o'r afon. Nodweddion cymhwysol eraill i'r safle yw Cyforgorsydd actif, Llyriad-y-dŵr arnofiol, Dyfrgwn ac Eog yr Iwerydd.

Gall cynnal a chadw i asedau rheoli risg llifogydd ac erydu arfordirol gwaith sy'n ymwneud â'r rhaglen / gwelliannau FCERM achosi effeithiau andwyol oherwydd aflonyddwch i nodweddion arbennig a cholli cynefinoedd o bosib, ynghyd ag effeithiau andwyol posib ar ansawdd dŵr drwy waith cynnal a chadw / adeiladu.

Wedi'i sgopio i mewn

Bregusrwydd: Mae'r misglod perlog a'r pysgod salmonid oll yn arbennig o sensitif i lygredd dŵr e.e. nitradau a gwaddod yn llifo i'r afon, a'r afon yn cael ei rheoli'n amhriodol.

ACA Afon Gwyrfaï a Llyn Cwellyn

Mae'r safle'n cynnwys afon Gwyrfaï a Llyn Cwellyn. Llifa afon Gwyrfaï o Lyn y Gader ger Rhyd Ddu gan basio drwy Llyn Cwellyn ar ei ffordd i'r môr yn y Foryd ym Mae Caernarfon. Mae hefyd yn cynnwys isafon i afon Gwyrfaï, sef afon Treweunydd, a'r llyn bychan y mae'n llifo ohono ar lethrau'r Wyddfa. Caiff yr ACA ei ffinio hwnt ag yma gan gynefin torlannol gwlypdir lled-naturiol, ac mae'r rhan fwyaf ohono wedi'i leoli o fewn y SoDdGA. Mae system afon Gwyrfaï yn ei chyfanrwydd yn un sydd o ansawdd ecolegol eithriadol. Mae'r afon yn adnabyddus am ei phoblogaeth o eog, ac ystyrir mai hon yw un o'r afonydd gorau yn y Deyrnas Unedig am gynnal yr eog. Mae hefyd yn nodweddiadol am ei phoblogaeth o ddyfrgwn sy'n niferus yma oherwydd anian naturiol ei chynefinoedd torlannol a digonedd o orchudd trwchus sy'n cael llonydd. Yn ogystal â'r llyn, mae'r afon yn cynnal cymuned unigol o lyriad-y-dŵr arnofiol, ynghyd â chrafanc y dŵr *Ranunculus* spp a llystyfiant cysylltiedig eraill sy'n cynnwys casgliadau o bryoffytau sydd i'w cael mewn amrywiol rannau o'r afon.

Bregusrwydd: Mae afon Gwyrfaï yn debygol o fod yn fwyaf sensitif i effeithiau cronrus yn deillio o newidiadau bychain ar ei hyd, a gall y rhain effeithio ar ansawdd y dŵr a strwythur y cynefinoedd.

Gall cynnal a chadw i asedau rheoli risg llifogydd ac erydu arfordirol gwaith sy'n ymwneud â'r rhaglen / gwelliannau FCERM achosi effeithiau andwyol oherwydd aflonyddwch i nodweddion arbennig a cholli cynefinoedd o bosib, ynghyd ag effeithiau andwyol posib ar ansawdd dŵr drwy waith cynnal a chadw / adeiladu.

Wedi'i sgopio i mewn

AGA Bae Lerpwl

Mae Bae Lerpwl wedi'i leoli oddi ar arfordir gogledd-orllewin Gwynedd, yn ymestyn tua'r dwyrain ar hyd arfordir gogledd Cymru ac ar hyd gogledd gogledd-ddwyrain Lloegr. Mae wedi'i ddynodi oherwydd y Fôr-hwyaden ddu (*Melanitta nigra*), Trochydd gyddf-goch (*Gavia stellata*) a'r casgliad o adar y dŵr, ynghyd â'r Wylan fechan nad yw'n bridio (*Hydrocoloeus minutus*), y Fôr-wennol fach sy'n bridio (*Sternula albifrons*) a'r Fôr-wennol gyffredin sy'n bridio (*Sterna hirundo*).

Bregusrwydd: Datblygiadau ar y tir a'r môr, llongau masnachol, pysgota.

Lleolir y safle oddi ar arfordir gogledd-ddwyreiniol Gwynedd, fymryn tu allan i'r ardal GLFRMS. O ystyried ei leoliad, ni ragwelir y bydd effeithiau llygredd neu aflonyddwch yn sgil y GLFRMS o bosib yn creu effeithiau negyddol ar y safle hwn nac ar ei nodweddion adar.

Wedi'i sgopio allan

AGA y Berwyn

Effeithiau andwyol gan Sŵn/aflonyddwch gweledol i adar ysglyfaethus sy'n nythu oherwydd cynnal a chadw

<p>Y Berwyn yw'r ucheldir pwysicaf yng Nghymru ar gyfer adar sy'n magu. Mae'n cynnal ystod eang o rywogaethau ynghyd â niferoedd rhyngwladol bwysig o'r boda tinwyn <i>Circus cyaneus</i>, y cudyll bach <i>Falco columbarius</i>, hebog tramor <i>Falco peregrinus</i> a'r barcud <i>Milvus milvus</i>, ynghyd â chyfran sylweddol o boblogaethau Cymru o rywogaethau eraill yn cynnwys y dylluan glustiog <i>Asio flammeus</i>, cwtiad aur <i>Pluvialis apricaria</i>, y grugiar goch <i>Lagopus lagopus</i> a'r grugiar ddu <i>Tetrao tetrix</i>.</p> <p>Bregusrwydd: Mae'r mignenni, y rhostiroedd, y corsydd a'r glaswelltiroedd oll dan fygythiad gan ddatblygiadau amaethyddol amhriodol gan gynnwys draenio, ail-hadu, defnyddio gwrtaih, llosgi, adeiladu traciau a phrosesau pori niweidiol. Gall ddefnydd hamdden achosi erydu.</p>	<p>i asedau rheoli risg llifogydd ac erydu arfordirol ac unrhyw waith sy'n posib ar y rhaglen / gwelliannau FCERM.</p> <p>Wedi'i sgopio i mewn</p>
<p>ACA Mynyddoedd y Berwyn a De Clwyd</p> <p>Mae ACA Mynyddoedd y Berwyn a De Clwyd yn safle ucheldir mawr (27,132 ha), ac mae'n cynnwys yr ardal fwyaf o fignen a rhostir sych Ewropeaidd yng Nghymru. Mae'n cynnwys tri safle arwahanol, SoDdGA Y Berwyn, SoDdGA Gweunydd Llandegla a SoDdGA Rhiwabon, Mynyddoedd Llantysilio a'r Mwynglawdd. Mae'r holl safleoedd hyn yn bennaf yn gymysgedd o rostir sych a llystyfiant gorgors gyda chlytiau o wernydd trawsnewid a llystyfiant cors grynu a welir fel brithwaith cymhleth, fel arfer ar fathau o gerrig asidig a gyda'i gilydd gellir eu disgrifio fel gweundir ucheldir.</p> <p>Bregusrwydd: Mae'r mignenni, y rhostiroedd, y corsydd a'r glaswelltiroedd oll dan fygythiad gan ddatblygiadau amaethyddol amhriodol gan gynnwys draenio, ail-hadu, defnyddio gwrtaih, llosgi, adeiladu traciau a phrosesau pori niweidiol. Gall ddefnydd hamdden achosi erydu.</p>	<p>Gall addasiad i ddulliau draenio'r ucheldir (e.e. ffosydd, draeniau) drwy gynnal a chadw, gan gynnwys clirio sianeli, gael effaith andwyol ar nodweddion cynefin tir corsiog ar y safle (e.e. mignen a rhostir gwlyb)</p> <p>Wedi'i sgopio i mewn</p>
<p>ACA Cadair Idris</p> <p>Mae'r safle wedi'i leoli i'r de o Ddolgellau ac mae'n safle o ddiddordeb arbennig am ei nodweddion biolegol, daeareg carreg-wely Ordoficaidd/igneaid a nodweddion geomorffoleg Pleistosen/Cwaternaidd. Mae'r safle'n cynnwys mynydd Cadair Idris a'r llethrau is, sy'n fosaig o goedlannau llydandail, dolydd gwlyb, cynefinoedd ucheldir a glaswelltir. Mae'r amrywiaeth eang o amodau ffisegol yn arwain at ystod eang o fathau o gynefinoedd. Mae'r rhain yn</p>	<p>Gall addasiad i ddulliau draenio'r ucheldir (e.e., ffosydd, draeniau) drwy gynnal a chadw, gan gynnwys clirio sianel gael effaith andwyol ar nodweddion cynefin tir corsiog ar y safle (e.e., mignen a rhostir gwlyb).</p> <p>Wedi'i sgopio i mewn</p>

<p>cynnwys cymunedau rhostir prysgwydd byr, glaswelltir mynyddig, cymunedau llawn perllysiau a rhedyn, gorgorsydd, cymunedau soligenaidd, cynefin ffynhonnau, dŵr agored a choedlan dderw. Y mwyaf amlwg yw glaswelltiroedd asid wedi'i ddominyddu gan <i>Nardus stricta</i> a <i>Festuca ovina</i> a rhostiroedd sych asid yn llawn <i>Calluna vulgaris</i>. Yng nghyd-destun y SoDdGA, mae'r safle hefyd o ddiddordeb arbennig oherwydd ei gasgliad o uwch-blanhigion , cen, bryoffytau ac infertebratau mynyddig. Mae naw uwch-blanhigyn o ddiddordeb arbennig yn eu rhinwedd eu hunain yn yr un modd â'r (nodwedd ACA) mwsogl pluog main gwyrdd <i>Hamatocaulis vernicosus</i> a rhywogaethau cen ar y cyrion.</p> <p>Bregusrwydd: Mae pwysau ymwelwyr yn arwain at ddifrod i lystyfiant yn lleol. Mae glaw trwm yn golygu bod y safle'n sensitif i asideiddio. Gall pori trwm a llosgi arwain at newid yn strwythur y safle.</p>	
<p>ACA Clogwyni Pen Llŷn</p> <p>Mae ACA Clogwyni Pen Llŷn yn rhan fawr o arfordir Pen Llŷn, yn ffinio â Môr Iwerddon ac yn gwbl agored i'r gwyntoedd cryfion a systemau'r tywydd. O angenrheidrwydd caiff ei chynefinoedd eu dylanwadu gan ei lleoliad, daeareg a'r hinsawdd ac mae'r ardal arfordirol yn cynnal rhai o'r enghreifftiau gorau sy'n bodoli o rostiroedd a glaswelltir arfordirol ac arforol yn Llŷn. Mae'r safle wedi cael ei ddynodi'n ACA oherwydd cynefin rhyngwladol bwysig 'Clogwyni gyda Llystyfiant Arfordir yr Iwerydd a'r Arfordiroedd Baltig'. Mae'r nodwedd hon yn cynnwys amrediad o gynefinoedd, gyda nifer ohonynt yn cael eu cynrychioli ar y safle hwn, gan gynnwys clogwyni caled a meddal, rhostir arforol ac arfordirol, cymunedau o laswelltir arforol a theroffytau arforol.</p> <p>Bregusrwydd: Gwaith peirianyddol i'r clogwyni eu hunain ac amddiffynfeydd môr artiffisial. Gall newidiadau mewn amodau hinsoddol arwain at gynnydd neu ostyngiad mewn stormydd a gwyntoedd uchel, llawn halen sy'n gysylltiedig â hynny, a all effeithio ar ddsbarthiad cymharol o laswelltir arforol a rhostir arforol, dau gynefin sydd â chysylltiad agos.</p>	<p>Effeithiau andwyol ar gynefinoedd clogwyni oherwydd gwaith peirianeg sy'n gysylltiedig â chynnal a chadw ar asedau llifogydd/erydu arfordirol ac unrhyw waith adeiladu ychwanegol sy'n ymwneud â'r rhaglen / gwelliannau FCERM.</p> <p>Wedi'i sgopio i mewn.</p>
<p>ACA Coedydd Aber</p> <p>Mae Coedydd Aber yn ymestyn 4 km ar hyd dyffrynnoedd serth Afon Rhaeadr Fawr ac Afon</p>	<p>Effaith andwyol ar ansawdd dŵr drwy unrhyw waith cynnal a chadw ar asedau rheoli risg llifogydd neu welliannau/gwaith ar y rhaglen FCERM. Gall coedwigoedd llifwaddodol fod yn sensitif i newidiadau mewn ansawdd dŵr.</p>

<p>Anafon, sydd wedi'u lleoli'n union i'r de o bentref Abergwyngregyn. Mae Coedydd Aber yn safle o ddiddordeb arbennig oherwydd ei ddiddordebau botanegol, adaregol a phryfetegol. Mae'r safle yn cefnogi mosaig o fathau o goetiroedd llydanddail cynhenid o bwysigrwydd rhyngwladol, gan gynnwys fforestydd llifwaddodol gyda gwern ac ynn, a hen goedwigoedd derw mes digoes, lle mae'r cynefinoedd (sy'n ddibynol ar uchder) yn trawsnewid yn naturiol o'r arfordir i'r mynyddoedd agored.</p> <p>Bregusrwydd: Mae cynefin y coetir yn weddol gadarn ond mae sgôp i'w wella drwy waredu coed conwydd a rhywogaethau ymledol eraill.</p>	<p>Wedi'i sgopio i mewn</p>
<p>ACA Coedydd Derw a Safleoedd Ystlumod Meirion</p> <p>Mae'r ACA Coedwigoedd Derw a Safleoedd Ystlumod Meirionnydd yn cynnwys cyfres o goetiroedd, yn ymestyn o Ddolgellau yn y de i Eryri yn y gogledd. Mae'r rhan fwyaf o'r ACA wedi'i ddisbarthu fel math o goetir a elwir yn "Hen goedwigoedd derw â mes digoes gydag llex a Blechnum yn Ynysoedd Prydain," sy'n ymestyn dros oddeutu 84% o'r ACA – dyma'r math o goetir sy'n dominyddu yn y mwyafrif o'r safleoedd. Nodwedd allweddol o bwysigrwydd Ewropeaidd yw'r cymunedau bryoffytau yr Iwerydd cyfoethog sy'n aml wedi'u datblygu'n dda o fewn y cynefin Atodiad 1 hwn. Mae gan ystlumod pedol lleiaf dros 20 o glwydfannau hysbys o fewn yr ACA a byddant yn chwilota'n eang yng nghoetiroedd yr ACA, cynefinoedd cysylltiedig a'r cefn gwlad o gwmpas.</p> <p>Bregusrwydd: Mae mwsoglau a llysiâu'r afu mewn ceunentydd lle mae perygl o'r goroddefnydd o weithgareddau hamdden megis cerdded ceunant a chanwio eithafol. Mae angen rheoli geifr gwyllt sy'n bresennol yn rhai o'r safleoedd yn ofalus i atal stripio rhisgl a difrod pori i goed ifanc a choed egin. Yn y gorffennol, mae'r rhostir wedi bod dan fygythiad coedwigoedd a llosgi/pori amhriodol. Mae ystlumod pedol lleiaf yn fwyaf bregus yn eu clwydfannau haf a gaeaf. Gosodwyd griliau ar nifer o glwydfannau sydd yn y ceuffyrdd mwynglawdd erbyn hyn, i atal aflonyddwch i ystlumod sy'n gaeafgysgu. Caiff ystlumod eu heffeithio hefyd gan leihad yn y nifer o bryfaid sydd ar gael i'w bwyta, oherwydd newidiadau mewn arferion amaethu a phlaladdwyr.</p>	<p>Effaith andwyol ar ansawdd dŵr drwy unrhyw waith cynnal a chadw ar asedau rheoli risg llifogydd neu welliannau/gwaith ar y rhaglen FCERM. Mae nodweddion megis 'Cyrsiâu dŵr ar lefelau gwastad a mynyddig' yn sensitif i newidiadau mewn ansawdd dŵr.</p> <p>Gall cynnal a chadw ar strwythurau (y rheini sydd ddigon mawr i gael gofod gwag addas ar gyfer ystlumod sy'n hongian yn rhydd (e.e. rhai cylfatau a strwythurau pontydd) achosi effeithiau andwyol oherwydd colli cynefinoedd neu aflonyddwch i ystlumod pedol lleiaf.</p> <p>Wedi'i sgopio i mewn</p>

Ramsar Cors Fochno a Dyfi

Mae Ramsar Cors Fochno a Dyfi wedi'i leoli'n rhannol yn ne Gwynedd ac yn rhannol yng ngogledd Ceredigion. Mae'r safle'n cynnwys yr ehangder mwyaf o gyforgors bennaf yn iseldir Prydain; y gyforgors forydol fwyaf a'r drydedd gyforgors 'actif' fwyaf ym Mhrydain. Mae nodweddion Atodiad 1 y Gyfarwyddeb Cynefinoedd sy'n bresennol yn yr elfen ACA yn cynnwys:

- Cyforgorsydd actif
- Cyforgorsydd diraddedig y mae'n bosib eu hadfywio
- Pantiau ar is-haenau mawn y *Rhynchosporion*

Mae'r safle yn cynnal yr unig haid o wyddau brest wen yr Ynys Las sy'n gaeafu'n rheolaidd yng Nghymru a Lloegr, ac yn safle allweddol yng Nghymru ar gyfer magu rhydwyf.

Effaith andwyol ar ansawdd dŵr drwy unrhyw waith cynnal a chadw ar asedau rheoli risg llifogydd ac erydu arfordirol neu waith gwelliannau FCERM.

Effeithiau andwyol gan Sŵn/aflonyddwch gweledol i nodweddion rhywogaethau adar yn sgil cynnal a chadw i asedau rheoli risg llifogydd ac erydu arfordirol neu waith ar welliannau FCERM.

Wedi'i sgopio i mewn

ACA Corsydd Eifionydd

Mae ACA Corsydd Eifionydd yn cynnwys pedwar Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig ar wahân; SoDdGA Cors Graianog, SoDdGA/Gwarchodfa Natur Cors Gyfelog, SoDdGA Cors Llanllyfni a SoDdGA Cors y Wlad. Mae'r safleoedd wedi'u lleoli ar gyrion yr ucheldir rhwng Eryri a Phenrhyn Llŷn, a gyda'i gilydd maent yn gorchuddio ardal o dros 144 ha. Rhyngddynt, dylent gefnogi tair nodwedd o bwysigrwydd rhyngwladol sef mignen trawsnewidiol a chors grynu, brith y gors a mwsogl pluog main gwyrdd. Dylai'r safleoedd hyn hefyd gefnogi amrywiaeth o gynefinoedd gwlypdir eraill gan gynnwys glaswelltir corsiog, ffen, cors, coetir gwlyb a chynefinoedd siglen

Bregusrwydd: Y prif bwysau sydd ar y safle hwn yw prysg yn lledaenu oherwydd diffyg pori, sy'n adlewyrchu natur gorslyd ac anhygyrch y tir yma. Mae draenio a llygredd yn beryglon ychwanegol.

Effaith andwyol ar ansawdd dŵr drwy unrhyw waith cynnal a chadw ar asedau rheoli risg llifogydd neu welliannau/gwaith ar y rhaglen FCERM.

Ystyrir bod nodweddion cynefin yr ACA hwn yn arbennig o sensitif i newidiadau mewn ansawdd dŵr.

Gall addasiad i ddraenio (e.e. ffosydd, draeniau, cylfatau) drwy gynnal a chadw, gan gynnwys clirio sianel, gael effaith andwyol ar nodweddion cynefin tir corsiog y safle (e.e., mignenni trawsnewidiol a chorsydd crynu).

Wedi'i sgopio i mewn

ACA Corsydd Llŷn

Mae ACA Corsydd Llŷn yn cynnwys cadwyn o bedair cors galchog ar draws canol Penrhyn Llŷn, yng ngogledd orllewin Cymru. Cors Geirch yw'r safle cydran fwyaf; mae'r tri safle cydran arall sef Cors Hirdre, Rhyllech Uchaf ac Aber Geirch ar unedau hydrotopograffig ar wahân. Mae'r nodweddion yn cynnwys cors yn gyfoethog o galsiwm sy'n cael ei ddominyddu gan

Effaith andwyol ar ansawdd dŵr drwy unrhyw waith cynnal a chadw ar asedau rheoli risg llifogydd neu waith adeiladu dan y rhaglen FCERM.

Ystyrir bod nodweddion yr ACA hwn yn arbennig o sensitif i newidiadau mewn ansawdd dŵr.

hesgen ffen fawr, ffeniau sy'n cael eu bwydo gan ddŵr ffynnon sy'n gyfoethog o galsiwm, y falwen droellog Geyer a'r falwen droellog Desmoulin.

Bregusrwydd: Mae'r safle dan bwysau gan amaeth (e.e. cynnal a chadw ffosydd, chwalu gwrtaith, esgeulustod). Mae ansawdd dŵr y safle yn fregus i ddirywiad oherwydd gweithgareddau amaethyddol (e.e. slyri). Mae prysg yn lledaenu yn broblem reoli sy'n parhau.

Gallai addasiad i ddraenio (e.e. ffosydd, draeniau, cylfatau) drwy gynnal a chadw, gan gynnwys clirio sianeli, gael effaith andwyol ar nodweddion cynefin tir corsiog y safle.

Wedi'i sgopio i mewn

Ramsar Corsydd Ynys Môn a Llŷn

Mae'r safle yn cynnal cyfres o ffeniau basig, calchaid sy'n gynefin prin yn y DU. Mae nodweddion Atodiad I yn cynnwys:

- Dyfroedd *oligo-mesotrophic* caled gyda llystyfiant benthig o *Chara spp*
- Rhostiroedd gwlyb Gogledd yr Iwerydd gyda *Erica tetralix*
- Dolydd molinia ar briddoedd calchaid, mawnaidd neu glai llawn silt (*Molinion caeruleae*)
- Ffeniau calchaid gyda *Cladium mariscus* a rhywogaethau o'r *Caricion davallianae*
- Ffeniau alcalinaidd
- Geyer's Whorl Snail *Vertigo geyeri*
- Southern damselfly *Coenagrion Mercuriale*
- Glöyn byw Brith y Gors *Euphydryas (Eurodryas, Hypodryas) aurinia*

Mae'r safle'n cefnogi amrywiaeth o fflora a ffawna ac mae o werth arbennig ar gyfer cynnal amrywiaeth genetig / ecolegol.

Gallai cynnal a chadw i asedau rheoli risg llifogydd ac erydu arfordirol neu waith adeiladu dan y rhaglen FCERM achosi effeithiau andwyol yn sgil aflonyddwch i nodweddion rhywogaethau neu golli cynefinoedd o bosib.

Effaith andwyol ar ansawdd dŵr drwy unrhyw waith cynnal a chadw i asedau rheoli risg llifogydd. Mae nifer o nodweddion y safle Ramsar hwn yn sensitif i newidiadau mewn ansawdd dŵr.

Gall addasiad i ddraenio (e.e. ffosydd, draeniau, cylfatau) drwy gynnal a chadw, gan gynnwys clirio sianeli, gael effaith andwyol ar nodweddion cynefin tir corsiog y safle.

Wedi'i sgopio i mewn

AGA Craig y Deryn

Mae craig uchel Craig y Deryn yn codi o lefel y môr i dros 250 metr ac mae'n nodwedd trawiadol yn y dirwedd ar ochr ddeheuol dyffryn Dysynni. Mae'r safle yn Ardal Gwarchodaeth Arbennig oherwydd ei bod yn safle magu a chlwydo pwysig i'r frân goesgoch.

Bregusrwydd: Aflonyddwch i'r frân goesgoch, a rhedyn yn gordyfu.

Mae'r safle wedi'i ddynodi am fod y Frân goesgoch yn magu ac yn gaeafu yno, ac mae'n safle magu mewndirol anarferol ar gyfer Mulfrain. Mae wedi'i gyfyngu i greigiau Craig yr Aderyn ac ni ddisgwylir i'r LFRMS arwain at unrhyw brosiectau rheoli llifogydd yn y lleoliad hwn, nac unrhyw effeithiau ar y rhywogaethau adar sy'n sail i ddynodiad y safle.

Wedi'i sgopio allan

ACA Eryri

Mae Eryri yn cynnwys tri darn o ucheldir gaiff eu gwahanu gan ffyrdd, sef y Carneddau, y Glyderau a'r Wyddfa. Mae'r tri yn gartref i nifer o nodweddion SoDdGA biolegol a daearegol ac i nodweddion ACA. Mae nodweddion cymhwysol yn cynnwys; Cymunedau planhigion ar dir uchel sy'n gysylltiedig â mannau o ddŵr yn treiddio, mignenni, glaswelltir sydd â chyfoeth o rywogaethau gyda mat-wellt mewn ardaloedd o dir uchel, rhostiroedd alpaidd ac is-alpaidd, rhostiroedd sych, a choedlan dderw asidig orllewinol.

Bregusrwydd: Gall gorburi effeithio ar rai cymunedau llystyfiant. Mae'r glawiad trwm a'r ddaeareg/priddeg asidaidd helaeth yn golygu fod yr ardal yma, yn enwedig ei chyrsiau dŵr a'r llynnoedd, yn sensitif i asideiddio.

Gall addasiad i ddulliau draenio'r ucheldir (e.e., ffosydd, draeniau) drwy gynnal a chadw, gan gynnwys clirio sianel gael effaith andwyol ar nodweddion cynefin tir corsiog ar y safle (e.e. mignen a rhostir gwlyb).

Effaith andwyol ar ansawdd dŵr drwy unrhyw waith cynnal a chadw i asedau rheoli risg llifogydd.

Mae rhai nodweddion yr ACA hwn yn sensitif i newidiadau mewn ansawdd dŵr.

Wedi'i sgopio i mewn

AGA Arfordir Aberdaron ac Ynys Enlli

Saif y safle ym mhen de-orllewinol eithaf Penrhyn Llŷn, gyda Môr Iwerddon bron yn ei amgylchynu ac yn agored i'r prif wyntoedd a'r systemau tywydd. Wrth reswm, caiff ei gynefinoedd eu dylanwadu gan ei leoliad, daeareg a'r hinsawdd ac mae'r ardal arfordirol yn cefnogi rhai o'r enghreifftiau gorau sy'n bodoli o rostiroedd arfordirol a morol a glaswelltir yn Llŷn, tra bod ardaloedd mwy mewndirol yn cefnogi ardaloedd amaethyddol wedi eu gwella. Mae'r safle yn cynnwys tair ynys, Ynys Enlli a dwy ynys fach a elwir yn Ynysoedd y Gwylanod. Dynodwyd y safle yn AGA oherwydd ei ddiddordeb adaryddol ac mae'n arbennig o bwysig am ei boblogaethau brân goesgoch ac adar drycin Manaw sy'n magu.

Bregusrwydd: Pobl yn tarfu ar safleoedd tyrchu / nythu.

Mae'r safle wedi'i ddynodi am fod y Frân goesgoch a'r aderyn drycin Manaw yn magu yno, felly mae wedi'i gyfyngu i Ynys Enlli a morlin pendraw Pen Llŷn. Nid yw'r dynodiad yn cynnwys unrhyw gynefinoedd dŵr croyw ac ni ddisgwylir i'r LFRMS arwain at unrhyw brosiectau rheoli llifogydd yn y lleoliad hwn, nac unrhyw effeithiau ar y ddau rywogaeth o adar sy'n sail i ddynodiad y safle.

Wedi'i sgopio allan

ACA Glynllifon

Mae ACA Glynllifon wedi'i dynodi am ei phoblogaeth o'r Ystlum Bedol Leiaf. Mae tair clwydfan fagu o fewn y safle a dwy glwydfan gaeafgysgu. Er bod rhai cynefinoedd wedi'u cynnwys o fewn ffin yr ACA, mae'r ystlumod yn defnyddio ardal llawer ehangach i fwydo a chymudo ac mae yna hefyd glwydfannau cysylltiedig a adnabuwyd tu allan i ffin yr ACA.

Bregusrwydd: Datblygiad, gan gynnwys colli safleoedd clwydo ac effaith ar linellau hedfan drwy glirio llystyfiant/coed. Mae'r llinellau hedfan sy'n cysylltu unedau'r ACA hefyd yn bwysig

Effaith andwyol ar linellau hedfan yr Ystlumod Pedol Lleaif drwy glirio llystyfiant yn sgil gwaith adeiladu dan y rhaglen FCERM neu reoli asedau llifogydd. Mae llinellau hedfan y tu allan i'r ACA hefyd yn sensitif gan eu bod yn cysylltu elfennau'r ACA a safleoedd porthi posib.

Wedi'i sgopio i mewn

<p>iawn ac mae angen eu hystyried wrth asesu datblygiadau. Mae ystlumod yn sensitif i aflonyddwch, yn enwedig yn ystod tymor mamolaeth yr haf. Caiff ystlumod eu heffeithio hefyd gan leihad yn y nifer o bryfaid sydd ar gael i'w bwyta, oherwydd newidiadau mewn arferion amaethu a phlaladdwyr.</p>	
<p>AGA Gogledd Bae Ceredigion</p> <p>Mae'r AGA, sydd wedi'i lleoli yn hanner gogleddol Bae Ceredigion ar arfordir gorllewinol Cymru, wedi'i dynodi oherwydd y Trochydd Gyddf-goch. Mae nifer o afonydd yn llifo i ran gogleddol Bae Ceredigion gan gynnwys afon Dwyfach, Glaslyn/Dwryd, Wnion, Dysynni, Leri, Mawddach a Dyfi.</p> <p>Bregusrwydd: Chwilio a chloddio am olew neu nwy, Llygredd dŵr morol a Physgota a chynaeafu adnoddau dyfrol. Mae gan weithgareddau eraill y potensial i greu pwysau neu berygl drwy aflonyddu ar y nodwedd, er enghraifft, o weithgareddau swllyd neu gyflymder uchel.</p>	<p>Mae'r safle wedi'i ddynodi am ei boblogaeth o'r Trochydd Gyddf-goch. Er yn sensitif i lygredd morol ac aflonyddwch posib, mae'n annhebygol y bydd prosiectau ar raddfa a allai effeithio'n andwyol ar nodweddion rhywogaeth y safle hwn.</p> <p>Wedi'i sgopio allan</p>
<p>ACA Gorllewin Cymru Forol</p> <p>Mae ACA Gorllewin Cymru Forol yn cwmpasu ardal o 7,376km² yn ymestyn tua'r de o ben gorllewinol Penrhyn Llŷn ar draws Bae Ceredigion i Sir Benfro. Mae wedi'i dynodi am ei phoblogaeth o Lamhidydd yr Harbwr.</p> <p>Bregusrwydd: Aflonyddwch yn deillio o sŵn dan ddŵr. Gweithgareddau pysgodfeydd, gan gynnwys dal llamhidydd yr harbwr a chael gwared ar rywogaethau ysglyfaeth. Gweithgareddau cychod hamdden, yn achosi aflonyddwch neu wrthdrawiad.</p>	<p>Effaith andwyol ar rywogaethau symudol sy'n cynnwys Llamhidydd yr Harbwr oherwydd y posibilrwydd i gynlluniau amddiffyn yr arfordir greu sŵn dan ddŵr.</p> <p>Wedi'i sgopio i mewn</p>
<p>Ramsar Llyn Idwal</p> <p>Llyn oligotroffig, bach a bas mewn cwm. Mae'r basn craig hanner cylch (neu cwm) sy'n cynnwys y llyn yn un o'r enghreifftiau gorau yn Eryri. Cymuned o blanhigion sy'n llawn rhywogaethau, yn cynnwys bron bob rhywogaeth sy'n nodweddiadol o ddyfroedd oligotroffig ym Mhrydain. Mae rhywogaethau nodedig yn cynnwys <i>Elatine hexandra</i> a <i>Subularia aquatica</i> (y ddau yn brin yn genedlaethol) a <i>Pilularia globulifera</i> (yn fregus ar lefel Ewropeaidd).</p>	<p>Oherwydd maint bychan y safle hwn (13.51ha) a'i leoliad uchel lle mae draenio dan reolaeth wedi'i gyfyngu, ystyrir ei bod yn annhebygol y bydd y safle hwn mewn perygl o effeithiau andwyol posib gan waith cynnal a chadw / adeiladu sy'n gysylltiedig â'r GLFRMS.</p> <p>Wedi'i sgopio allan</p>

<p>Ramsar Llyn Tegid</p> <p>Y llyn naturiol mwyaf yng Nghymru, yn gorwedd yn ddwfn mewn cafn rhewlifol gynt. Mae rhywogaethau o blanhigion sy'n tyfu yn y llyn neu gerllaw yn cynnwys lleidlys <i>Limosa aquatica</i>, y gwybyr chwe brigerog <i>Elatine hexandra</i>, hesg <i>Carex aquatilis</i> a'r llyriad nofiadwy <i>Lurionium natans</i>, ac mae'r rhain oll yn brin ym Mhrydain. Ystyrir bod y llyriad nofadwy'n rhywogaeth fregus yn fyd-eang. Dyma hefyd un o ddim ond chwe safle ym Mhrydain ble ceir y Gwyniad <i>Coregonus lavaretus</i>; mae poblogaeth Gymreig y pysgodyn hwn yn unigryw yn nhermau genetidd.</p> <p>Mae Llyn Tegid hefyd yn gynefin anarferol i'r penllwyd <i>Thymallus thymallus</i> gan ei bod fel arfer yn rhywogaeth afonol. Mae'r falwen ludiog, <i>Myxas glutinosa</i> sy'n brin yn genedlaethol wedi'i hailddarganfod yn y gro bas ar lannau'r llyn.</p>	<p>Gallai cynnal a chadw i asedau rheoli risg llifogydd ac erydu arfordirol achosi effeithiau andwyol oherwydd aflonyddwch i nodweddion rhywogaeth neu'r posibilrwydd o golli cynefinoedd.</p> <p>Effaith andwyol ar ansawdd dŵr drwy unrhyw waith cynnal a chadw / adeiladu.</p> <p>Wedi'i sgopio i mewn</p>
<p>ACA Migneint-Arenig-Dduallt</p> <p>Mae Migneint-Arenig-Dduallt yn safle mawr ar yr ucheldir, sy'n ymestyn rhwng Ysbyty Ifan a Phenmachno yn y gogledd i lawr i Rydymain yn y de, ac o Drawsffynydd yn y gorllewin fymryn i'r dwyrain o Lyn Celyn. Mae ei uchder yn amrywio o 300m i 712m. Mae'r rhan ogleddol yn cynnwys llwyfandir mawnog uchel ar Figneint ac yn ymestyn i Domen y Mur yn y gorllewin a Chwm Hesgyn yn y dwyrain, gyda phwyntiau uwch megis Arenig Fach o amgylch yr ymyl. Mae'r rhan ddeheuol, i'r de o Afon Lliw, hefyd yn cynnwys llwyfandir uchel wedi'i amgylchynu gan dir uwch a'i ddominyddu gan Fynydd Dduallt. Mae'r rhan ganol, yn gorwedd i'r de o Gwm Prysor a Llyn Celyn ac mae'n cynnwys Moel Llyfnant a Moel y Llechi yn ogystal â chrib mynydd Arenig Fawr, sef rhan uchaf y safle cyfan. Mae cynefinoedd yr ACA yn cynnwys mignen, rhostir sych, rhostir gwlyb, llynnoedd a choetir.</p> <p>Bregusrwydd: Mae pori, llosgi a draenio amhriodol yn arwain at ddiraddiad y fignen a'r rhostir – dyma'r prif fygythiadau i'r safle. Mae'r llystyfiant a nodweddion y llyn yn sensitif i asideiddio oherwydd llygredd atmosfferig.</p>	<p>Gall addasiad i ddulliau draenio'r ucheldir (e.e. ffosydd, draeniau) drwy gynnal a chadw, gan gynnwys clirio sianeli gael effaith andwyol ar nodweddion cynefin tir corsiog y safle (e.e. mignen a rhostir gwlyb).</p> <p>Effaith andwyol ar ansawdd dŵr drwy unrhyw waith cynnal a chadw neu adeiladu. Mae rhai nodweddion yr ACA hwn yn sensitif i newidiadau mewn ansawdd dŵr.</p> <p>Wedi'i sgopio i mewn</p>
<p>AGA Migneint-Arenig-Dduallt</p>	<p>Effeithiau andwyol gan Sŵn/aflonyddwch gweledol i adar ysglyfaethus sy'n nythu oherwydd gwaith cynnal a</p>

<p>Mae Migneint-Arenig-Dduallt yn safle mawr ar yr ucheldir, sy'n ymestyn rhwng Ysbyty Ifan a Phenmachno yn y gogledd i lawr i Rydymain yn y de, ac o Drawsffynydd yn y gorllewin fymryn i'r dwyrain o Lyn Celyn. Mae'r AGA wedi'i dynodi am y Boda Tinwyn <i>Circus cyaneus</i>, Y Cudyll bach <i>Falco columbarius</i>, Yr Hebog Tramor <i>Falco peregrinus</i>.</p> <p>Bregusrwydd: Mae rheolaeth anaddas o bori / llosgi / draenio wedi niweidio cynefin bwydo/magu nodweddion yr AGA. Mae cynefinoedd bwydo/magu'r tair rhywogaeth hefyd yn agored i asideiddio gan fod glawiad uchel a daeareg/priddeg asidig y safle yn ychwanegu at y llygredd atmosfferig. Mae'r safle hwn hefyd wedi cael ei effeithio'n helaeth yn y gorffennol gan weithgarwch cloddio sydd wedi arwain at ddinistrio'r cynefinoedd a ddefnyddiwyd gan adar sy'n magu.</p>	<p>chadw i asedau rheoli risg llifogydd ac erydu arfordirol neu waith adeiladu gan y rhaglen FCERM.</p> <p>Wedi'i sgopio i mewn</p>
<p>ACA Morfa Harlech a Morfa Dyffryn</p> <p>Mae ACA Morfa Harlech a Morfa Dyffryn yn cynnwys dwy system twyni tywod, Morfa Harlech i'r gogledd a Morfa Dyffryn i'r de. Mae Morfa Harlech yn system dwyni sy'n cronni'n gyflym, ac yn casglu tywod o'r arfordir i'r de, gan gynnwys y system dwyni yn Morfa Dyffryn sy'n erydu. Mae ACA Morfa Harlech a Morfa Dyffryn yn cefnogi'r nodweddion ACA dilynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Twyni symudol embryonig • Twyni symudol ar hyd y draethlin gydag <i>Ammophila arenaria</i> (twyni gwyn) • Gwastatir llaith rhwng y twyni • Twyni â <i>Salix repens ssp. argentea</i> (Salicion arenariae) • Petalys <i>Petalophyllum ralfsii</i> <p>Bregusrwydd: Pwysau hamdden trwm ar y traethau a'r twyni, gan arwain at ansefydlogi yw'r prif fygythiadau i'r safle.</p>	<p>Ystyrir bod y potensial am effeithiau andwyol ar y safle hwn yn gyfyngedig iawn, gan fod y nodweddion cymhwysol yn gynefinoedd daearol yn bennaf a'u llystyfiant cysylltiedig. Byddai nodweddion y twyni yn sensitif i gyfyngiad ar symudiad naturiol y tywod, er enghraifft drwy strwythurau amddiffyn arfordir newydd, felly bydd angen ystyried hyn mewn perthynas ag unrhyw waith amddiffyn yr arfordir o fewn yr un 'cell' arfordirol.</p> <p>Wedi'i sgopio i mewn</p>
<p>AGA Mynydd Cilan, Trwyn yr Wylfa ac Ynysoedd Sant Tudwal</p> <p>Mae'r safle arfordirol hwn, wedi'i leoli ar ochr ddeheuol Pen Llyn, wedi'i ddynodi am ei boblogaeth fagu o'r frân goesgoch. Caiff y safle ei ddefnyddio'n rheolaidd gan 3% o boblogaeth y Deyrnas Unedig o'r aderyn carismatig hwn drwy gydol y tymor magu a phan nad ydynt yn magu. Mae clogwyni ac ogofau'r môr yn darparu safleoedd magu a chlwydo, tra bod</p>	<p>Mae'r safle wedi'i ddynodi am fod y Frân goesgoch yn magu ac yn gaeafu yno, ac mae wedi'i gyfyngu i forlin pendraw deheuol Pen Llŷn. Nid yw'r dynodiad yn cynnwys unrhyw gynefinoedd dŵr croyw ac ni ddisgwylir i'r LFRMS arwain at unrhyw brosiectau rheoli llifogydd yn y lleoliad hwn, nac unrhyw effeithiau ar y rhywogaethau adar sy'n sail i ddynodiad y safle.</p>

y clogwyni, rhostir, glaswelltir morwrol, a'r tir pori a chaeau â'r gerllaw yn darparu safleoedd bwydo drwy gydol y flwyddyn i'r bwydwyr infertebrat arbenigol hyn.

Bregusrwydd: Graddau a chyflwr y rhostir, gan gynnwys arferion pori.

ACA Pen Llŷn a'r Sarnau

Mae ACA Pen Llŷn a'r Sarnau yn cwmpasu ardaloedd o fôr, arfordir ac aber sy'n cefnogi ystod eang o wahanol gynefinoedd morol a bywyd gwylt. Mae natur gwely'r môr a'r arfordir, yn ogystal â'r amrywiaeth o amodau amgylcheddol sy'n bresennol yn amrywio ar draws yr ACA. Mae gwahaniaethau mewn mathau o garreg a gwaddodion, agwedd, symudiad gwaddodion, amlygiad i gerrynt y llanw a symudiad y tonnau, claerder a halltedd y dŵr, ynghyd â'r rhyngweithiadau biolegol a chadwyn fwyd, wedi creu amrediad eang o gynefinoedd a chymunedau cysylltiedig o blanhigion morol a rhywogaethau anifeiliaid, gyda rhai ohonynt yn unigryw i Gymru.

Mae ACA Pen Llŷn a'r Sarnau yn safle o sawl diddordeb sydd wedi'i ddewis oherwydd presenoldeb naw math o gynefin morol a bywyd gwylt cysylltiedig (mathau o gynefin Atodiad 1 y Gyfarwyddeb Cynefinoedd) a thair rhywogaeth mamaliaid (rhywogaethau Atodiad 2 y Gyfarwyddeb Cynefinoedd). Ar gyfer y cynefinoedd a rhywogaethau cynhwysol, caiff ACA Pen Llŷn a'r Sarnau ei hystyried i fod yn un o'r ardaloedd gorau yn y Deyrnas Unedig am: Riffiau, Cilfachau a baeau mawr a bas, Banciau tywod y mae dŵr môr yn gorchuddio rhywfaint ohonynt drwy'r adeg, Aberoedd, Lagŵns arfordirol.

Bregusrwydd: Gallai adeiladu (e.e. llithrfeydd, amddiffynfeydd arfordirol a marinas/harbyrau) achosi aflonyddwch i'r cynefinoedd morydol, gwastadeddau llaid a thywod rhynglanwol, a chynefinoedd riff ac amharu ar brosesau ffisegol hanfodol ar gyfer cynnal a chadw'r cynefinoedd hyn. Mae rhai cymunedau riff yn agored i aflonyddwch gan ddulliau pysgota penodol, yn arbennig offer trwm i bysgota'r pysgod ar y gwaelod. Mae cymunedau yn yr ACA yn sensitif i lygredd olew.

ACA Rhinog

Wedi'i sgopio allan

Gallai gwelliannau FCERM a gwaith cynnal a chadw i asedau rheoli risg llifogydd ac erydu arfordirol achosi effeithiau andwyol o bosib yn sgil colli nodweddion cynefinoedd.

Effaith andwyol ar ansawdd dŵr morol oherwydd unrhyw waith cynnal a chadw neu adeiladu.

Wedi'i sgopio i mewn

Gall addasiad i ddulliau draenio'r ucheldir (e.e. ffosydd, draeniau) drwy gynnal a chadw, gan gynnwys clirio sianeli gael effaith andwyol ar nodweddion cynefin tir corsiog y safle (e.e. mignen a rhostir gwlyb).

<p>Mae'r Rhinogydd wedi'u cerfio o raeau Cambrian caled, asidig cromen Harlech, ac mae'r topograffi'n arw gyda llynnoedd gwasgaredig ar yr ucheldir, llethrau â chreigiau anferth arnynt, clogwyni a brigiadau.</p> <p>Mae lleoliad daearyddol y safle yn golygu bod y môr yn dylanwadu ar yr hinsawdd, gan arwain at lawiad uchel, tymereddau cymedrol a lleithder uchel yn gyffredinol. Y prif lystyfiant yno yw'r grug <i>Calluna vulgaris</i>, sy'n tyfu ar briddoedd tenau, gwael ac asidig. Mae pori a llosgi dros y 60 mlynedd diwethaf wedi bod yn eithaf cyfyngedig, felly mae'r grug yn ddwfn ac yn aeddfed. Mae hyn, ynghyd â'r prif amodau hinsoddol, wedi arwain at fflora cyfoethog o blanhigion bryophyte a rhedyn ar y ddaear. Mae'r safle hwn yn unigryw yng Nghymru fel enghraifft o gynefin <i>Calluna</i> o'r fath sydd heb ei addasu.</p> <p>Bregusrwydd: Mae'r glawiad trwm a'r ddaeaereg/priddeg asidaidd helaeth yn golygu fod yr ardal yma, yn enwedig ei chyrsgiau dŵr a'r llynnoedd, yn sensitif i asideiddio. Mae'r rhostir cefnforol sy'n gyfoeth o gen a bryoffytau yn agored i gael eu llosgi a chael eu niweidio gan orbori.</p>	<p>Wedi'i sgopio i mewn</p>
<p>AGA Traeth Lafan</p> <p>Saif Traeth Lafan ym mae Conwy, rhwng Bangor a Llanfairfechan yng ngogledd orllewin Cymru. Mae'r ardal fawr hon o wastadeddau tywod a llaid rhynglanwol wedi'i lleoli ar ymyl dwyreiniol y Fenai. Mae rhannau o'r ardal yn gwbl agored a cheir yma amrywiaeth o amodau, wedi'u cyfoethogi gan ffrydiau dŵr croyw sy'n llifo ar hyd y gwastadeddau. Mae'r safle'n bwysig am ei adar dŵr sy'n gaeafu yno, yn enwedig Pioden y môr (<i>Haematopus ostralegus</i>) a'r Gylfinir (<i>Numenius arquata</i>). Dan amodau tywydd garw'r gaeaf, mae Traeth Lafan yn gweithredu fel lloches i biod y môr a gaiff eu dadleoli o aber afon Dyfrdwy. Mae'r safle hefyd yn glwydfan bwrw pwysig i'r Wyach Fawr Gopog (<i>Podiceps cristatus</i>) tua diwedd yr haf/dechrau'r hydref.</p> <p>Bregusrwydd: Mae pryderon wedi bod y gall y gwaith achlysurol o garthu cocos drwy sugno brinhau ffynhonnell fwyd priod y môr.</p>	<p>Effeithiau andwyol gan Sŵn/aflonyddwch gweledol i nodweddion rhywogaethau adar yn sgil cynnal a chadw i asedau rheoli risg llifogydd ac erydu arfordirol.</p> <p>Wedi'i sgopio i mewn</p>
<p>ACA Y Fenai a Bae Conwy</p> <p>Mae'r amodau ffisiograffig unigryw a geir o fewn ACA Afon Menai a Bae Conwy yn gwneud y safle hwn yn un anarferol, sydd wedi'i gydnabod ers amser fel safle pwysig ar gyfer bywyd</p>	<p>Gallai gwaith cynnal a chadw i asedau rheoli risg llifogydd ac erydu arfordirol a gwaith adeiladu'n gysylltiedig â'r rhaglen FCERM achosi effeithiau andwyol o bosib yn sgil colli nodweddion cynefinoedd.</p>

<p>gwyllt morol. Mae'r amrywiaeth mewn amodau ffisegol ac amgylcheddol drwy'r safle, gan gynnwys mathau o garreg a gwaddodion, agwedd, claerder y dŵr ac amlygiad i gerrynt y llanw a symudiad y tonnau yn arwain at amrediad eang o gynefinoedd a chymunedau morol cysylltiedig. Mae nifer o'r mathau hyn o gymunedau yn anarferol i Gymru. O ddiddordeb arbennig mae'r continwmm o amodau amgylcheddol a ffisegol ynghyd â'r cymunedau morol cysylltiedig, o'r dŵr cul yn y Fenai sy'n profi'r llanw ond nid gymaint y tonnau i ddyfroedd mwy agored Bae Conwy a Phen y Gogarth a'r Gogarth Fach sy'n gymharol agored i'r tonnau. Mae ACA Y Fenai a Bae Conwy yn safle o sawl diddordeb sydd wedi'i ddewis oherwydd presenoldeb pum math o gynefin morol a bywyd gwyllt cysylltiedig (mathau o gynefin Atodiad I y Gyfarwyddeb Cynefinoedd). Ar gyfer y cynefinoedd cymhwysol, ystyrir bod yr ACA yn un o'r ardaloedd gorau yn y DU ar gyfer; Gwastadeddau llaid a thywod nad ydynt yn cael eu gorchuddio gan ddŵr môr pan fo'r llanw'n isel, Riffiau, Banciau tywod y mae dŵr môr yn gorchuddio rhywfaint ohonynt drwy'r adeg.</p> <p>Bregusrwydd: Gallai adeiladu (e.e. llithrfeydd, amddiffynfa arfordirol a marinas/harbyrau) achosi aflonyddwch i'r cynefinoedd Ewropeaidd ac amharu ar brosesau ffisegol hanfodol ar gyfer cynnal a chadw'r cynefinoedd hyn. Gall yr effeithiau posib o offer trwm i bysgota pysgod ar y gwaelod ar y banc tywod islanwol a chynefinoedd cilfachau a baeau mawr a bas fod yn niweidiol. Gallai gwaredu'r deunydd wedi'i garthu fod yn negyddol. Mae cymunedau morol yn yr ACA yn sensitif i lygredd olew.</p>	<p>Effaith andwyol ar ansawdd dŵr y môr oherwydd unrhyw waith cynnal a chadw ar asedau rheoli risg llifogydd ac erydu arfordirol.</p> <p>Wedi'i sgopio i mewn</p>
<p>ACA Y Twyni o Abermenai i Aberffraw</p> <p>Mae Ardal Cadwraeth Arbennig Abermenai i Aberffraw wedi'i lleoli yn rhan ddeheuol Y Fenai ar Ynys Môn ac yn Ngwynedd, Cymru. Mae'n cynnwys tair prif ardal, ac mae un o'r rhain wedi'i lleoli yng Ngwynedd, Morfa Dinlle. Mae Morfa Dinlle yn cynnwys traethell graean / twyni cymhleth a ffurfiodd o ganlyniad i waddodion rhewlifol yn cael eu herydu, a hynny'n bennaf i'r de o'r safle, a'r rheini wedyn yn cael eu cario tua'r gogledd a'u gadael yno. Wrth y ffin tua'r môr mae llawer o'r safle wedi'i orchuddio gan raeau moel, ac wedyn tua'r mewndir ceir graean â llystyfiant arno, a thwyni tywod.</p> <p>Bregusrwydd: Pwysau hamdden trwm ar y traethau a'r twyni, yn arwain at ansefydlogi.</p>	<p>Mae'r safle wedi'i leoli yng nghornel de-orllewinol Ynys Môn ac wrth geg y Foryd yng Ngwynedd. Mae wedi'i ddynodi am ei systemau twyni a'r rhywogaethau planhigion cysylltiedig, ac mae wedi'i adnabod ar gyfer asesiad HRA gan ei fod yn rhannol o fewn yr ardal GLFRMS. Fodd bynnag, ni ragwelir y bydd unrhyw effeithiau llygredd, o bosib yn sgil yr LFRMS, yn achosi effeithiau negyddol i nodweddion twyni'r safle hwn.</p> <p>Wedi'i sgopio allan</p>

